Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
**i ddefnyddwyr ynni**





Rydym yma i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bob defnyddiwr ynni, nawr ac yn y dyfodol.







# 2017-18

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Cyf 1107

ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
**i ddefnyddwyr ynni**

# 2017-18

**Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

(Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018)

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i Dŷ'r Cyffredin drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 28 Mehefin 2018

Cyf 1107

© Hawlfraint y Goron 2018

Mae'r cyhoeddiad hwn yn drwyddedig o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn hawlfraint i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r cyfeiriad canlynol: Ofgem, 10 South Colonnade, Canary Wharf, London, E14 4PU.

ISBN 978-1-5286-0480-2

CCS0618756752 06/18

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

**Adroddiad ar Berfformiad**

Rhagair y Cadeirydd ..... 5
Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol ..... 6

Galluogi marchnad fanwerthu sy'n gweithio'n well ..... 9

Hwyluso newid yn y system ynni ..... 12

Rheoleiddio'r rhwydweithiau ac RIIO ..... 15

Ffynhonnell dadansoddi ansawdd awdurdodol ..... 18

Gweithgareddau busnes craidd ..... 20

E-Serve ..... 23

Ein rhanddeiliaid ym Mhrydain Fawr ..... 26

Adroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr ..... 27

Adroddiad Cynaliadwyedd ..... 30

**Adroddiad ar Atebolrwydd** ..... 36

**Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad** ..... 58

**Cyfrifon Adnoddau** ..... 65

**Datganiad Ymddiriedaeth** ..... 86

**Atodiadau**

**Atodiad I** - Perfformiad yn erbyn nodau i'w cyflawni 2017-18 ..... 99
**Atodiad II** - Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2017/18 ..... 103
**Atodiad III** - Ymchwiliadau a chamau gorfodi 2017-18 ..... 105
**Atodiad IV** - Ymrwymiadau nad ydynt ar y gyflogres ..... 107
**Atodiad V** - Amser Cyfleuster Undeb Llafur ..... 108

# Amdanom ni

**Ni yw rheoleiddiwr ynni annibynnol Prydain Fawr, yn gweithio i ddiogelu buddiannau defnyddwyr ynni nawr ac yn y dyfodol.**

Ein diben craidd yw sicrhau y gall pob defnyddiwr gael gwerth a gwasanaeth da gan y farchnad ynni. Rydym yn ffafrio atebion ar gyfer y farchnad lle y bônt yn ymarferol, rheoleiddio cymhelliant ar gyfer monopolïau, a dull gweithredu sy'n ceisio galluogi arloesedd a newid buddiol gan ddiogelu defnyddwyr ar yr un pryd.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein cynnydd o ran y prosiectau a ddisgrifiwyd yn ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2017-18. Mae hefyd yn asesu sut mae ein gweithredoedd wedi cyfrannu at ddiogelu buddiannau pob defnyddiwr nawr ac yn y dyfodol - o ddefnyddwyr domestig, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed, i fusnesau masnachol - a'r canlyniadau strategol rydym yn ceisio'u sicrhau, sef::

1. **Biliau** is nag y byddid yn eu gweld fel arall.
2. **Llai o niwed i'r amgylchedd** nawr ac yn y dyfodol.
3. **Dibynadwyedd a diogelwch gwell.**
4. **Gwasanaeth o ansawdd gwell,** sy'n briodol ar gyfer gwasanaeth hanfodol.
5. **Buddiannau i'r gymdeithas gyfan** yn cynnwys cymorth i'r sawl sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau.

# Rhagair y Cadeirydd
## David Gray

Mae wedi bod yn gyfnod cyffrous i wasanaethu fel Cadeirydd Ofgem, gyda chymaint o newid arwyddocaol yn digwydd yn y diwydiant ynni. Wrth i mi ysgrifennu fy rhagair olaf i'n Hadroddiad Blynyddol cyn i mi ymddeol ym mis Medi, mae dwy thema sydd wedi bod yn flaenllaw yn ein gwaith – ac yn y rhan fwyaf o'r ddadl ynghylch ynni – dros y pum mlynedd diwethaf, wedi gwneud cryn argraff arnaf.

Y gyntaf yw diffyg ymddiriedaeth ac ymgysylltu. Mae llawer o gwsmeriaid yn dal i gredu bod y farchnad ynni yn anodd ei deall ac nid ydynt yn ymddiried ynddi i sicrhau'r canlyniad gorau i ddefnyddwyr. Dyna un o'r rhesymau dros ein penderfyniad i'w chyfeirio at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn 2014. Yn fwy diweddar, rydym wedi gweld cynnydd gwirioneddol – gyda mwy o gyflenwyr yn ymuno â'r farchnad, mwy o ddewis i gwsmeriaid, a mwy o gwsmeriaid yn newid cyflenwyr. Ond dim ond ffordd o gyrraedd y nod yw'r rhain. Ein hamcan yw sicrhau marchnad lle mae cwsmeriaid yn teimlo'n hyderus, yn derbyn gwasanaeth da ac yn talu prisiau cystadleuol. Ac, o ran hyn, mae angen i ni wneud mwy.

Yr ail thema yw newid yn y diwydiant – wedi'i ysgogi gan ddatblygiadau technolegol a'r rheidrwydd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r system ynni yn trawsnewid yn un carbon is, sy'n fwy datganoledig, hyblyg, dynamig ac ymatebol – ac mae'r newid hwnnw'n parhau i ddigwydd yn gyflymach, yn fwy dwys ac mewn modd anos ei ragweld.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd y dwy thema hon yn cydgyfarfod. Gyda'i gilydd, gallai mesuryddion deallus, technoleg ddigidol, dulliau storio batris cost isel a cherbydau trydan gynnig gwasanaethau mwy apelgar ac amrywiol i ddefnyddwyr – a mwy o ffyrdd o leihau biliau ynni. Ni fydd rhai o'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud am beth amser, ond maent wir yn gyffrous a gallent arwain at farchnad ynni gwbl wahanol i'r hyn sydd gennym heddiw.

Mae ein gwaith wedi cynnwys gosod y sylfeini ar gyfer y newidiadau hyn. Dros y blynyddoedd nesaf, bydd yn cynnwys sicrhau bod defnyddwyr yn cael y budd mwyaf posibl ohonynt, a sicrhau – beth bynnag fydd yn digwydd yn y dyfodol – bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu.

Yn y byrdymor, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu bod angen gwneud mwy nawr ar gyfer cwsmeriaid nad ydynt yn cael llawer o werth o dariffau diofyn, ac mae'n pasio deddfwriaeth ar gyfer cap ar brisiau. Byddwn yn cyflawni hyn. Gobeithio y bydd yn rhoi cymorth a thawelwch meddwl i gwsmeriaid ar unwaith, yn ogystal â chyfle i ailosod y system ynni gyfan yn ei hanfod at y dyfodol.

Yn y tymor hwy, byddem yn gobeithio na fydd angen cap eang ar brisiau. Ond, fel y bydd Dermot Nolan, yn dweud yn aml, mae ynni'n wasanaeth hanfodol – ac rydym yn cydnabod y gall fod angen diogelu rhai cwsmeriaid yn barhaus o bosibl, yn enwedig y rhai mewn sefyllfaoedd bregus neu'r rhai na allant ymgysylltu'n effeithiol. Felly, ochr yn ochr â'r cap ar brisiau, bydd angen i ni weithio gyda'r Llywodraeth i fynd i'r afael â hyn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ffarwelio â David Fisk, Jim Keohane, Nicola Hodson a Rachel Fletcher – a hoffwn ddiolch ar goedd iddynt am y profiad, yr arbenigedd a'r hwyliau da roedd pob un ohonynt yn eu cyfrannu at eu rolau. Cyn bo hir, byddaf yn ymuno â nhw ymhlith cyn-aelodau'r Awdurdod, a hoffwn hefyd ddiolch i bob aelod o'r Awdurdod sydd wedi gwasanaethu ochr yn ochr â mi dros y pum mlynedd diwethaf, yn ogystal â staff rhagorol Ofgem sydd wedi bod yn gymorth aruthrol i mi.

Yn wir, ein pobl yw ein hased mwyaf – maent yn gweithio'n galed, yn broffesiynol ac yn ymrwymedig i sicrhau bod y system ynni'n gweithio i bob defnyddiwr. Rydym yn ffodus i'w cael – ac er bod newid yn y diwydiant ynni yn digwydd yn gyflymach ac ar raddfa fwy nag ar unrhyw adeg y gallaf ei chofio, mae'n sicr na allai fy olynydd ddymuno cael grŵp mwy ymroddgar na thalentog o gydweithwyr i wynebu'r her hon.



**David Gray**
Cadeirydd



# Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol
## Dermot Nolan

Un o'r pethau rwy'n eu hoffi fwyaf am fy ngwaith yw'r cyfle i weld ein gwaith yn cael ei wneud. Yn gynharach yn 2018, ymwelais ag elusen i ddefnyddwyr yn Glasgow i wrando a dysgu am y ffordd mae'n rhoi cymorth i drigolion lleol gyda'u biliau a'u hanghenion ynni. Gwnes i gyfarfod a sgwrsio â phobl ddiddorol, ac roedd hi'n wych gweld sut mae'r cyngor ymarferol y maent yn ei roi, a'n gwaith ni, yn helpu gyda'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu.

Mae'n hawdd i reoleiddiwr ymgolli yn y swigen economaidd a gwleidyddol ac anghofio gwir ystyr y sefyllfa unigryw rydym ynddi, a hynny ar adeg mor ddiddorol.

Dyna pam, yn fy marn i, y mae hefyd yn bwysig camu allan o'r swigen, gwrando a dysgu. Yn Glasgow, ac mewn llawer o leoedd eraill rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i ymweld â nhw eleni, cefais gyfle i ddysgu llawer o weld y gwahaniaeth gwirioneddol rydym yn ei wneud.

I mi, mae'r achlysuron hyn yn atgyfnerthu'r ffaith ein bod, er gwaethaf yr heriau, ar y trywydd cywir ac yn cyflawni canlyniadau ystyrlon i ddefnyddwyr ym mhob cwr o'r wlad.

O ganlyniad i'n gwaith ar ddiogelu prisiau eleni, roeddem ar dudalennau blaen y papurau newydd, ac wrth wraidd y sgwrs ynglŷn â thegwch i ddefnyddwyr mewn marchnadoedd fel y farchnad ynni.

Gwnaethom gyflwyno **cap ar brisiau** ar gyfer pobl sydd â mesuryddion rhagdalu, ac ymestyn y tariff diogelu hwn i filiwn yn rhagor o gartrefi agored i niwed ar ddechrau 2018. Wedyn, gwnaethom ddechrau paratoi i osod cap ehangach ar brisiau, gan weithio ochr yn ochr â'r llywodraeth.

Gwnaethom lansio nifer o dreialon er mwyn annog mwy o gwsmeriaid i ymgysylltu a newid cyflenwr, gan gynnwys anfon llythyr at fwy na 130,000 o gwsmeriaid ar dariffau drud, yn rhoi gwybod iddynt bod rhai rhatach ar gael iddynt, a sut y gallent newid. O ganlyniad i hyn, gwnaeth y gyfradd newid dreblu, a byddwn yn ceisio adeiladu ar hyn yn ystod 2018-19.

Gwnaethom gyflwyno gwasanaeth newid cyflenwr ar-lein er mwyn helpu pobl nad ydynt yn cael llawer o werth o'u tariffau i newid cyflenwr yn gyflym, yn syml ac yn ddibynadwy. Rydym wedi gweld rhai canlyniadau da hyd yma a byddwn yn ei ehangu i gynnwys mwy o bobl.

O ran **rhwydweithiau**, mae cryn dipyn o'n gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau gwerth i gwsmeriaid. Eleni, gwnaethom ddechrau datblygu'r fframwaith ar gyfer ein rheolaeth prisiau nesaf, RIIO-2. Bydd y rheolaeth prisiau yn llymach i gwmnïau rhwydwaith, ac yn cyflawni mwy i ddefnyddwyr. Byddwn yn rhoi llais cryfach i ddefnyddwyr wrth i ni ddatblygu'r fframwaith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, er mwyn sicrhau tegwch o ran enillion a dibynadwyedd.

Ar thema costau rhwydwaith, ym mis Mehefin 2017 gwnaethom gymeradwyo addasiadau i gael gwared ar rai o'r taliadau “buddion ymgorfforedig” sy'n deillio o gostau rhwydweithiau trawsyrru. Roeddem o'r gred bod y taliadau hyn yn ystumio cystadleuaeth o blaid cynhyrchwyr ynni bach sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith dosbarthu, ac yn cynyddu costau'n sylweddol i ddefnyddwyr. Apeliodd rhai perchenogion cynlluniau cynhyrchu ynni bach yn erbyn y penderfyniad hwn drwy adolygiad barnwrol, ac, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r mater yn cael ei ystyried yn yr Uchel Lys.

Ym mis Hydref 2017, gwnaethom wrthod addasiad taliadau (CMP 261) a gynigiwyd gan rai cynhyrchwyr ynni mawr, a fyddai wedi arwain at ad-daliad o hyd at £200m, ar draul defnyddwyr. Amddiffynnwyd y penderfyniad hwn yn llwyddiannus yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar ôl apêl arall.

Gyda'i gilydd, bydd y penderfyniadau hyn yn arbed cannoedd o filiynau o bunnau y flwyddyn i ddefnyddwyr, gan leihau achosion o ystumio cystadleuaeth yn y farchnad ar yr un pryd.

Mae diwygio taliadau rhwydwaith yn rhan bwysig o'n paratoadau ar gyfer rheoleiddio systemau ynni er mwyn sicrhau dyfodol carbon isel deallus a hyblyg.

Mae cryn dipyn o'n gwaith yn cynnwys edrych i'r dyfodol: ar yr hyn a fydd yn llywio ac yn symbylu'r farchnad ynni, a sut y gallwn chwalu'r rhwystrau rhag pethau fel dulliau storio a thechnolegau deallus.

Rydym am sicrhau chwarae teg fel bod pawb yn cael budd o newid, nid dim ond y rhai sy'n gallu fforddio'r dechnoleg ddiweddaraf neu'r rhai sy'n ymgysylltu fwyaf â'r farchnad.

Rhoddodd ein **Cyswllt Arloesi** gyngor i fwy na 150 o arloeswyr sydd â modelau busnes newydd eleni. Credwn y bydd yr arloeswyr hyn yn ysgogi'r newid yn y system ynni, ac rydym am hwyluso hyn cymaint â phosibl.

Wrth gwrs, nid yw pethau'n berffaith, ac mae llawer o heriau enfawr i'w hwynebu o hyd. Rydym yn cydnabod y rhain. Nid oes atebion hawdd na chyflym mewn perthynas â thaliadau rhwydwaith, trawsnewid ynni, capiau ar brisiau na rheolaethau.

Ond credaf fod gennym staff talentog yn Ofgem sy'n meddwl yn greadigol a chyda meddylfryd hirdymor am ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion hyn, a beth sydd nesaf ar y gorwel. Yr un flaenoriaeth sydd ganddynt bob amser: diogelu'r defnyddiwr, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym am wneud mwy. Rydym am fynd ymhellach, ac rydym am wneud mwy o wahaniaeth, i fwy o bobl. Byddwn yn cyrraedd y nod, ond ni fydd yn broses hawdd.

Eleni gwnaethom ffarwelio â Rachel Fletcher a adawodd i gymryd swydd Prif Weithredwr Ofwat, a chyhoeddodd Martin Crouch, Chris Poulton ac Andrew Wright eu bod yn bwriadu gadael yn ystod 2018 hefyd.

Cyn bo hir, byddwn yn ffarwelio â'n Cadeirydd, David Gray, a fydd yn ymddeol yn nes ymlaen eleni. Rwyf wedi mwynhau gweithio gyda phob un ohonynt yn fawr iawn, yn enwedig David, y mae ei farn a'i gyngor doeth wedi bod yn werthfawr iawn i mi.

Gwnaeth ein timau yn Glasgow a Chaerdydd ymgartrefu yn eu swyddfeydd newydd eleni, ac ym mis Ebrill symudodd ein timau yn Llundain o'u swyddfeydd yn San Steffan i Canary Wharf. Gwnaethom hefyd ailstrwythuro ein sefydliad, gan newid o chwe is-adran i dair. Credwn y bydd y newidiadau hyn yn ein helpu i gyflawni'n well nag erioed ar gyfer defnyddwyr.



**Dermot Nolan**
Prif Swyddog Gweithredol



## Deall effaith ein gwaith a'r buddiannau rydym yn eu cyflawni ar ran defnyddwyr

**Yn 2018 byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad cyntaf ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr ochr yn ochr â'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae'r adroddiad hwn yn asesu'r buddiannau mesuradwy ac anfesuradwy i gwsmeriaid y byddwn yn disgwyl iddynt ddeillio o'r penderfyniadau rheoleiddio a wnaethom yn ystod y flwyddyn ariannol rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad hwn bob blwyddyn er mwyn ystyried effeithiau ein penderfyniadau ar bob math o ddefnyddwyr ym Mhrydain.**

Yn seiliedig ar ein cyfrifiadau, rydym yn disgwyl i **benderfyniadau Ofgem yn ystod y flwyddyn ariannol hon arwain at fuddiannau uniongyrchol gwerth £7,800m i ddefnyddwyr.**

Buddiannau a ragwelir i ddefnyddwyr o ganlyniad i benderfyniadau a fydd yn cael effaith dros sawl blwyddyn yw'r rhain. Mae'n bosibl y byddant yn wahanol i'r swm gwirioneddol a gyflawnir yn y dyfodol. Fodd bynnag, maent yn rhoi syniad da o faint y buddiannau y mae defnyddwyr yn eu cael o ganlyniad i'r camau gweithredu a gymerwn. Hefyd, rydym yn disgwyl i'n gwaith arwain at fuddiannau anuniongyrchol ac anfesuradwy sydd wedi'u crynhoi ar dudalennau 27 – 29.

Gwariant gweinyddol Ofgem ar gyfer y flwyddyn ariannol rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018 oedd £90.037 miliwn. Mae hyn yn rhoi cymhareb buddiannau uniongyrchol i gostau o 87, sy'n golygu ein bod, ar gyfer y penderfyniadau a wnaethom yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn disgwyl y bydd **pob £1 a wariwyd gennym yn sicrhau buddiannau uniongyrchol gwerth £87 i ddefnyddwyr.**

# Adroddiad ar Berfformiad

## Galluogi marchnad fanwerthu sy'n gweithio'n well

**Yn 2017-18, gwnaethom barhau â'n gwaith i sicrhau marchnad fanwerthu sy'n gweithio i bob defnyddiwr, lle mae cystadleuaeth yn cyfyngu ar brisiau, yn ysgogi effeithlonrwydd ac yn darparu'r ystod o wasanaethau a chynhyrchion sydd eu hangen ar gwsmeriaid.**

Roedd ein gwaith i alluogi marchnad fanwerthu sy'n gweithio'n well yn cwmpasu tri phrif faes, a oedd yn ymgorffori'r broses o roi rhwymedïau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer y farchnad ynni ar waith:

- **Ymddygiad cyflenwyr** - Sicrhau bod y drwydded a'n rhyngweithio â chyflenwyr yn hyrwyddo'r safonau ymddygiad a'r ansawdd gwasanaeth rydym ni a'r defnyddwyr yn eu disgwyl.
- **Cystadleuaeth ar yr ochr gyflenwi** – Pennu rheoliadau i hwyluso arloesedd a chystadleuaeth gadarn rhwng cyflenwyr a chyfryngwyr trydydd parti gan gynnal ymddiriedaeth defnyddwyr ar yr un pryd.
- **Consumer engagement** - Encouraging householders and small businesses to engage in the market and also to take the hassle out of switching.

### Ymddygiad cyflenwyr

Yn ystod 2017-18, gwnaethom barhau â'n proses o newid i egwyddorion gorfodadwy yn hytrach na dibyniaeth ar reolau rhagnodi manwl. Mae ein rhaglen **Rheoleiddio Manwerthu yn y Dyfodol** wedi atgyfnerthu'r diogelwch i ddefnyddwyr gan roi cyfle i gyflenwyr arloesi a chanfod y ffordd orau o sicrhau bod cwsmeriaid wrth wraidd eu busnes.

Ganol 2017, gwnaethom atgyfnerthu'r Safonau Ymddygiad (y rheolau trosfwaol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr drin pob cwsmer yn deg) a daeth y rheolau newydd i rym ym mis Hydref 2017. Ymhlith y prif newidiadau oedd gosod cyfrifoldeb penodol ar gyflenwyr i ofalu am gwsmeriaid sy'n agored i niwed, a phwysigrwydd y ffaith bod cyflenwyr yn sicrhau bod pob cartref yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arno i ymgysylltu â'r farchnad. Mae'r Safonau'n gosod cyfrifoldeb ar gyflenwyr i benderfynu ar y ffordd orau o wneud hyn, ac yn atgyfnerthu ein disgwyliad bod yn rhaid iddynt sicrhau bod defnyddwyr wrth wraidd eu busnesau. Wrth wneud hyn, bydd angen i gyflenwyr fonitro profiadau eu cwsmeriaid, er mwyn iddynt bob amser fod yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen ar eu cwsmeriaid.

Er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn parhau i ganolbwyntio ar hyn, gwnaethom hefyd gyhoeddi ein **hadroddiad blynyddol ar ddefnyddwyr agored i niwed, sydd â ffocws newydd,** am ei bod yn amlwg y gallai cyflenwyr wneud mwy i nodi a chefnogi defnyddwyr, yn enwedig ym maes rheoli dyled. Gwnaethom gymryd camau i'w **gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gynnal archwiliad allanol o'u prosesau mewn perthynas â dyled a'r ffordd y maent yn ymdrin â chwsmeriaid agored i niwed**.

Gwnaethom hefyd gymryd camau i ddiogelu **defnyddwyr agored i niwed ym mis Tachwedd 2017 drwy gyflwyno cap ar y swm y gall cyflenwyr ei godi am osod mesuryddion rhagdalu** o dan warant llys. Roedd hyn yn gorfodi cyflenwyr i ymgysylltu'n fwy effeithiol â chwsmeriaid agored i niwed sy'n wynebu dyled, yn hytrach na gosod mesuryddion rhagdalu yn orfodol. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddwyr agored i niwed, **gwnaethom wahardd gosod mesuryddion rhagdalu yn gyfan gwbl.**

Ym mis Mawrth gwnaethom gyhoeddi **ein penderfyniad i gyfyngu ar ôl-filiau i 12 mis**, yn amodol ar eithriadau cyfyngedig. Bydd yr Amod Trwydded Safonol (21BA) yn gynwys i ddefnyddwyr domestig a microfusnesau a daw i rym ar 1 Mai. Bydd defnyddwyr domestig wedi'u diogelu o 1 Mai a microfusnesau o 1 Tachwedd. Mae hyn yn dilyn yr ymrwymiad a wnaed gennym yr haf diwethaf i gyhoeddi'r penderfyniad ddechrau 2018.

Mae'r newid i reolau trosfwaol yn atgyfnerthu ein ffocws ar ddiogelu defnyddwyr, ac rydym yn gweithredu ar unwaith pan na fydd cyflenwyr yn cyrraedd y nod. Mae gennym amrywiaeth o fesurau i sicrhau **cydymffurfiaeth,** o fonitro a phennu targedau i sicrhau taliadau unioni a dechrau ymchwiliadau ffurfiol. O ganlyniad i'n ffocws parhaus ar gydymffurfiaeth yn 2017-18, cynhaliwyd sawl ymchwiliad lle'r oedd cyflenwyr yn codi taliadau anghywir ar ddefnyddwyr. Cafodd yr achosion hyn eu datrys yn gyflym a heb fod angen cymryd camau gorfodi, a chafodd y defnyddwyr dan sylw iawndal a thaliadau unioni, tra bo cyflenwyr yn gwella eu prosesau.

## Cystadleuaeth ar yr ochr gyflenwi

Rydym bellach yn gweld cyfleoedd arwyddocaol i arloesi ym mhob rhan o'r system ynni ac rydym wedi dechrau archwilio rôl cyflenwyr traddodiadol yn y farchnad, a'r cyfleoedd i ddefnyddwyr gael a rheoli eu cyflenwad mewn ffyrdd newydd. Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi bod yn archwilio p'un a yw'r model **'canolfan cyflenwyr'** a geir yn y farchnad ar hyn o bryd yn addas at y diben o hyd neu a ddylem ystyried gwneud newidiadau wrth i'r system ynni esblygu. Ym mis Tachwedd 2017, gwnaethom lansio cais am dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar rwystrau rhag arloesi a ffyrdd o ddiogelu pob defnyddiwr yn well, sut bynnag y bônt yn cael eu cyflenwad ynni.

Yn 2017-18, gwelwyd twf cyflym parhaus yn nifer y cyflenwyr newydd sy'n ymuno â'r farchnad fanwerthu. Helpodd y twf hwn i gynyddu'r dewis i ddefnyddwyr a lleihau prisiau, a gwelwyd mwy o gynigion arloesol o ran tariffau a gwasanaethau yn cael eu cyflwyno.

Yn unol â'r disgwyl mewn marchnad, mae nifer fach o gyflenwyr wedi ymadael â'r farchnad neu wedi uno yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym hefyd wedi defnyddio ein prosesau Cyflenwr Dewis Olaf i ddiogelu defnyddwyr pan fo cyflenwr ynni bach yn rhoi'r gorau i fasnachu. Roedd ein prosesau'n gyflym ac yn effeithiol, gan sicrhau bod balansau credyd cwsmeriaid yn cael eu diogelu a bod y cyflenwadau'n aros yn ddiogel. Roedd yr amodau gweithredu'n heriol i rai cyflenwyr a oedd newydd ymuno â'r farchnad ac, mewn nifer fach o achosion, nid oedd gwasanaethau cwsmeriaid ac ymddygiad cyflenwyr yn cyrraedd y safon a ddisgwylir gennym. Gwnaethom fonitro'r gweithgarwch hwn yn ofalus yn ystod 2017-18, a byddwn yn dechrau adolygiad o drefniadau trwydded gyflenwi yn ystod 2018-19.

Fel rhan o'n rhaglen ehangach i hybu cystadleuaeth rhwng Gwefannau Cymharu Prisiau ac ymateb i argymhellion yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, gwnaethom newid rheolau cod gwirfoddol ar gyfer Gwefannau Cymharu Prisiau ym mis Gorffennaf er mwyn ei gwneud yn haws i bobl newid i dariffau rhatach.

## Ymgysylltu â defnyddwyr

Mae ymgysylltu â defnyddwyr yn hanfodol i sicrhau buddiannau marchnad fanwerthu gystadleuol. Fodd bynnag, nid dim ond newid cyflenwr sydd dan sylw wrth ymgysylltu â defnyddwyr. Mae hefyd yn ymwneud â deall a gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, gan gynnwys dewis tariffau gwell gyda'r un cyflenwr.

Rydym wedi adeiladu ar rwymedïau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ac wedi lansio nifer o dreialon er mwyn annog defnyddwyr i ymgysylltu'n fwy â'r farchnad a newid cyflenwr. Gan ddysgu o dreialon llai a gynhaliwyd yn llwyddiannus yn ystod 2016-17, gwnaethom lansio **treial 'Llythyr Cynigion Rhatach o'r Farchnad'** lle y gwnaeth 130,000 o gwsmeriaid ar dariffau drud dderbyn llythyr naill ai gan eu cyflenwr neu gan Ofgem yn rhoi gwybod iddynt am dri chynnig rhatach sydd ar gael iddynt gan gyflenwyr eraill. O ganlyniad i hyn, gwnaeth y gyfradd newid dreblu.

Gwnaethom **gyflwyno treial o wasanaeth newid ar-lein newydd o'r enw 'Gwirio Eich Bargen Ynni',** er mwyn helpu cwsmeriaid sydd heb fod yn cael llawer o werth o dariffau amrywiadwy safonol am dair blynedd neu fwy i ddod o hyd i dariffau rhatach. Rydym am i ddefnyddwyr allu newid cyflenwr ynni yn gyflym, yn syml ac yn ddibynadwy. Yn ystod 2017-18, gwnaethom gynnydd sylweddol o ran ein gwaith yn y maes hwn, gan gynnwys cynigion i gynnig y gallu i newid cyflenwr erbyn y diwrnod canlynol fel arfer safonol newydd yn y diwydiant a gwella dibynadwyedd y broses o newid drwy reoli a goruchwylio data diwydiant yn well.

Rydym bellach yn bwrw ymlaen ag Achos Busnes Amlinellol y Rhaglen Newid Cyflenwr ac yn cyflwyno diwygiadau allweddol, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwmni Trosglwyddo Data gaffael **Gwasanaeth Newid Cyflenwr Canolog** a fydd yn hwyluso proses newid ddibynadwy a chyflym yn y marchnadoedd nwy a thrydan.

## Mesurau dros dro ac wedi'u targedu ar gyfer diogelu prisiau manwerthu

Cyflwynodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei rwymedi cap ar brisiau i gwsmeriaid rhagdalu ym mis Ebrill 2017, a gwnaethom gyflawni rôl ganolog yn y broses o roi'r rhwymedi ar waith drwy **bennu'r lefel prisiau ar gyfer y cap bob mis Hydref a mis Ebrill.**

O ganlyniad i dystiolaeth a gasglwyd gennym yn ystod haf 2017 (yn ogystal â chanfyddiadau ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i'r farchnad ynni) daethom i'r casgliad y byddai cyflwyno rheoliadau prisiau yn diogelu buddiannau defnyddwyr agored i niwed yn well yn y byrdymor, a gwnaethom gyflwyno **tariff diogelu Gostyngiad Cartrefi Cynnes** (sy'n gymwys i'r defnyddwyr hynny sy'n derbyn ad-daliad Gostyngiad Cartrefi Cynnes o fis Chwefror 2018 ymlaen). Ym mis Rhagfyr 2017 gwnaethom gynnal ymgynghoriad ynghylch ymestyn **y mesur diogelu hwn i gwmpasu tua dwy filiwn o gwsmeriaid agored i niwed drwy gyflwyno'r tariff diogelu pobl agored i niwed** o aeaf 2018 ymlaen. Gwnaethom esbonio ein bod ond yn bwriadu cyflwyno cap o'r fath pe na bai cap diofyn yn cael ei gyflwyno erbyn gaeaf 2018-19.

Ar 26 Chwefror, cyflwynodd y Llywodraeth gynigion ar gyfer deddfwriaeth i'r Senedd, i gyflwyno **cap dros dro ar dariffau i gwsmeriaid sydd â Thariffau Amrywiadwy Safonol a thariffau diofyn.** Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Ofgem i weithredu'r cap ar brisiau cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae Ofgem yn ymrwymedig i ddiogelu defnyddwyr ynni ac rydym yn gweithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau y gallwn weithredu'r cap ar brisiau cyn gynted â phosibl ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael Cydsyniad Brenhinol.

# Hwyluso newid yn y system ynni

**Mae'r angen i leihau allyriadau carbon, datblygiadau technolegol a'r cynnydd mewn digideiddio yn newid y ffordd y caiff ynni ei gynhyrchu, ei eneradu, ei gludo, ei storio a'i gyflenwi i ddefnyddwyr.**

Roedd ein gwaith yn ystod 2017-18, a oedd yn canolbwyntio ar hwyluso'r newid hwn yn y system ynni er budd defnyddwyr, wedi'i strwythuro o dan dair thema:

- **Hyblygrwydd, strategaeth ar gyfer rheoleiddio'r system ynni yn y dyfodol a gwaith Gweithredu System ehangach** - Ein gwaith ar nodi ein strategaeth sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, ein dull hyblyg o weithredu a disgwyliadau ar gyfer Gweithredwr System trydan ehangach er mwyn sicrhau bod y system yn ymateb i amrywiaeth o ganlyniadau yn y dyfodol.
- **Mynd i'r afael â'r ffordd y caiff taliadau rhwydwaith eu hadennill** - Yn benodol, sut y caiff taliadau gweddilliol eu hadennill yn deg a sut y caiff ystumiadau eu lleihau.
- **Hwyluso seilwaith allweddol er mwyn galluogi'r broses drawsnewid** - Sicrhau bod y sylfeini ar gyfer y newid i system fwy deallus, mwy hyblyg ac ymatebol yn cael eu gosod.

## Hyblygrwydd, strategaeth ar gyfer rheoleiddio'r system ynni yn y dyfodol a Gweithredu System ehangach

Cafodd trefniadau rheoleiddio'r farchnad drydan eu cynllunio ar gyfer system â nodweddion gwahanol iawn i'r hyn a geir heddiw a'r hyn rydym bellach yn ei ddisgwyl yn y dyfodol. Er enghraifft, mae mwy na chwarter yr holl gapasiti cynhyrchu bellach yn gysylltiedig â rhwydweithiau dosbarthu yn hytrach na rhwydweithiau trawsyrru. Gweithrediadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ysbeidiol, sydd ond yn cynhyrchu ynni pan fydd gwynt yn chwythu neu'r haul yn tywynnu, yw'r rhan fwyaf ohono, ond nid y cyfan ohono. Hefyd, mae cyfran gynyddol o'r ynni a gynhyrchir yn cael ei gynhyrchu ar safleoedd defnyddwyr, a hynny'n rhannol o ganlyniad i dwf paneli solar. Mae technolegau newydd yn datblygu ac mae costau llawer ohonynt, fel technolegau storio, yn lleihau'n gyflym.

Gwnaethom gyhoeddi dau bapur pwysig ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau hyn ganol 2017 – y **Cynllun Systemau Deallus a Hyblygrwydd, a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS)** a'n **Strategaeth ar gyfer rheoleiddio'r system ynni yn y dyfodol.** Mae'r cyntaf yn nodi **29 o gamau gweithredu y mae'r Llywodraeth ac Ofgem yn eu cymryd i sicrhau system ynni fwy deallus a hyblyg** drwy gael gwared ar rwystrau rhag technolegau a dulliau storio deallus, gan alluogi cartrefi a busnesau deallus, a gwneud i farchnadoedd weithio'n hyblyg.

Ochr yn ochr â hyn, mae ein gwaith ar y **Strategaeth** yn cwmpasu'r cynllun hwn ac yn cyd-fynd ag ef, ond mae'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd allweddol y gallai newidiadau yn y dyfodol eu cyflwyno ar gyfer agweddau gwahanol ar y farchnad ynni a threfniadau rheoleiddio. Ymhlith yr heriau hyn mae llwyfannau trawsbynciol i gefnogi'r broses o drawsnewid ynni, **cydbwyso cyflenwad a galw bob amser, rheoli a datblygu lleoliadau'r system ynni yn effeithlon, cydgysylltu'r system a'r fframwaith sefydliadol a chefnogi arloesedd** gan **sicrhau canlyniadau** da i ddefnyddwyr ar yr un pryd.

## Y ffordd y caiff taliadau rhwydwaith eu hadennill gan ddefnyddwyr

Mae'n bwysig bod taliadau am gael mynediad at y rhwydweithiau ynni a'u defnyddio yn deg ac yn rhoi'r cymhellion cywir i gyfranogwyr y farchnad. Yn ystod 2016 a dechrau 2017 gwnaethom adolygu'r 'buddiannau ymgorfforedig' y gall cynhyrchwyr ynni

llai (llai na 100MW) sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau dosbarthu eu derbyn, am ein bod yn pryderu y gallai'r rheolau presennol rwystro chwarae teg. Daethom i'r casgliad bod lefel bresennol y taliadau a oedd yn mynd i'r cynhyrchwyr ynni llai hyn yn ystumio'r marchnadoedd cyfanwerthu a chapasiti, ac y byddai'r sefyllfa'n gwaethygu pe na bai camau gweithredu'n cael eu cymryd.

Ym mis Mawrth 2017, gwnaethom **gynnal ymgynghoriad ynghylch cynigion i leihau un math o daliad roedd y cynhyrchwyr ynni llai hyn yn ei dderbyn am gynhyrchu trydan ar adegau brig,** gyda'r nod o leihau costau i ddefnyddwyr a rhwystro achosion o ystumio marchnadoedd. Ym mis Mehefin 2017, gwnaethom dderbyn addasiad i'r cod sy'n rhwystro cyflenwyr rhag defnyddio cynhyrchwyr ynni llai i leihau eu cyfraniad at y weddilleb galw Defnydd o System Rhwydwaith Trawsyrru (TNUoS). Bydd taliad newydd sy'n adlewyrchu'r costau yn cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau ar 1 Ebrill 2018. Mae'r penderfyniad hwn wedi cael ei herio gan gyfranogwyr y diwydiant ac mae'n destun proses adolygiad barnwrol ar hyn o bryd.

Hefyd, rydym wedi bod yn archwilio amrywiaeth o faterion eraill sy'n ymwneud â thaliadau rhwydwaith ac yn ystyried sut y dylai taliadau gweddilliol gael eu codi ar gyfer rhwydweithiau nwy a thrydan. I'r perwyl hwn, gwnaethom gynnal ymgynghoriad yn ystod gwanwyn 2017 ynghylch cynigion i gynnal Adolygiad Taliadau wedi'i Dargedu (ATD) ar daliadau gweddilliol trydan, a gwnaethom lansio'r Adolygiad Cod Sylweddol ATD ym mis Awst 2017. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran yr Adolygiad Cod Sylweddol, ac yn ystod ail hanner 2017 gwnaethom ddechrau gwaith ar asesiadau manwl o systemau adennill taliadau gweddilliol, gyda'r bwriad o gynnal ymgynghoriad ynghylch opsiynau polisi manwl yn ystod ail hanner 2018.

Datblygiad allweddol arall eleni oedd ffurfio **Fforwm Taliadau'r Dyfodol,** sy'n helpu i hwyluso mewnbwn rhanddeiliaid i newidiadau arfaethedig a llywio'r adolygiadau parhaus amrywiol o fynediad a thaliadau'r rhwydweithiau trydan.

Gwnaethom helpu'r diwydiant nwy i weithredu ar gasgliadau'r Adolygiad o Daliadau Trawsyrru Nwy a rhoi'r Cod Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Tariffau Nwy ar waith. Mae hyn wedi arwain at broses yr **Adolygiad Taliadau Nwy** sydd â'r nod o ystyried newidiadau i'r fethodoleg mewn perthynas â thaliadau trawsyrru nwy, a'u cymeradwyo o bosibl, yn ystod 2018-19. Gyda'i gilydd, mae'r meysydd gwaith hyn mewn perthynas â thaliadau rhwydwaith – ar gyfer trydan a nwy – wedi cael eu cydgysylltu mewn ffordd sy'n sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig ac yn hwyluso cysondeb, rhagweladwyedd a chwarae teg i holl gyfranogwyr y marchnadoedd.

## Galluogwyr allweddol y broses drawsnewid er mwyn sicrhau bod y seilwaith hollbwysig yn ei le

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod 2017-18 o ran gosod y sylfeini ar gyfer y newid i system fwy deallus, mwy hyblyg ac ymatebol. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys **monitro ac asesu cynlluniau cyflenwyr ar gyfer cyflwyno'r rhaglen gosod mesuryddion deallus** ddechrau 2017 a 2018, a sicrhau bod y rhwymedigaethau rheoliadol sydd ar gyflenwyr yn ysgogi'r cyfuniad cywir o effeithlonrwydd, costeffeithiolrwydd ac ymgysylltu â defnyddwyr. Fel rhan o'r seilwaith cyffredinol ar gyfer mesuryddion deallus, ni sy'n gweithredu'r rheolaeth prisiau ar ran y Cwmni Trosglwyddo Data (CTD) ac yn 2017-18 gwnaethom weithredu'r **gyfundrefn perfformiad gweithredol CTD** a chyhoeddi ein **cynigion ar gyfer Rheolaeth Prisiau CTD** yn ystod 2016-17.

Mae cyflwyno'r rhaglen gosod mesuryddion deallus hefyd yn cynnig y potensial ar gyfer prosesau setlo (y broses o godi taliadau ar gyflenwyr am y gwahaniaeth rhwng faint o ynni a brynir ganddynt a faint y mae eu cwsmeriaid yn ei ddefnyddio mewn gwirionedd).

Yn 2017, daeth y newidiadau roeddem wedi'u gwneud er mwyn galluogi prosesau setlo bob hanner awr ar sail ddewisol i rym, a gwnaethom lansio Adolygiad Cod Sylweddol ar gyfer setlo bob hanner awr ar gyfer y farchnad gyfan i ddefnyddwyr domestig a defnyddwyr annomestig llai. Yn ystod chwarter olaf 2017-18, gwnaethom hefyd gyhoeddi'r Achos Busnes strategol a'r sail resymegol dros setlo bob hanner awr ar gyfer y farchnad gyfan a gwnaethom gynnydd o ran cynllun y system newydd. Bydd y newidiadau rydym yn eu gwneud i gyflwyno prosesau setlo bob hanner awr yn rhoi cymhellion i gyflenwyr helpu eu cwsmeriaid i ddefnyddio trydan ar adegau pan mae'n rhatach, gan arwain at fuddiannau sylweddol posibl o ganlyniad i wneud gwell defnydd o'r system drydan a'r seilwaith sydd eisoes yn bodoli. Drwy wneud hyn, rydym yn helpu i greu'r amgylchedd cywir ar gyfer mwy o ymateb ar yr ochr galw a system ynni fwy deallus a hyblyg, yn ogystal â hybu arloesedd a chystadleuaeth yn y farchnad fanwerthu drwy alluogi modelau busnes newydd ac arloesol.

Ochr yn ochr â Xoserve a'r diwydiant, gwnaethom hefyd gwblhau Prosiect Nexus yn llwyddiannus ym mis Mehefin 2017, gan sicrhau bod y systemau setlo a gweinyddu ar gyfer marchnad nwy Prydain Fawr yn cael eu huwchraddio mewn ffordd sy'n sicrhau bod buddiannau yn y dyfodol i ddefnyddwyr (fel defnyddio data mesuryddion deallus yn y broses setlo) yn cael eu hymgorffori.

Ddechrau 2017 gwnaethom gynnal ymgynghoriad ynghylch diwygiadau posibl i drefniadau llywodraethu codau'r diwydiant. Roedd yr ymgynghoriad, a gafodd ei ysgogi gan argymhellion ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i'r Farchnad Ynni, yn archwilio'r ffordd y caiff rheolwyr codau a chyrff cyflawni canolog cysylltiedig eu trwyddedu, gan bennu cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu codau a sefydlu bwrdd ymgynghori, gyda'r nod o sicrhau y gellir cyflawni newid strategol mewn modd didrafferth ac effeithlon. Gwnaethom gynnal gweithdai ar gyfer y diwydiant ddiwedd 2017 i ystyried cynigion ar gyfer y cyfeiriad strategol a'r bwrdd ymgynghori, a nodi cynigion ar gyfer y camau nesaf yn ein blaenraglen waith ar gyfer 2018-19.

Gan gydnabod bod y rhan fwyaf o'r arloesi yn y system ynni yn cael ei ysgogi gan entrepreneuriaid a newydd-ddyfodiaid, gwnaeth gwasanaeth cynghori ein Cyswllt Arloesi ymgysylltu â mwy na 150 o wahanol arloeswyr yn ystod 2017-18, gan dderbyn sgôr boddhad o 88%. Gwnaethom bennu canlyniadau blwch tywod rheoleiddiol 1 (gan ddyfarnu tri blwch tywod) yn derfynol ym mis Tachwedd 2017) a lansiwyd ail gais blwch tywod ym mis Hydref 2017, gan ddenu mwy na 30 o arloesiadau posibl a modelau busnes newydd. Gwnaethom hefyd gynnal rhaglen allgymorth arloesedd, a oedd yn cynnwys seminar diwrnod ar dechnoleg cadwyni blociau ym maes ynni, yn ogystal ag ymgynghori â chyrff perthnasol eraill gan gynnwys techUK, y Ganolfan Arloesedd Ynni ac Energy Systems Catapult.

# Dysgu o'r fframwaith RIIO cyntaf a sicrhau bod gan RIIO-2 gyfle gwych i lwyddo

**Y rhwydweithiau sy'n cludo trydan a nwy o amgylch y DU yw conglfaen ein system ynni gyffredinol. Monopolïau naturiol yw'r rhan fwyaf ohonynt, felly mae angen i'w refeniw a'u perfformiad gael eu rheoleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig gwerth da i ddefnyddwyr. Yn ogystal â gweinyddu rheolaethau prisiau, rydym hefyd yn cynllunio a rheoli'r cymhellion a'r prosesau tendro ar gyfer trawsyrru ar y môr a rhyng-gysylltwyr, ac rydym yn ysgogi cystadleuaeth mewn rhannau o'r rhwydwaith lle y bo'n fwyaf addas.**

Mae ein gwaith yn ystod 2017-18 wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- **Dysgu o'r RIIO cyntaf a datblygu RIIO-2** –Mae ein fframwaith rheolaeth prisiau RIIO (revenue = incentives + innovation + outputs) (ar gyfer trawsyrru a dosbarthu trydan a nwy) nid yn unig yn sicrhau bod gweithredwyr rhwydweithiau'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd costau, ond eu bod hefyd yn darparu'r lefelau cywir o wasanaeth i ddefnyddwyr.
- **Cyflwyno cystadleuaeth mewn meysydd lle y ceir monopoli** – Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ychwanegu dwy gyfundrefn arall a reoleiddir ar gyfer rhwydweithiau trawsyrru. Mae'r cyntaf ar gyfer trawsyrru ar y môr, gan gysylltu prosesau cynhyrchu ar y môr â'r tir mawr. Mae'r ail ar gyfer rhyng-gysylltwyr, gan ein galluogi i fewnforio ac allforio pŵer i wledydd cyfagos fel Ffrainc a Norwy. Rydym hefyd yn gweithio ar gyflwyno cystadleuaeth yn y rhwydweithiau ar y tir.

## Dysgu o'r RIIO cyntaf a datblygu RIIO-2 – Penderfyniadau allweddol a'r hyn a ddysgwyd

Yn 2013, gwnaethom bennu'r rheolaethau prisiau wyth mlynedd cyntaf ar gyfer trawsyrru ynni a dosbarthu nwy, a wedyn gwnaed yr un peth ar gyfer dosbarthu trydan yn 2015. Mae monitro perfformiad cwmnïau rhwydwaith, a hynny o ran darparu gwasanaethau a pherfformiad ariannol, yn rhan hanfodol o'n rhaglen waith a gwnaethom gyhoeddi ein Hadroddiadau Blynyddol (2016-17) diweddaraf ar gyfer pob rheolaeth prisiau ym mis Rhagfyr. Roedd hyn yn cynnwys ffocws ychwanegol ar gyflwyno'r ffactorau allweddol sy'n ysgogi perfformiad cwmnïau.

Ar ddechrau'r flwyddyn, gwnaethom gwblhau ein gwaith ar y materion cyfochrog a nodwyd fel rhan o'n hadolygiad canol cyfnod o'r rheolaethau prisiau ar gyfer dosbarthu nwy (GD1) a thrawsyrru nwy (T1). Roedd hyn yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion nad oeddent o fewn cwmpas yr adolygiad ond lle roeddem o'r farn bod angen eglurhad pellach ynghylch sut y byddai setliadau GD a T1 yn gweithredu. Gwnaethom nodi ein barn ar yr hyn sy'n gyfystyr â chydymffurfiaeth, gydag allbynnau mewn perthynas â chydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol ar gyfer trawsyrru nwy a chymorth foltedd ar gyfer trawsyrru trydan er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu darparu yn y ffordd orau er lles defnyddwyr. Gwnaethom hefyd nodi ein bwriad i oedi cyn darparu lwfansau mewn perthynas â chwblhau cyswllt isfor gwerth £1bn yr HVDC Gorllewinol yn hwyr, fel nad oedd y cwmnïau'n elwa ar yr oedi.

Gwnaethom hefyd gynnal ymgynghoriad ynghylch adolygiad canol cyfnod posibl ar gyfer dosbarthu trydan (RIIO-ED1) ym mis Rhagfyr 2017, gan drafod newidiadau bach posibl i'r cwmpas oherwydd newidiadau ym mholisi'r llywodraeth, a newid ehangach posibl i'r cwmpas sy'n gysylltiedig â pherfformiad a gwaith cynllunio ariannol ac o ran

cymhellion. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ym mis Chwefror 2018, a chafodd ein penderfyniad i beidio â lansio adolygiad canol cyfnod ei gyhoeddi yn dilyn diwedd y flwyddyn ym mis Ebrill 2018.

Hefyd yn ystod 2017-18, gwnaethom benderfynu tynnu £277.5 miliwn o lwfans National Grid Electricity Transmission (NGGT) ar Bwynt Mynediad Fleetwood am nad oedd angen y gwaith mwyach. Hefyd, gwnaethom leihau rhwymedigaeth capasiti NGGT ar y safle er mwyn diogelu defnyddwyr rhag gorfod talu am fuddsoddiad ychwanegol yn y safle petai prosiect mynediad arall yn cael ei gysylltu.

Ym mis Medi, yn dilyn adolygiad manwl o berfformiad Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu mewn perthynas â meysydd allweddol yn y rheolaeth prisiau flaenorol ar gyfer dosbarthu trydan (DPCR5, 2010-2015), a gwnaethom hefyd ddychwelyd tua £200m i ddefnyddwyr ym Mhrydain Fawr.

Rydym yn dal yn awyddus i wella ansawdd a thryloywder adroddiadau ariannol y cwmnïau rhwydwaith a reoleiddir gan RIIO. Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno cyfrifon rheoleiddio diwygiedig (a elwir yn Gyfrifon RIIO) ac wedi cael adborth defnyddiol. Nawr mae angen i ni ystyried hyn ymhellach er mwyn penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o weithredu.

Daw'r rheolaethau prisiau RIIO-1 ar gyfer rhwydweithiau dosbarthu nwy a thrawsyrru ynni i ben ar 31 Mawrth 2021, a daw'r rheolaeth prisiau ar gyfer dosbarthu trydan i ben ar 31 Mawrth 2023. O dan y rheolaethau prisiau RIIO presennol, mae perfformiad gweithredwyr rhwydweithiau a boddhad cwsmeriaid wedi gwella'n sylweddol: mae'r rhwydweithiau bellach yn fwy dibynadwy ac mae defnyddwyr yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan weithredwyr rhwydweithiau lleol. Mae'r sbardun arloesi, gan gynnwys y Gystadleuaeth Arloesi Rhwydwaith a arweiniodd at benderfyniadau ynghylch cyllido ar gyfer 2017 a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, wedi cynyddu gwariant ar ymchwil a datblygu a dylai arwain at fuddiannau sylweddol i ddefnyddwyr o ganlyniad i gyflwyno cynlluniau llwyddiannus ledled y wlad. Mae ein fframwaith cymhellion wedi annog y defnydd o atebion gweithrediadol cost is ac mae cystadleuaeth yn dechrau datblygu yn y sector ar y tir.

Fodd bynnag, rydym hefyd wedi dysgu gwersi allweddol mewn perthynas ag enillion cwmnïau, tybiaethau gweithredu a systemau unioni. Rydym wedi defnyddio'r gwersi hyn yn ystod 2017-18 i lywio ein syniadau ar gyfer RIIO2, sef y rheolaethau prisiau nesaf a fydd yn gymwys o 2021 ymlaen. Ein nod yw datblygu fframwaith a fydd yn gadarn ond yn deg i gwmnïau a buddsoddwyr, yn rhoi gwerth da i ddefnyddwyr, ac yn galluogi rhwydweithiau i ymateb i'r broses o drawsnewid ynni sy'n datblygu a'r newidiadau o ran anghenion cwsmeriaid.

Ym mis Gorffennaf 2017, gwnaethom gyhoeddi llythyr agored ar ein cynigion, a gwnaethom ddefnyddio'r ymatebion gan randdeiliaid i lywio'r gwaith o gyhoeddi ein Ymgynghoriad manwl ynghylch Fframwaith RIIO-2 ym mis Mawrth 2018. Yn yr ymgynghoriad hwn, gwnaethom nodi ein cynigion mewn pum maes allweddol – gan roi llais cryfach i ddefnyddwyr, ymateb i'r ffordd y caiff rhwydweithiau eu defnyddio, ysgogi arloesedd ac effeithlonrwydd, symleiddio'r rheolaethau prisiau a sicrhau enillion a'r gallu i gyllido. Y cam hwn oedd dechrau'r broses ymgynghori ffurfiol ar gyfer pennu'r rheolaethau prisiau nesaf, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein penderfyniad ynghylch y fframwaith yn ystod haf 2018.

## Cyflwyno cystadleuaeth mewn meysydd lle y ceir monopoli

Rydym wedi hybu cystadleuaeth mewn cysylltiadau ers 2000, ac wedi hyrwyddo'r defnydd o gystadleuaeth (drwy brosesau tendro) ar gyfer rhwydweithiau ar y môr drwy ein cyfundrefn perchenogion trawsyrru ar y môr (OFTO). Ym mis Gorffennaf 2017, gwnaethom benderfyniad mawr, sef penodi cynigydd a ffefrir i fod yn berchen ar y cysylltiad trawsyrru ar y môr â fferm wynt Burbo Bank Extension am yr 20 mlynedd nesaf. Dyma ddiwedd proses gaffael Cylch Tendro 4 cyfundrefn OFTO, a bydd 230,000 o gartrefi yn y DU yn cael eu pweru gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy o ganlyniad i'r estyniad.

Lle bynnag y bo'n ymarferol ac yn briodol, rydym hefyd yn nodi cyfleoedd i sicrhau cystadleuaeth neu rymoedd tebyg i gystadleuaeth o fewn rhwydweithiau ynni ar y tir. Yn 2017-18 roeddem yn bwriadu pennu'r trefniadau cynllunio a'r trefniadau

masnachol terfynol ar gyfer Perchenogion Trawsyrru a Benodwyd drwy Gystadleuaeth (CATOs). Fodd bynnag, o ganlyniad i gyfyngiadau'r amserlen Seneddol, nid oedd modd cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i alluogi hyn.

Felly, gwnaethom oedi'r broses o roi cyfundrefn CATO ar waith. Ym mis Awst 2017, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad yn nodi dau fodel cyflawni amgen posibl ('model SPV' a'r model 'Dirprwy Cystadleuaeth') a fyddai, yn ein barn ni, yn cyflwyno cyfran sylweddol o'r buddiannau cystadleuaeth a fyddai wedi cael eu gwireddu drwy gyfundrefn CATO.

Ym mis Ionawr 2018, gwnaethom gynnal ymgynghoriad ynghylch defnyddio'r model cyflawni Dirprwy Cystadleuaeth mewn perthynas â phrosiect trawsyrru trydan ar y tir Hinkley-Seabank. Bydd yr arbedion y bydd y model hwn yn eu sicrhau i ddefnyddwyr yn dibynnu ar y gost cyfalaf a ganiateir (i'w phennu'n derfynol ddiwedd 2018), ond rhagwelir y byddant werth o leiaf £100, ar sail gwerth presennol net dros 25 mlynedd.

Yn ein hymgynghoriad ynghylch fframwaith RIIO-2 ym mis Mawrth, gwnaethom nodi cynigion i ymestyn cystadleuaeth ar draws y sectorau (trydan a nwy, trawsyrru a dosbarthu), lle y bo'n briodol ac yn rhoi gwell gwerth i ddefnyddwyr. Bydd y rhain yn cael eu datblygu ymhellach yn ystod 2018.

Mae ein cyfundrefn capio a phennu terfyn isaf yn annog cystadleuaeth mewn perthynas ag adeiladu rhyng-gysylltwyr trydan, sef y cysylltiadau ffisegol sy'n fodd i drosglwyddo trydan ar draws ffiniau. Hyd yma, rydym wedi pennu cap a therfyn isaf mewn egwyddor ar gyfer pum prosiect, ac mae'r prosiectau hyn ar gamau amrywiol yn y cylch datblygu – ar ôl iddynt gael eu hadeiladu, byddant yn arwain at arbedion sylweddol i ddefnyddwyr. Yn ystod 2017-18 gwnaethom dri phenderfyniad pellach i bennu cap a therfyn isaf ar gyfer prosiectau, ac rydym nawr yn disgwyl i'r prosiectau hyn fynd rhagddynt drwy'r cylch datblygu.

Ym mis Tachwedd, gwnaethom wrthod cynnig i adeiladu cyswllt dosbarthu trydan isfor o Ynysoedd Shetland i dir mawr Prydain Fawr. Gwnaed y penderfyniad hwn am fod newid a wnaed ar lefel yr UE yn golygu na fyddai targedau anos o ran allyriadau yn berthnasol i Orsaf Bŵer Lerwick tan 2030 ac y gallai'r orsaf barhau i weithredu tan o leiaf 2025 am gost lawer is na chost yr ateb dosbarthu arfaethedig. Hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU, yn amodol ar gael cymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol, y bydd ffermydd gwynt ar ynysoedd anghysbell fel Ynysoedd Shetland yn gymwys i gystadlu am Gontract Gwahaniaeth yn yr arwerthiant y bwriedir ei chynnal yn 2019. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl y bydd rhagor o arbedion yn cael eu sicrhau os bydd ateb mwy integredig yn cael ei gyflwyno yn dilyn y cylch Contractau Gwahaniaeth nesaf.

# Ffynhonnell dadansoddi ansawdd awdurdodol

**Er mwyn diogelu buddiannau defnyddwyr a chynnal ymddiriedaeth yn y farchnad ynni, mae'n hollbwysig bod y gwaith dadansoddi sy'n sail i'n penderfyniadau rheoleiddio yn gadarn, ein bod yn cynnal ein harbenigedd wrth ymwneud â'r diwydiant a'n bod yn ysgogi syniadau a dealltwriaeth mewn datblygiadau rheoleiddio yn y dyfodol.**

Mae ein gwaith yn ystod 2017-18 wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- **Sicrhau ansawdd, asesiadau effaith a gwerthuso** – Dan arweiniad Swyddfa'r Prif Economegydd, rydym wedi canolbwyntio ar atgyfnerthu ansawdd ein hasesiadau effaith a'n gwerthusiadau polisi er mwyn helpu i wneud ein penderfyniadau'n fwy cadarn.
- **Adroddiadau ac ymchwil** – Mae hyn yn cynnwys ein Meddylfryd Rheoleiddio, sganio'r gorwel ac ymchwilio i'r system ynni yn y dyfodol a chyhoeddi adroddiadau dibynadwy ac awdurdodol ar y ffordd y mae'r farchnad ynni'n gweithio.
- **Gwella gallu** – Gan weithio drwy rwydweithiau mewnol, rydym wedi blaenoriaethu hyfforddiant, datblygu a meithrin gallu ymhlith ein staff dadansoddi.

## Sicrhau Ansawdd, Asesiadau Effaith a Gwerthuso

Rydym wedi cynnal ein ffocws ar wella ansawdd a chynyddu nifer yr Asesiadau Effaith a gynhelir yn y sefydliad. Yn ystod 2017-18, gwnaethom weithredu fframwaith Sicrhau Ansawdd gwaith modelu yn unol ag argymhellion adolygiad Macpherson , a oedd yn adeiladu ar ein rhaglen dreigl o Sicrhau Ansawdd modelau ar gyfer ein modelau sy'n bwysig i'r busnes.

## Adroddiadau ac ymchwil

Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod y farchnad ynni mor dryloyw â phosibl, rydym wedi cynnal a gwella ein Porth Data yn 2017-18, gan sicrhau bod gwybodaeth am farchnadoedd manwerthu a chyfanwerthu, gwasanaeth cwsmeriaid a rhwydweithiau mor hygyrch a chyfredol â phosibl, fel y gall defnyddwyr, cyfranogwyr y farchnad a phartïon eraill â diddordeb weld sut mae'r sector yn gweithio. Mae'r porth hwn yn rhoi mynediad uniongyrchol at ein holl siartiau data rhyngweithiol mewn un lleoliad, ochr yn ochr â dangosyddion rydym yn ystyried eu bod allweddol i'r gwaith o fonitro perfformiad.

Mae prosiect Gwybodaeth ar gyfer Rheoleiddio yn y Dyfodol (IFR), sy'n adeiladu ar ein rhaglen sganio'r gorwel flaenorol, wedi'i gynllunio i archwilio'r ffactorau sy'n ysgogi newid nawr ac yn y dyfodol, a'r effeithiau perthnasol ar ddefnyddwyr a rheoleiddio. Cyflawnir hyn drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, cydweithio academaidd a diwydiannol a chyhoeddi papurau gwybodaeth.

Ddechrau 2017 gwnaethom gyhoeddi adroddiadau ar Ynni Lleol, a oedd yn ystyried y dirwedd bresennol o ran ynni lleol, y mathau o fodelau busnes sy'n datblygu a'r goblygiadau i ddefnyddwyr a rheoleiddio, a Dyfodol defnydd domestig o ynni, a oedd yn amlinellu rhai o'r newidiadau allweddol i'r dirwedd ynni yr oeddem yn eu rhagweld ar gyfer defnyddwyr domestig dros y degawd nesaf.

Mae ymchwil yn rhan hanfodol o'r ffordd rydym yn deall y farchnad ynni a'i pherfformiad i ddefnyddwyr, ac ym mis Medi 2017 gwnaethom gyhoeddi cynigion i ddwyn ynghyd ein gwybodaeth a'n gweithgarwch sganio'r gorwel mewn Canolfan Ymchwil bwrpasol. Roeddem yn awyddus i archwilio sut y gallem ymgysylltu'n fwy effeithiol â sefydliadau ymchwil ynghylch pynciau sydd o ddiddordeb cyffredin, a chawsom gryn dipyn o gefnogaeth i bedwar maes blaenoriaeth arfaethedig y Ganolfan: rhyngweithio traws-sector ynghylch polisi, hwyluso'r broses o drawsnewid i ynni carbon isel, defnyddiwr y dyfodol, a thueddiadau byd-eang.

[1] https://www.gov.uk/government/publications/review-of-quality-assurance-of-government-models

Roedd ein penderfyniad i atgyfeirio'r farchnad ynni at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn 2014 yn seiliedig ar ein hasesiad nad oedd y farchnad yn gweithredu cystal ag y gallai. Yn dilyn ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, ac wrth weithredu ei rwymedïau, gwnaethom gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r marchnadoedd ynni a chyhoeddi ein **hadroddiad ar Gyflwr y Farchnad** blynyddol ym mis Hydref 2017.

Gan adeiladu ar ein hadroddiadau monitro blaenorol ar y Marchnadoedd Ynni Cyfanwerthu (2016) a'r Marchnadoedd Ynni Manwerthu (2016), roedd ein hadroddiad ar Gyflwr y Farchnad yn asesu'r ffordd roedd y farchnad yn gweithredu o gymharu â'n canlyniadau i ddefnyddwyr. Gan ddefnyddio'r fframwaith hwn, daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol: mae marchnad dwy haen yn dal i fodoli, sy'n cynnig bargen dda i ddefnyddwyr sy'n gallu ac yn barod i chwilio am y fargen orau, ond nid i ddefnyddwyr sy'n ymgysylltu'n llai â'r farchnad; mae llawer o ddefnyddwyr (yn enwedig defnyddwyr sy'n agored i niwed) yn pryderu am fforddiadwyedd ynni ac yn cael trafferth gyda hyn; mae'r angen am gynhyrchu ynni carbon isel yn golygu ei bod yn bwysicach bod defnyddwyr yn cael y fargen orau; ac mae cyflenwadau sicr wedi cael eu cynnal heb ymyriadau o'r tu allan i'r farchnad, ond gall defnyddwyr, ar gyfartaledd, fod wedi talu mwy nag sydd angen.

Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth o'r adroddiad ar Gyflwr y Farchnad i weithredu er lles defnyddwyr, a datblygu amrywiaeth o ymyriadau yn annibynnol ac ar y cyd â chwmnïau a'r llywodraeth.

## Gwella gallu

Rydym wedi parhau i feithrin gallu dadansoddol ym mhob rhan o Ofgem yn ystod 2017-18, gan gynnal archwiliadau sgiliau a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu rhaglen recriwtio a hyfforddi wedi'i thargedu ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes dadansoddi, yn ogystal â datblygu rhwydweithiau proffesiynol mewnol ar gyfer economegwyr.

Yn gysylltiedig â'n menter Canolfan Ymchwil, gwnaethom hefyd ailsefydlu ac adfywio Panel Academaidd Ofgem yn 2017, gyda'r nod o wella ein syniadau strategol a cham cynnar a datblygu cysylltiadau ehangach â'r gymuned ymchwil academaidd.

# Gweithgareddau busnes craidd

**Yn ogystal â'n meysydd gwaith blaenoriaeth, rydym hefyd yn gweithio ar amrywiaeth eang o feysydd 'busnes fel arfer' sy'n allweddol o hyd. Disgrifir ein cyflawniadau yn y meysydd hyn isod:**

- **Sicrwydd cyflenwad**
- **Cydymffurfio a gorfodi**
- **Monitro'r farchnad cyfanwerthu**
- **Gwaith Ewropeaidd**
- **UKRN**

## Hybu sicrwydd cyflenwad

Ein rôl yw sicrhau bod y marchnadoedd trydan a nwy yn gweithio'n iawn ac nad oes rhwystrau yn atal cwmnïau rhag gwneud eu gwaith. Drwy wneud hyn, byddwn yn sicrhau cyflenwadau ynni di-dor i gartrefi a busnesau ym Mhrydain Fawr a bod ynni ar gael ar alw drwy'r amser. Mae llawer o agweddau ar ein gwaith yn helpu i sicrhau sicrwydd cyflenwad. Er enghraifft, rydym yn cynnig cymelliadau i gwmnïau rhwydwaith sicrhau cyn lleied â phosibl o doriadau cyflenwad. Cynigir cymhellion i gwmnïau cynhyrchu a chyflenwi hefyd er mwyn sicrhau bod yr ynni a roddir yn y system yn cyfateb i'r ynni a ddefnyddir gan eu defnyddwyr.

Bob blwyddyn, rydym yn gwneud y canlynol:

- Craffu ar y costau y bydd y Grid Cenedlaethol yn mynd iddynt am gydbwyso'r galw yn y gaeaf, er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth i ddefnyddwyr
- Rheoli a gweithredu newidiadau i Reolau'r Farchnad Gapasiti
- Cyflawni ein rolau o ran Diwygio'r Farchnad Drydan;
- Goruchwylio ymddygiad cyfranogwyr yn y Farchnad Gapasiti.

## Cydymffurfio a gorfodi

Rydym yn ymrwymedig i feithrin diwylliant lle mae cwmnïau ynni yn rhoi'r defnyddwyr yn gyntaf ac yn gweithredu yn unol â'u rhwymedigaethau. Rydym am weld cwmnïau ynni ym mhob rhan o'r sector yn nodi risgiau a all godi, yn eu rheoli'n effeithiol ac yn unioni pethau'n gyflym pan fyddant yn mynd o le, gan gynnwys cynnig taliadau unioni effeithiol i ddefnyddwyr sydd wedi dioddef.

Yn Atodiad III, nodir yr ymchwiliadau a gynhaliwyd a'r camau gorfodi a gymerwyd yn ystod 2017-18, ynghyd â chrynodeb o'r trefniadau unioni. Yn yr achosion hyn, gwnaeth y cwmnïau daliadau unioni naill ai'n uniongyrchol i ddefnyddwyr a/neu i raglenni a chronfeydd y byddent yn cael budd ohonynt.

Yn ogystal â'r gweithgareddau cydymffurfiaeth a nodir ar dudalen 9, gwnaethom hefyd gyhoeddi'r rhifyn cyntaf mewn cyfres a ddaw'n gyfres reolaidd o gylchlythyrau 'gwersi a ddysgwyd' yn 2017-18 er mwyn annog cyflenwyr i gynnal ffocws ar eu perfformiad eu hunain ac atal niwed i ddefnyddwyr.

## Monitro'r farchnad cyfanwerthu

Rydym yn monitro marchnad ynni cyfanwerthu Prydain, er mwyn deall y tueddiadau, risgiau ac effeithiau ar ddefnyddwyr. Mae hyn yn ein helpu i nodi problemau o ran dyluniad y farchnad, a datblygu polisïau. Rydym hefyd yn monitro'r farchnad er mwyn nodi achosion posibl o dorri trwyddedau a rheoliadau perthnasol, gan gynnwys y Rheoliad ar Uniondeb a Thryloywder y Farchnad Ynni (REMIT), ac ymchwilio iddynt.

## Gwaith Ewropeaidd

Yn ystod 2017-18, rydym wedi cydweithio'n agos â'r llywodraeth i roi cyngor a chymorth mewn perthynas â'r bwriad i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Ein nod drwy hyn i gyd oedd sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol a rheoliadol a fydd yn berthnasol i'r diwydiant ynni ar ôl y broses ymadael yn glir ac yn sefydlog, bod cynlluniau wrth gefn priodol yn cael eu llunio lle y bo'n briodol, a bod systemau'n gweithredu'n effeithiol ar draws ffiniau. Rydym hefyd wedi parhau i chwarae rhan mewn sefydliadau Ewropeaidd perthnasol, fel ACER a CEER, er mwyn helpu i lywio polisïau er budd defnyddwyr ym Mhrydain Fawr.

## UKRN

Rydym yn parhau i gyflawni rôl arweiniol yn Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN), gan gynnwys cadeirio'r rhwydwaith yn ystod 2017-18. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cefnogi nifer o ddigwyddiadau a chyhoeddiadau ymchwil UKRN ac wedi gwneud cyfraniad arbenigol atynt, gan gynnwys seminar ar y cyd ar reoleiddio seilwaith y DU, iechyd meddwl a defnyddwyr agored i niwed ac arloesedd sy'n amharu. Un enghraifft dda o'n hymarfer cydweithredol yw'r prosiect peilot ar rannu data defnyddwyr agored i niwed a gynhaliwyd ar y cyd gan Ofgem ac Ofwat. Bydd y wybodaeth sy'n deillio o'r prosiect hwn yn galluogi cwmnïau eraill yn y sector dŵr ac ynni i rannu data mewn modd ystyrlon a diogel, a fydd o fudd i'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr agored i niwed.

# E-Serve



# Cynlluniau ynni adnewyddadwy a chymdeithasol Ofgem

**Mae cyfarwyddiaeth weithredol E-Serve Ofgem yn cyflawni amrywiaeth eang o gynlluniau ynni adnewyddadwy a chymdeithasol ar ran y llywodraeth. Mae'r cynlluniau hyn yn werth dros £7bn. Mae'r gydberthynas hon â'r Llywodraeth yn ein gwneud ni'n wahanol i ran rheoleiddio Ofgem. Fodd bynnag, mae ein ffocws ar ddiogelu buddiannau defnyddwyr o hyd, gan sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn effeithlon ar yr un pryd hefyd.**

Mae ein gwaith cyflawni yn ystod 2017-18 wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- **Cyflawni:** Dan arweiniad ein Pwyllgor Rheoli E-Serve, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar wella ansawdd ein swyddogaeth graidd, sef cyflawni cynlluniau a sicrhau bod ein penderfyniadau yn gadarn ac yn cydymffurfio â gofynion y Llywodraeth a gofynion deddfwriaethol.
- **Sicrwydd:** Gwnaethom ffurfio swyddogaeth newydd, bellgyrhaeddol er mwyn atgyfnerthu ein swyddogaethau rheoli risg, goruchwylio cydymffurfiaeth ac archwilio yn ein portffolio cyflawni.
- **Gwella:** Gwnaethom gwblhau blwyddyn gyntaf strategaeth wella dwy flynedd o hyd i drawsnewid ein galluoedd gweithredol a chroesawu atebion digidol lle bynnag y bo modd.

## Cyflawni

### Trydan Adnewyddadwy

Gwnaethom barhau i weinyddu'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a chynlluniau Tariff Cyflenwi Trydan. Twf parhaus y cynlluniau hyn oedd y prif reswm dros y cynnydd sydyn yn y defnydd o ynni adnewyddadwy ym Mhrydain Fawr, sydd bellach yn cyfrif am 30% o'r holl allbwn cynhyrchu. Mae gwerth blynyddol cyfunol y cynlluniau hyn yn fwy na £6.5bn.

Yn ystod y flwyddyn, rhagorodd y tîm ar ei darged o ran nifer yr achrediadau o dan y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, gyda mwy na 5,887 MW o gapasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn cael ei achredu mewn 662 o orsafoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Gwnaethom hefyd gyflwyno 89.8m o Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer gwerth 67,191 GWh o gynhyrchu ynni adnewyddadwy (o fis Mawrth 2018).

Roeddem yn gyfrifol am y gwaith o greu a lansio Cofrestr FIT Ganolog newydd ar gyfer y Tariff Cyflenwi Trydan sydd wedi symleiddio'r broses o gofrestru a diwygio gosodiadau ar gyfer trwyddedeion Ofgem a'r Tariff Cyflenwi Trydan. Cafodd y broses lefelu flynyddol ar gyfer y cyfnod 2016–2017 ei chwblhau ddiwedd 2017. Cynhyrchwyd cyfanswm o 7,500 GWh o drydan gan osodiadau Tariff Cyflenwi Trydan yn ystod 2016-17 – o gymharu â 5,594 GWh yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn ystod ei oes, mae 10.4 miliwn o dunelli o CO2 wedi cael eu harbed o ganlyniad i'r Tariff Cyflenwi Trydan (ar 31 Mawrth 2017).

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gydweithio â BEIS ar ystod o ddiwygiadau i'r cynlluniau a nifer o newidiadau eraill a oedd yn adlewyrchu'r dirwedd gyfnewidiol y mae'r cynlluniau ynni adnewyddadwy yn gweithredu ynddi. Yn benodol, gwnaethom gynnal ymgynghoriad ynghylch cyd-leoli cyfleusterau storio trydan gyda chynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi'i gefnogi o dan y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy neu'r cynlluniau Tariff Cyflenwi Trydan.

### Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy (RHI)

Gwnaeth y timau RHI barhau i gefnogi newid rheoliadol drwy gydol y flwyddyn. Ym mis Medi, arweiniodd hyn at newidiadau i derfynau galw am wres ar gyfer RHI Domestig. O ran RHI Annomestig, cafodd cyfraddau tariff eu lefelu ar gyfer pob capasiti biomas er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau i gynnig cymhellion ar lefelau priodol. Gwnaethom gynnal ymgyrchoedd archwilio helaeth er mwyn canfod ac atal twyll. Tua diwedd y flwyddyn, bu'r

timau'n cydweithio'n helaeth â BEIS i ddatblygu pecynnau rheoliadau pellach. Roedd y rhain yn cynnwys nifer sylweddol o newidiadau i'r cynlluniau Domestig ac Annomestig.

Mae mwy na 62,000 o gyfranogwyr wedi'u hachredu ar y cynllun Domestig ar hyn o bryd, sy'n golygu bod 63,167 o osodiadau wedi derbyn taliadau. Mae mwy na 18,000 o gyfranogwyr ar y cynllun Annomestig, gyda 17,739 o osodiadau yn derbyn taliadau.Gyda'i gilydd, mae 25,444 GWh o wres adnewyddadwy wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer RHI Annomestig a Domestig Prydain Fawr ers i'r cynlluniau hyn ddechrau.

Hefyd, mae'r timau wedi parhau i helpu Cynllun RHI Gogledd Iwerddon gyda diwygiadau parhaus, taliadau, a'i raglen archwilio. Mae ein timau wedi gweithio gyda chydweithwyr ym mhob rhan o Ofgem i gyflwyno gwybodaeth i Ymchwiliad Cyhoeddus RHI Gogledd Iwerddon.

## Rhaglenni Effeithlonrwydd Ynni a Chymdeithasol

Mae'r rhaglenni cymdeithasol a gynhaliwyd gennym ar ran y llywodraeth yn ystod 2017-18 wedi cyfrannu'n uniongyrchol ar y ffaith ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol, sef lleihau biliau ynni defnyddwyr a diogelu cwsmeriaid sy'n agored i niwed. O dan y Gostyngiad Cartrefi Cynnes, rhoddwyd gwerth mwy na £323 miliwn o gymorth i ddefnyddwyr agored i niwed, er gwaethaf achos o ddiffyg cydymffurfio gan un cyflenwr sydd o dan rwymedigaeth. Roedd hyn yn cynnwys ad-daliadau unigol gwerth £140 i bron i 2.2 miliwn o ddefnyddwyr agored i niwed. Rydym wedi parhau i weinyddu'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni drwy gydol y flwyddyn. Daeth un is-rwymedigaeth i ben, sef y Rhwymedigaeth Arbed Carbon yn y Gymuned, sydd wedi cyfrannu cyfanswm o fwy na 7.28 MtCO2 o arbedion carbon gydol oes at dargedau effeithlonrwydd ynni'r DU. Roedd gweddill y cynllun yn dod i ddiwedd ei oes hefyd, ond penderfynodd y Llywodraeth ymestyn y Rhwymedigaeth gyffredinol am 18 mis. O ganlyniad i'r estyniad hwn, cyhoeddodd Ofgem sgoriau carbon a chost tybiedig cyn cael dechreuad deddfwriaethol er mwyn helpu BEIS i bennu targedau, a galluogi cyflenwyr a'r gadwyn gyflenwi i fod yn barod am y newid yn y gofynion.

## Sicrwydd

Yn ystod 2017-18, gwnaethom ganolbwyntio ar sicrwydd, gan roi lle blaenllaw iddo yn holl weithgareddau E-Serve. Yn ein hanfod, rydym yn benderfynol o sicrhau gwerth am arian cyhoeddus. Rhoddodd ein Rhaglen Adolygu Sicrwydd a Gwella bellgyrhaeddol ddull gweithredu Tair Llinell Amddiffyn ar waith er mwyn sicrhau bod ein holl waith yn gadarn, o ansawdd da ac yn dal dŵr yn wyneb craffu annibynnol.

Fel rhan o'n Llinell Amddiffyn Gyntaf, gwnaethom gynnal rhaglen llwybr carlam gychwynnol o waith a atgyfnerthodd ein harferion ym meysydd Atal Twyll, Risg Strategol a Rheoli Gwerthwyr. Gwnaethom ymchwilio i'n harferion presennol a gwneud llawer o welliannau, gan gynnwys safoni ein dull o gofnodi dogfennau Proses Weithredu a datblygu gwell hyfforddiant i staff. I ategu'r gweithgarwch hwn, gwnaethom hefyd ddatblygu Ail Linell Amddiffyn strategol yn ychwanegol at y rheolaethau a oedd eisoes ar waith gennym. Roedd hyn yn cynnwys creu Tîm Sicrwydd Canolog i reoli gweithgarwch, gan gynnwys "hap" archwiliadau o waith sydd eisoes yn cael ei wneud yn fewnol. Yn olaf, gwnaethom sefydlu Trydedd Llinell Amddiffyn strategol drwy gyflwyno ein Pwyllgor Risg a Sicrwydd ein hunain, a arweinir yn annibynnol (sy'n atebol i Bwyllgor Archwilio a Risg Awdurdod llywodraethu Ofgem).

## Gwella

Gwnaethom gyflwyno proses lywodraethu newydd ar gyfer y Bwrdd Cynnyrch TG, a gwnaethom gwblhau 36 o gynhyrchion a disgwylir i chwech arall gael eu cwblhau yn ystod 2018/19. O'r 36 o gynhyrchion a gwblhawyd, roedd 20 yn sicrhau bod modd gwneud newidiadau deddfwriaethol â blaenoriaeth i gofrestri cynlluniau. Roedd y gweddill yn darparu cymorth, yn sicrhau gwelliant parhaus ac yn gynhyrchion galluogi eraill.

Gwnaethom gyflwyno amgylchedd datblygu a phrofi yn y Cwmwl. Cynhaliwyd adolygiad GDPR o'r systemau TG a ddefnyddir gan ein cynlluniau, a oedd yn fodd i ni gymryd camau i baratoi ar gyfer y gofynion newydd. Gwnaethom ffurfio partneriaeth

â Chanolfan Ragoriaeth Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Awtomeiddio Prosesau Robotig (RPA) a dechrau treialu prosiect i baratoi'r ffordd ymlaen ar gyfer y dechnoleg arloesol hon. Datblygwyd adnoddau Dadansoddi Data er mwyn galluogi gwaith ein tîm atal twyll a chael cymaint â phosibl o werth o'n harchwiliadau gweithrediadol.

Roeddem wedi bwriadu cyflwyno adnodd data geo-ofodol er mwyn galluogi rhanddeiliaid i weld gosodiadau cynlluniau ledled Prydain Fawr mewn modd tryloyw. Wrth i ni ddatblygu ein galluoedd digidol a'n galluoedd o ran data yn ystod 2017-18, gwnaethom benderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ac, yn hytrach, gwnaethom ddefnyddio modelau data eraill, mwy soffistigedig, sy'n gallu olrhain y wybodaeth hon yn well. Bydd sicrhau cynnydd yn y maes hwn yn flaenoriaeth yn ystod 2018-19.

Gwnaethom ddechrau ailysgrifennu'r system TG sydd ei hangen i ategu Deddfwriaeth ECO3, a bwriedir iddi fod ar waith erbyn mis Hydref 2019. Hefyd, gwnaethom ddechrau cam cyntaf y broses o roi system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) unigol ar waith i ategu proses ymholiadau unigol ar gyfer Ofgem i gyd.

Gwnaethom barhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, gan gadw golwg ar eu boddhad â'r ffordd rydym yn gweinyddu'r cynlluniau. Gwelwyd gwelliant graddol yn y metrig hwn drwy gydol y flwyddyn, gan gyrraedd uchafbwynt o 87.2% ym mis Rhagfyr 2017. Gwnaethom lansio pedwar arolwg newydd er mwyn deall profiad ein rhanddeiliaid o wneud ceisiadau i'n cynlluniau. Gwnaed newidiadau a gwelliannau sylweddol o ganlyniad i'r adborth a gawsom. Mae gwefannau'r cynlluniau bellach yn cyfeirio defnyddwyr yn fwy ac yn defnyddio iaith symlach. Rydym yn cyhoeddi canllawiau 'sut i' a chwestiynau cyffredin.

# Ein rhanddeiliaid ym Mhrydain Fawr

**Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth wraidd ein gwaith, gan helpu i sicrhau bod barn ein rhanddeiliaid yn cael ei hystyried yn y ffordd rydym yn rheoleiddio'r system ynni.**

## Ymgysylltu â defnyddwyr a'r diwydiant

Gwnaethom ddyblu nifer y digwyddiadau Ofgem a gynhaliwyd ledled Prydain Fawr yn ystod 2017-18, gyda mwy na 1000 o bobl yn bresennol mewn un neu fwy o'n digwyddiadau. Mae hyn yn newid mawr yn ein rhaglen ddigwyddiadau – ac rydym yn hapus dros ben â'r adborth cadarnhaol a gawsom.

Rydym hefyd wedi cynnal rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer ein huwch arweinwyr, gan gynnwys ymweliadau â safle Gerddi Dyffryn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Mro Morgannwg, cynlluniau ynni lleol yn Ne Llundain, ac elusen dyledion ac Uned Cymorth Ychwanegol Cyngor ar Bopeth yn Glasgow.

Cynrychiolwyd Ofgem mewn llawer o'r prif gynadleddau ynni ledled Prydain eleni, gan gynnwys fforymau polisi, sesiynau bord gron, cynadleddau mawr y diwydiant ac uwchgynadleddau i ddefnyddwyr. Gwnaethom siarad â'n cynulleidfaoedd am ein gwaith ar reoleiddio'r rhwydweithiau ynni, y system ynni yn y dyfodol, a diogelu defnyddwyr.

Rydym hefyd yn parhau i gefnogi grwpiau allweddol sy'n cynrychioli'r diwydiant, fel y Grŵp Defnyddwyr Mawr a'r Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Cynaliadwy.

## Ymgysylltu â'r Llywodraeth

Mae ein gwaith yn cynnwys ymgysylltu'n rheolaidd ag adrannau a gweinidogion y llywodraeth (gan gynnwys y rhai o BEIS), ac rydym wedi parhau i rannu ein gwybodaeth a'n harbenigedd yn ein rôl fel y rheoleiddiwr ynni dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym hefyd wedi parhau i sicrhau bod ein gwaith yn weladwy i Senedd y DU, yn ogystal â Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. I wneud hyn, rydym wedi cwrdd â nifer o Aelodau Seneddol, Aelodau o Senedd yr Alban ac Aelodau'r Cynulliad, yn ogystal â siarad mewn grwpiau trawsbleidiol am ein gwaith. Rydym wedi rhoi tystiolaeth – yn bersonol ac yn ysgrifenedig – i bwyllgorau seneddol ar bynciau sy'n cynnwys diogelu prisiau yn y farchnad ynni manwerthu, mesuryddion deallus, cerbydau trydan, tai carbon isel a'r Cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy.

Ar y cyfan, nod ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod 2017-18 oedd ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffyrdd sy'n fwy addas iddyn nhw. Rydym wedi adolygu'r ffordd rydym yn ymgynghori, gan ganolbwyntio ar gynnal llai o ymgyngoriadau, eu gwneud yn fyrrach a chael mwy o ymatebion gan ystod fwy amrywiol o randdeiliaid. Cafodd y dull gweithredu hwn adborth cadarnhaol ar eglurder a hygyrchedd ein gweithdai ar Gyflwr y Farchnad a'r Flaenraglen Waith.

Mae fersiwn Saesneg o'r adroddiad hwn ar gael ochr yn ochr â'r fersiwn Gymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofynion adrodd Seneddol o dan Ddeddf Cyfleustodau 2000.

# Yr Effaith ar Ddefnyddwyr

Rydym yn ymrwymedig i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddefnyddwyr. Fel rhan o hyn, rydym am gyfleu'n glir sut mae ein gwaith yn sicrhau gwerth am arian. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn ennill ymddiriedaeth y cyhoedd drwy ddangos a chyfleu'r buddiannau y mae Ofgem, fel rheoleiddiwr annibynnol, yn eu sicrhau i ddefnyddwyr a chymdeithas yn ehangach.

**Fel y nodir yn Strategaeth Gorfforaethol Ofgem:**

**"We would like to report on the cumulative costs and benefits to consumers of our regulation and how these results change with each intervention. In practice, this is very difficult. Many factors throughout the industry, including the actions of government, influence outcomes, and it can be hard to highlight the particular impact of our contribution. However, we aim to be as transparent and accountable as possible and we will explore what we might be able to provide."**

I gyflawni'r strategaeth hon, mae Ofgem wedi ymrwymo i asesu effeithiau disgwyliedig ei weithgareddau rheoleiddio ar ddefnyddwyr yn flynyddol ac, yn achos camau gorfodi a chydymffurfio, rydym wedi cyflawni hynny ar gyfer defnyddwyr. Mae ein **Hadroddiad o'r Effaith ar Ddefnyddwyr** yn asesu'r buddiannau disgwyliedig i ddefnyddwyr o ganlyniad i benderfyniadau rheoleiddio diweddar Ofgem.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod disgwyl i weithgareddau a phenderfyniadau rheoleiddio Ofgem rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018 arwain at lawer o fuddiannau sylweddol i ddefnyddwyr.

Yn seiliedig ar ein cyfrifiadau, bydd penderfyniadau Ofgem yn y flwyddyn ariannol hon yn arwain at y canlynol:

- **Gwerth presennol net buddiannau uniongyrchol: £7,800m**
- **Gwerth presennol net buddiannau anuniongyrchol: £8,800m**
- **Hefyd, £540m o gyllid gostyngol i gwmnïau rhwydwaith**

Buddiannau a ragwelir i ddefnyddwyr yw'r rhain ac, yn y dyfodol, gallant fod yn wahanol i'r swm gwirioneddol. Fodd bynnag, maent yn rhoi syniad da o faint y buddiannau y mae defnyddwyr yn eu cael o ganlyniad i'r camau gweithredu a gymerwn.

O ran y costau yr aed iddynt er mwyn cyflawni'r buddiannau hyn, gwariant gweinyddol Ofgem ar gyfer y flwyddyn ariannol rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018 oedd £90.040 miliwn. Mae hyn yn rhoi cymhareb buddiannau uniongyrchol i gostau o 87, sy'n golygu ein bod, ar gyfer y penderfyniadau a wnaethom yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn disgwyl y bydd pob £1 a wariwyd gennym yn sicrhau buddiannau uniongyrchol gwerth £87 i ddefnyddwyr.

## Ein dull gweithredu

Fel arfer, bydd gan Ofgem fwy na 100 o benderfyniadau rheoleiddio penodol yn mynd rhagddynt ar unrhyw adeg, felly nid yw'n ymarferol i'r adroddiad hwn drafod ein holl weithgareddau. Dyma pam mai dim ond y penderfyniadau mwyaf arwyddocaol y byddwn yn eu hasesu, a phennir hynny yn ôl eu cymhlethdod cyfreithiol a / neu eu heffaith ariannol. Fel y cyfryw, dim ond is-set o'r buddiannau y bydd gweithgareddau rheoleiddio Ofgem yn eu sicrhau i ddefnyddwyr yw'r buddiannau disgwyliedig i ddefnyddwyr a ddangosir yn yr adroddiad hwn.

Lle y bo'n ymarferol, rydym yn mesur y buddiannau i ddefnyddwyr a, lle mae'n anodd gwneud hynny, rydym yn disgrifio'r buddiannau disgwyliedig i ddefnyddwyr mewn ffordd ansoddol. Nid oes modd i fuddiannau llawer o'r gwaith a wnawn gael eu mynegi'n hawdd mewn termau ariannol ond, serch hynny, maent yn bwysig iawn o ran diogelu buddiannau defnyddwyr.

Felly, rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu cymysg sy'n cynnwys:

- Asesu meintiol: cyfrifo cyfanswm y buddiannau ariannol a nodir mewn asesiadau effaith ffurfiol;
- Asesu ansoddol: ar gyfer penderfyniadau nad oes ganddynt asesiadau effaith ffurfiol, gan ddefnyddio astudiaethau achos i ddangos effaith tebygol penderfyniadau rheoleiddio.

## Asesiad meintiol o'r effeithiau ar ddefnyddwyr

Ar gyfer rhai o'n penderfyniadau, gallwn ddefnyddio asesiadau effaith i ddadansoddi a rhagweld effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ddefnyddwyr dros gyfnod hir. Mae asesiadau effaith yn fframwaith tryloyw ar gyfer deall effeithiau amcangyfrifedig polisïau a chymharu prosiectau â'i gilydd, a chânt eu paratoi yn unol â'n canllawiau. Mae asesiadau effaith meintiol yn cyflwyno gwerth presennol net y buddiannau i ddefnyddwyr rydym yn disgwyl eu gweld o ganlyniad i benderfyniad.

Mae ein dull o fesur buddiannau ariannol yn debyg i'r un a ddefnyddir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i asesu'r buddiannau ariannol uniongyrchol i ddefnyddwyr o ganlyniad i'w benderfyniadau.

Mae **Tabl 1** yn crynhoi buddiannau ariannol disgwyliedig rhai o'r penderfyniadau a wnaed eleni. Disgwylir i'r buddiannau ariannol gael eu gwireddu dros orwelion amser gwahanol, gan amrywio o 2018 i 2063.

Yma, rydym yn diffinio effeithiau uniongyrchol fel y rhai lle rydym yn gorfodi cwmnïau yn y diwydiant i weithredu mewn ffordd benodol (e.e. rhoi cap ar y swm y gallant ei godi am wasanaeth). Effeithiau anuniongyrchol yw'r rhai lle rydym yn galluogi cwmnïau yn y diwydiant i weithredu (e.e. creu'r system reoleiddio gywir i gwmnïau sydd am adeiladu rhyng-gysylltydd). Mae'r buddiannau ariannol ychwanegol, yn bennaf, yn deillio o newidiadau i lwfansau cyllido cwmnïau rhwydwaith, ac fe'u nodir fel swm arian parod yn hytrach na gwerth presennol net.

**Tabl 1 – Crynodeb o'r buddiannau ariannol disgwyliedig i ddefnyddwyr (blwyddyn brisiau 2018, £miliwn)**

| Buddiannau a dadansoddiad fesul penderfyniad | Achos canolog |
|---|---|
| **a. Cyfanswm yr effeithiau uniongyrchol** | **7,787** |
| Trefniadau newid newydd | 40 |
| Tariff diogelu i ddefnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus | 128 |
| Amodau trwydded newydd ar gyfer gosod mesuryddion rhagdalu o dan warant | 18 |
| Trefniadau codi tâl ar gyfer Cynhyrchwyr Ynni Llai a Gysylltir â Rhwydwaith Dosbarthu | 7,582 |
| Achosion gorfodi | 11 |
| Achosion cydymffurfiaeth | 8 |
| **b. Cyfanswm yr Effeithiau anuniongyrchol** | **8,776** |
| Penderfyniadau ynghylch capio a phennu terfyn isaf ar gyfer rhyng-gysylltwyr | 8,776 |
| **c. Cyfanswm y buddiannau ariannol ychwanegol** | **542** |
| Rheolaethau prisiau trawsyrru a dosbarthu nwy – Gwaith cyfochrog yr Adolygiad Canol Cyfnod | 197 |
| Pwynt mynediad Fleetwood ar gyfer trawsyrru nwy | 345 |
| **d. Cyfanswm y buddiannau disgwyliedig (a+b+c)** | **17,105** |

**Sylwer:** Gweler yr adroddiad llawn am ragor o fanylion am y fethodoleg a buddiannau disgwyliedig mewn sefyllfaoedd gwahanol.

[2] https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2016/10/impact_assessment_guidance_0.pdf
[3] Y rhai a ategir gan asesiad effaith ffurfiol sy'n dangos budd net ariannol i ddefnyddwyr.

## Effeithiau ansoddol ar ddefnyddwyr

Mae llawer o benderfyniadau Ofgem yn sicrhau budd i ddefnyddwyr mewn ffyrdd sy'n anodd eu mynegi neu'u dangos mewn termau ariannol. Ymhlith y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud eleni mae:

- **Mwy o ddiogelwch i ddefnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus**
  - Capio taliadau a godir ar gyflenwyr am osod mesurydd rhagdalu o dan warant
  - Tariff diogelu, sy'n capio'r pris y mae defnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus yn ei dalu am ynni
  - Newid y meini prawf a ddefnyddir i flaenoriaethu cysylltiadau â'r rhwydwaith nwy i'r rhai mewn tlodi tanwydd, fel eu bod yn adlewyrchu'r ffactorau gwirioneddol sy'n achosi tlodi tanwydd yn well.

- **Mwy o ddiogelwch i ddefnyddwyr rhag costau gormodol sy'n gysylltiedig â buddsoddi yn y rhwydwaith**
  - Lleihau'r rhwymedigaeth capasiti mynediad ar gyfer National Grid Gas Transmission (NGGT)
  - Sefydlu system capio a phennu terfyn isaf er mwyn rheoleiddio'r enillion y gall datblygwyr preifat eu cael drwy weithredu rhyng-gysylltwyr, a thrwy hynny leihau taliadau rhwydwaith drwy alluogi mynediad at ddulliau rhatach o gynhyrchu ynni.

- **Mwy o sicrwydd cyflenwad a datgarboneiddio'r system ynni**
  - Cysylltu darparwyr newydd gwasanaethau cydbwyso â Gweithredwr System Prydain Fawr, a helpu i wella'r trefniadau cydbwyso rhwng Gweithredwr System Prydain Fawr a Gweithredwr System y wlad y mae'n cysylltu â hi.
  - Cyflwyno fframwaith rheoleiddio a methodoleg gaffael y mae'n rhaid i'r Gweithredwr System gydymffurfio â nhw, er mwyn sicrhau darpariaeth ynni ddigonol ar ôl digwyddiad adfer heb ddefnyddio rhwydwaith ("Black Start").

- **Cysoni'r cymhellion a'r rheolau sy'n wynebu cwmnïau yn y diwydiant â buddiannau defnyddwyr yn well**
  - Gwahardd cynhyrchwyr trydan rhag talu na cheisio talu symiau sy'n rhy uchel neu'n rhy isel, na derbyn symiau o'r fath gan y Gweithredwr System, yn ystod cyfyngiadau trawsyrru
  - Cyfyngu ar yr ystumio a geir o ganlyniad i allu cyflenwr i ddefnyddio cynhyrchydd ynni llai na 100MW (llai) a gysylltir â rhwydwaith dosbarthu i leihau'r defnydd o daliadau system mewn perthynas â thrawsyrru, ac i gynhyrchwyr ynni llai a gysylltir â rhwydwaith dosbarthu gael eu talu er mwyn helpu eraill i'w hosgoi.

- **Mwy o dryloywder a chystadleuaeth mewn marchnadoedd ynni:**
  - Newid y rheolau y mae'n rhaid i wefannau cymharu prisiau eu dilyn er mwyn cael eu hachredu gan Ofgem, gan eu gwneud yn haws eu defnyddio a'u hannog i dyfu
  - Cyflwyno ffyrdd cyflymach a mwy dibynadwy o newid cyflenwr, i ryddhau arloesedd, gan greu pwysau mwy cystadleuol ymhlith cyflenwyr ynni, a ddylai annog prisiau llai, gwell gwasanaeth cwsmeriaid ac arlwy ehangach o gynhyrchion a gwasanaethau arloesol.

Dyma'r tro cyntaf i ni gyhoeddi Adroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr ochr yn ochr â'n Hadroddiad Blynyddol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad tebyg bob blwyddyn, gan adeiladu ar brofiad ac adborth. Rydym yn disgwyl i'n methodoleg ddatblygu dros amser. Er enghraifft, er mwyn lleihau effaith unrhyw benderfyniad unigol ar ein hasesiad, rydym yn bwriadu adrodd ar gyfartaledd symudol tair blynedd y buddiannau yn y dyfodol.

# Adroddiad Cynaliadwyedd

Defnyddir Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos i ddangos effeithlonrwydd ynni adeiladau cyhoeddus. Mae ein sgôr ar gyfer ein pencadlys yn Llundain wedi gwella'n ddramatig ers i'r tystysgrifau gael eu cyflwyno yn 2008. Bryd hynny, roeddem wedi ein gosod ym mand G, gyda sgôr o 165. Bellach, mae gennym sgôr o 62, sy'n golygu ein bod ym mand C.


**Rydym wedi cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:**

- **gwella awtomiaeth yr adeilad**
- **gwella ein rheolaethau ar gyfer gwresogi ac oeri**
- **defnyddio prosesau oeri am ddim lle y bo'n bosibl**
- **monitro'r defnydd beunyddiol o ynni**
- **cywiro problemau'n gyflym**
- **gosod goleuadau mwy ynni-effeithlon**
- **cael gwared ar gyfarpar nad ydym yn ei ddefnyddio mwyach neu ei roi o'r neilltu.**

Bydd y trefniadau i symud i safle newydd yn Canary Wharf yn golygu perfformiad cynaliadwyedd parhaus.

Mae'r safle newydd wedi cael sgôr BREEAM Da Iawn ac mae'n ymgorffori ystod o fesurau arbed ynni (e.e. goleuadau LED, ardaloedd â goleuadau deallus, gosodiadau a ffitiadau wedi'u ffurfweddu i fod mor effeithlon â phosibl). Hefyd, bydd y swyddfa yn llai a fydd yn lleihau'r galw cyffredinol am wresogi/oeri, goleuadau a dŵr.

## Perfformiad Ofgem Millbank ar y Dystysgrif Ynni i'w Harddangos




## Allyriadau carbon sy'n gysylltiedig ag adeiladau a gweithgareddau

Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi lleihau ein carbon sy'n gysylltiedig ag adeiladau 179 o dunelli. Gellir priodoli hyn yn bennaf i'r ffaith ein bod wedi symud swyddfa i safle mwy effeithlon yn Glasgow.


Mae ein carbon teithio wedi cynyddu 84 o dunelli. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i leihad bach mewn teithio ar drên a chynnydd ym maint ein swyddfa yn Glasgow ac felly hedfan yn y DU.

## Defnydd o Garbon




Mae allyriadau carbon (Cwmpas 1, 2 a 3) fesul CALI wedi lleihau 14%, a hynny unwaith eto yn bennaf o ganlyniad i drefniadau swyddfa Glasgow.

## Defnydd o garbon fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn (CALI)




# Lleihau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **(Y targed oedd lleihad o 25%)** | **806** | **758** | **711** | **672** | **672** | **646** |
| **Dangosyddion Anariannol ($tCO_2e$)** | Cyfanswm yr allyriadau gros | 1,010 | 1,228 | 1,307 | 1,263 | 1,272 | 1176 |
| | Fesul CALI | 1.33 | 1.31 | 1.27 | 1.34 | 1.39 | 1.28 |
| | Cyfanswm yr allyriadau net (h.y. llai gostyngiadau - e.e. tariffau gwyrdd) | 347 | 499 | 496 | 458 | 535 | 613 |
| | Cwmpas 1: Allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol | 147 | 144 | 121 | 118 | 153 | 147 |
| | Cwmpas 2: Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol ynni | 685 | 729 | 811 | 805 | 736 | 563 |
| | Cwmpas 3: Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol eraill | 178 | 355 | 375 | 339 | 382 | 466 |
| **Data Defnydd Cysylltiedig (kWh)** | Trydan: Anadnewyddadwy (k) | 42 | - | - | - | - | - |
| | Trydan: Adnewyddadwy (k) | 1,274 | 1,636 | 1,641 | 1,742 | 1,747 | 1600 |
| | Nwy (k) | 795 | 783 | 656 | 640 | 749 | 797 |
| | LPG | - | - | - | - | - | - |
| | Arall | - | - | - | - | - | - |
| **Dangosyddion Ariannol** | Gwariant ar ynni | £185,177 | £244,291 | £233,275 | £275,616 | £239,325 | £240,573 |
| | Gwariant ar Drwydded Ymrwymiad Lleihau Carbon | £1,290 | £1,290 | £1,290 | £1,290 | £1,290 | £1,290 |
| | Gwariant ar deithiau busnes swyddogol | £296,684 | £491,551 | £772,248 | £661,581 | £824,023 | £746,596 |

# Lleihau'r defnydd o ddŵr

Ein nod yw lleihau ein defnydd blynyddol o ddŵr islaw 6m3 y pen. Gwnaethom gynyddu ein defnydd o ddŵr eleni am fod pibell wedi byrstio yn y system wresogi. Bu'n rhaid i ni ddraenio'r system i atgyweirio'r bibell ac ail-lenwi'r system wedyn.

## Dŵr fesul CALI





| Dŵr | | | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol** | **Targed (lleihad o 37%)** | | **7.39** | **6.69** | **6.00** | **6.00** | **6.00** | **6.00** |
| | Defnydd o Ddŵr ($m^3$) | Cyflenwyd | 6,639 | 8,609 | 7,553 | 8,359 | 6,564 | 7959 |
| | | Per FTE | 8.7 | 9.0 | 7.3 | 9.5 | 7.1 | 8.0 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Costau Cyflenwi Dŵr | | £12,208 | £20,517 | £18,977 | £17,601 | £20,271 | £33,309 |


# Dileu gwastraff

Mae cyfanswm ein gwastraff wedi lleihau'n sylweddol oherwydd gwaith monitro a mesur gwell, ac am fod y staff wedi cymryd rhan mewn mentrau dargyfeirio gwastraff ac ailgylchu.

## Dadansoddiad o gyfanswm y gwastraff




## Dadansoddiad o gyfanswm y Gwastraff fesul CALI




| Gwastraff | | | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (tunnell) | **Targed** | | **68** | **63.75** | **63.75** | **63.75** | **63.75** |
| | Cyfanswm y Gwastraff | | 114 | 102 | 106 | 65 | 49 |
| | Cyfanswm y Gwastraff fesul CALI | | 0.12 | 0.10 | 0.11 | 0.07 | 0.05 |
| | Gwastraff Peryglus | | - | - | 1 | - | - |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus | Ailddefnyddiwyd/ ailgylchwyd | 93 | 81 | 84 | 54 | 40 |
| | | Llosgi/ ynni o wastraff | 21 | 21 | 21 | 11 | 9 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Cyfanswm y gost gwaredu | | £23,592 | £24,477 | £21,985 | £19,442 | £29,486 |

# Adroddiad ar Atebolrwydd



# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Aelodau gweithredol o'r Awdurdod a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn

Penodwyd Dermot Nolan, y prif weithredwr, ym mis Chwefror 2014. Nid yw'n gyfarwyddwr unrhyw gwmnïau eraill.

Penodwyd Rachel Fletcher, uwch bartner, Defnyddwyr a Chystadleuaeth, ym mis Ionawr 2016 a gadawodd Ofgem a'r Awdurdod ym mis Ionawr 2018. Nid yw'n gyfarwyddwr unrhyw gwmnïau eraill.

Penodwyd Dr Andrew Wright, uwch bartner, Systemau Ynni, ym mis Ionawr 2008. Mae'n aelod o fwrdd cynghori Athrofa Ynni Prifysgol Durham. Bydd Dr Wright yn gadael Ofgem yn 2018.

### Aelodau anweithredol o'r Awdurdod a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn

Ymunodd David Gray ym mis Ionawr 2013 fel cadeirydd anweithredol. Daw ei benodiad i ben ym mis Medi 2018. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol yn yr Awdurdod Hedfan Sifil, ac yn un o Lywodraethwr y Central School of Ballet.

Ymunodd Christine Farnish ym mis Ionawr 2016. Daw ei phenodiad i ben ym mis Ionawr 2021. Mae'n un o gyfarwyddwyr anweithredol Ofwat, yn aelod anweithredol o Fwrdd Grŵp Zopa a chadeirydd Zopa ltd (busnes benthyca rhwng cymheiriaid Zopa), yn aelod o fwrdd cynghori defnyddwyr Fairer Finance ac yn aelod o'r Panel Cynghori ar yr achos gweithredu cynrychioladol yn erbyn Google.

Ymunodd yr Athro David Fisk CB ym mis Gorffennaf 2009. Fe'i hailbenodwyd ym mis Mehefin 2012 a daeth ei benodiad i ben ym mis Mai 2017.

Mae'n Athro Emeritws Arloesedd a Pheirianneg Systemau yng Ngholeg Imperial, Llundain ac mae'n Aelod Cyngor o Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu.

Ymunodd yr Athro Paul Grout ym mis Hydref 2012. Daw ei benodiad i ben ym mis Medi 2022. Mae ganddo Gadair mewn Economi Wleidyddol ym Mhrifysgol Caerfaddon ac ef yw cadeirydd y grŵp cynghori arbenigol ar gyfer Loteri Cenedlaethol 4 yn y Comisiwn Gamblo a'r Uwch Gynghorydd ar Gystadleuaeth ym Manc Lloegr.

Ymunodd Dr Nicola Hodson ym mis Mawrth 2015. Gadawodd yr Awdurdod ym mis Mehefin 2017. Mae'n Is Lywydd Marchnata a Gwerthiannau Byd-eang – Trawsnewid Maes yn Microsoft UK. Hefyd mae'n aelod bwrdd yn Tech UK, ac yn aelod o gyngor City University.

Ymunodd Jim Keohane ym mis Ionawr 2009. Cafodd ei ailbenodi ym mis Rhagfyr 2012 a daeth ei benodiad i ben ym mis Rhagfyr 2017. Ef yw cadeirydd Sefydliad y Theatr Frenhinol ac Awdurdod Harwich Haven, mae'n uwch gyfarwyddwr annibynnol Low Carbon Contracts Company, ac yn uwch gyfarwyddwr annibynnol Electricity Settlements Company.

Ymunodd Keith Lough ym mis Hydref 2012. Daw ei benodiad i ben ym mis Medi 2022. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol, ac yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, Rockhopper Exploration Ltd. Mae hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol yn Cairn Energy plc, ac ef yw cadeirydd anweithredol Gulf Keystone Petroleum plc.

Ystyrir bod yr aelodau anweithredol yn annibynnol ar y rheolwyr ac maent yn cyfrif am y rhan fwyaf o aelodau'r Awdurdod.

## Buddiannau arwyddocaol eraill a ddelir gan aelodau'r Awdurdod

Mae Jim Keohane, Keith Lough, Andrew Wright a gŵr Nicola Hodson, a hwythau wedi gweithio i gwmnïau ynni yn y gorffennol, yn aelodau o gynlluniau pensiwn eu cyn-gyflogwyr. Gweinyddir y cynlluniau hyn yn unol â rheolau'r Rheoleiddiwr Pensiwn ac maent ar wahân i fusnes y cwmnïau a reoleiddir.

## Trefniadau archwilio

Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan statud ac sy'n atebol i Senedd y DU, wedi archwilio'r cyfrifon adnoddau. Cost dybiannol archwilio'r cyfrifon adnoddau a'r datganiad ymddiriedaeth oedd £64,000 (2016–17: £53,000). Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth, gwirioneddol na thybiannol, i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.

Mae'r swyddog cyfrifyddu wedi gwneud popeth y dylai ei wneud er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Nid yw'n ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn cael mynediad ati.

Mae ein gwasanaeth archwilio mewnol yn mesur ac yn gwerthuso'n annibynnol pa mor ddigonol, dibynadwy ac effeithiol yw ein systemau rheoli a rheolaeth ariannol. Mae'n gwneud argymhellion ac yn rhoi adroddiad sicrwydd i'r swyddog cyfrifyddu bob blwyddyn. Rydym wedi gosod y swyddogaeth archwilio mewnol ar gontract allanol er mwyn sicrhau ein bod yn cael dadansoddiad ac argymhellion annibynnol a phroffesiynol. Ailbenodwyd Deloitte i'r rôl hon ar 1 Ebrill 2015, ar ôl tendr cystadleuol. Daw'r contract presennol i ben ar 30 Mehefin 2019.

Fel rhan o'n proses sicrwydd cyflawni prosiectau, rydym yn cael sicrwydd annibynnol ar wahân ar gamau allweddol prosiect. Rydym wedi gosod y gwasanaeth hwn ar gontract allanol naill ai i Deloitte neu gwmnïau eraill sydd ar gael drwy ein fframwaith caffael

## Cyllidebau a hylifedd

Mae Senedd y DU yn cymeradwyo ein cyllideb, ar ôl i ni ymgynghori â'r diwydiant a phartïon eraill â diddordeb. Ar gyfer 2017-18 cymeradwyodd Senedd y DU y canlynol drwy'r Prif Amcangyfrif:

- cyllideb adnoddau gros o £93.4 miliwn
- cyllideb cyfalaf o £5.239 miliwn
- gofyniad arian parod net o £7.130 miliwn (a ddiwygiwyd i £10.660 miliwn yn yr Amcangyfrif Atodol)

## Cysoni rhwng yr amcangyfrif a'r gyllideb

| | 2017-18 £000 | 2016-17 £000 |
|---|---|---|
| Alldro adnoddau net (amcangyfrif) | 702 | 15,207 |
| Costau gweithredu net (cyfrifon) | 596 | 630 |
| Alldro cyllideb adnoddau (cyllideb) | 596 | 630 |
| O'r cyfanswm hwnnw | | |
| Terfynau gwariant adrannol | 596 | 630 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | - | - |

Gellir priodoli'r gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrif a'r alldro i ofyniad cyllidebu Trysorlys EM i drin rhyddhau'r ffi drwydded ohiriedig o £5.0 miliwn a gadwn ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel cyllid drwy bleidlais yn hytrach nag incwm gweithredu. Yn ystod 2016-17 ni chafodd unrhyw ran o'r swm hwn ei rhyddhau.

Hawliwyd blaendaliad o £20.0 miliwn o'r gronfa wrth gefn ym mis Ebrill 2017 er mwyn rhoi hylifedd byrdymor nes ein bod yn dechrau cael ffioedd trwydded. Ad-dalwyd y swm hwn yn llawn gennym ym mis Medi 2017.

Mae'r alldro gofyniad arian parod net o £0.569 miliwn yn is na'r amcangyfrif o'r gofyniad arian parod net o £10.660 miliwn.

### Cyllid a darpariaethau

Roedd cyfanswm y darpariaethau yn gwneud cyfanswm o £1.068 miliwn ar 31 Mawrth 2018. Rydym wedi darparu ar gyfer taliadau ymadael gwirfoddol, dadfeiliadau, a chostau parhaus ymddeoliadau cynnar sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd ariannol blaenorol.

Yn 2003, gosodwyd gwasanaethau archwilio a phrofi statudol ar gontract allanol i SGS UK Ltd (ein labordai yng Nghaerlŷr a oedd wedi darparu'r gwasanaethau hynny hyd yna). Mae rhai o gostau'r newid hwn, yn enwedig costau diswyddo a rhwymedigaethau pensiwn parhaus, wedi cael eu trosglwyddo i ni. Bu'n rhaid i ni wneud darpariaethau yn 2003-04 sydd bellach yn gwneud cyfanswm o £0.164 miliwn.

Cytunwyd ar nifer o daliadau ymadael gwirfoddol, sef cyfanswm o £0.504 miliwn, o ganlyniad i ad-drefnu mewnol.

Mae Ofgem hefyd wedi llofnodi cytundeb i gwtogi'r brydles ar gyfer swyddfa Cornerstone yn Glasgow, gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn symud i'r safle. Yn ôl y cytundeb hwn rhennir costau dadfeiliadau hanner a hanner rhwng Ofgem a HSE. Mae'r ddarpariaeth yn creu cyfanswm o £0.029 miliwn. Mae'r cytundeb ar gyfer prydles newydd Commonwealth House yn Glasgow yn nodi y bydd Ofgem yn atebol am gostau dadfeiliadau. Mae'r ddarpariaeth yn creu cyfanswm o £0.338 miliwn.

Rydym wedi darparu cyfanswm o £0.904 miliwn yn ystod 2017-18. Dengys ein datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2018 ecwiti trethdalwyr sy'n cyfateb i £5.880 miliwn.

## Gwella ein cadwyn gyflenwi

### Caffael amgylcheddol

Mae ein tîm Caffael yn gwneud penderfyniadau prynu yn seiliedig ar werth gorau am arian (sy'n ymgorffori meini prawf cynaliadwyedd amgylcheddol) ac rydym yn mynd ati'n barhaus i chwilio am ffyrdd o brynu cynaliadwyedd ; cadwn gofnod manwl o'r arbedion arian parod a gyflawnwn sydd fel arfer yn deillio o fanteisio ar fframweithiau cyflenwyr (ein rhai ni'n hunain a'r rhai a sefydlir gan Wasanaeth Masnachol y Goron).

Mae ein prosesau yn cydymffurfio ag Ardystiad Safon Rhagoriaeth y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi a ninnau wedi ennill ardystiad yn flaenorol.

## Talu credydwyr yn gyflymach

Rydym wedi ymrwymo i'r Cod Ymarfer Talu'n Well a sefydlwyd gan y Grŵp Ymarfer Talu'n Well, sef fforwm o aelodau'r gymuned fusnes a chynrychiolwyr y llywodraeth. Mae hyn yn golygu ein bod yn talu biliau o fewn 30 diwrnod (neu gyfnod arall y cytunwyd arno) i dderbyn nwyddau neu wasanaethau, neu anfoneb, p'un bynnag sydd hwyraf. Yn 2017-18 talwyd 99.93% o'r holl filiau na fu anghydfod yn eu cylch o fewn y terfyn amser hwn.

Yn 2008, heriodd y llywodraeth adrannau i dalu pob cyflenwr o fewn 10 diwrnod gwaith. Eleni, talwyd 95% o'r holl filiau na fu anghydfod yn eu cylch o fewn y terfyn amser hwn. Ar gyfer symiau sy'n ddyledus yn gytundebol ac sy'n cael eu hanfonebu erbyn 31 Mawrth 2017, nifer y diwrnodau pryniannau na thalwyd amdanynt yw 3.0.

## Adroddiadau i'r Ombwdsmon Seneddol

Yn 2013 (y flwyddyn fwyaf diweddar y cyhoeddwyd data mewn perthynas â hi) nid oedd unrhyw gwynion am yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan wedi cael eu cyflwyno i'r Ombwdsmon Seneddol[4].



**Dermot Nolan**
Swyddog Cyfrifyddu

**21 Mehefin 2018**

[4] Mae nifer y cwynion y mae'r Ombwdsmon Seneddol yn eu derbyn i ymchwilio iddynt mewn blwyddyn ariannol yn wahanol i nifer yr ymchwiliadau a gwblheir yn ystod yr un flwyddyn.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi ein cyfarwyddo i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau yn nodi'r adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'n defnydd ohonynt yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofgem a'i halldro adnoddau net, adnoddau a gymhwyswyd, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a'r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r swyddog cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth. Yn benodol, mae'n rhaid iddo wneud y canlynol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrth y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.
- cadarnhau, hyd y gwŷr, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Ofgem yn ymwybodol ohoni, a bod pob cam wedi'i gymryd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod archwilwyr Ofgem yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EM wedi dynodi'r prif weithredwr yn swyddog cyfrifyddu i ni. Mae cyfrifoldebau ein swyddog cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu ein hasedau, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

# Datganiad Llywodraethu

Rydym yn cael eu cyfarwyddo a'n llywodraethu gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan, sy'n gwneud pob penderfyniad mawr ac sy'n pennu blaenoriaethau polisi. Mae'r Awdurdod yn cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol.

## Pwy sy'n rhan o'r Awdurdod?

### Sut y gwneir penodiadau

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn penodi aelodau anweithredol yr Awdurdod ar ôl ymgynghori â'r cadeirydd. Penodir aelodau gweithredol yr Awdurdod yn unol â Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil. Maent yn dal eu swydd am gyhyd ag y byddant yn dal eu huwch swyddi yn Ofgem, yn amodol ar yr uchafswm cyfnodau swydd a nodir yn Nhrydydd Pecyn Ynni'r UE a'i reolau ynglŷn â phenodiadau i awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol mewn aelod-wladwriaethau.

Dangosir manylion cydnabyddiaeth aelodau'r Awdurdod a'u trefniadau pensiwn yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth sy'n dechrau ar dudalen 48.

### Sut mae'r Awdurdod yn gweithio

TMae'r Awdurdod yn cyfarfod yn ffurfiol 10 gwaith y flwyddyn. Yn ogystal â hynny, mae aelodau'r Awdurdod hefyd yn mynychu sesiynau briffio anffurfiol rheolaidd i'w galluogi i adolygu materion sy'n datblygu ar lefel uchel a gwasanaethu ar bwyllgorau'r Awdurdod, y nodir eu manylion isod.

Yn 2017-18, adolygodd y cadeirydd berfformiad unigol aelodau'r Awdurdod unwaith eto, gan ystyried eu cyfraniadau i waith yr Awdurdod. Pennodd yr aelodau anweithredol eraill amcanion i'r cadeirydd ar ôl trafodaeth ag ef ac adolygwyd ei berfformiad yn erbyn yr amcanion hyn ganddynt.

Mae'r Awdurdod yn adolygu gweithgareddau, cynlluniau a pherfformiad y sefydliad yn erbyn ei amcanion strategol ac yn adolygu gweithgareddau a blaenoriaethau ei brif swyddogaethau cymorth bob chwe mis. Caiff gweithgareddau a blaenoriaethau E-Serve eu hadolygu gan yr Awdurdod, yn dilyn adroddiad gan Fwrdd E-Serve, dair gwaith y flwyddyn. Mae'r Awdurdod hefyd yn adolygu risgiau strategol Ofgem, hynny yw, y risgiau hynny sydd fwyaf arwyddocaol i strategaeth Ofgem, ddwywaith y flwyddyn.

Ym mis Rhagfyr 2014 gwnaethom gyhoeddi ein strategaeth gorfforaethol a amlinellodd sut rydym yn anelu at wneud y mwyaf o'n hadnoddau a'n pwerau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddefnyddwyr nawr ac yn y dyfodol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Adolygwn ein strategaeth bob blwyddyn, gydag adolygiad mwy sylfaenol bob pum mlynedd, neu oddeutu hynny, er mwyn sicrhau ei bod yn ddigon hyblyg i addasu i newidiadau yn y byd o'n cwmpas. Bob blwyddyn cyhoeddwn ein Blaenraglen Waith yn dilyn ymgynghoriad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gwnaethom gyhoeddi ein Blaenraglen Waith ddrafft ar gyfer 2018-19 ym mis Rhagfyr 2017 at ddiben ymgynghoriad a chyhoeddwyd y cynllun terfynol ym mis Mawrth 2018.

Yn dilyn adolygiad o'r Awdurdod yn 2017, penderfynodd yr Awdurdod newid ffocws rhai o'i drafodaethau fel bod modd trafod materion mwy cyfannol a thrawsbynciol. O ganlyniad i hyn, cafwyd gwared ar adroddiadau'r is-adrannau unigol bob chwe mis. Yn hytrach na hynny, mae'r Awdurdod yn ystyried y cyd-adolygiad gweithredol o'r ffactorau allanol sy'n ysgogi'r dirwedd bob pedwar mis ac adolygiad llawn o'r rhaglen gyffredinol o waith tymor canolig a thymor hwy bob chwe mis ochr yn ochr â gallu ac iechyd y sefydliad bob chwe mis. Mae'r Awdurdod hefyd yn gwneud penderfyniadau ar faterion rheoleiddio mawr penodol nad ydynt wedi cael eu dirprwyo i bwyllgorau neu swyddogion gweithredol.

Rydym yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod ar ein gwefan, ynghyd â chylch gorchwyl y pwyllgorau. Rydym hefyd yn paratoi agendâu dros dro ar gyfer prif gyfarfodydd yr Awdurdod. Mae'r cadeirydd a'r aelodau anweithredol eraill yn chwarae rhan lawn ym musnes yr Awdurdod. Buont yn bresennol yng nghyfarfodydd llawn yr Awdurdod a chyfarfodydd pwyllgorau fel a ganlyn:

| Aelodau | Yr Awdurdod | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Bwrdd E-Serve | Pwyllgor Cydnabyddiaeth | Pwyllgor RIIO 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| Christine Farnish | 9/10 | - | 1/1 | 4/4 | 1/1 |
| David Fisk | 2/2 | - | - | - | - |
| David Gray | 10/10 | - | - | - | - |
| Jim Keohane | 7/8 | 1/1 | 3/3 | 3/3 | - |
| Keith Lough | 10/10 | 4/4 | - | - | - |
| Nicola Hodson | 3/3 | - | 1/1 | - | - |
| Paul Grout | 10/10 | 4/4 | - | 4/4 | 1/1 |

Cyfarfu'r Awdurdod yng Nghaerdydd ar 15 Mawrth 2018, gan ddefnyddio'r achlysur i gyfarfod â chynrychiolwyr gwleidyddol, grwpiau defnyddwyr a rhanddeiliaid ynni lleol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Cynhaliwyd cyfarfodydd â phartïon â diddordeb ar y diwrnod cyn y prif gyfarfod, gan roi cyfle i'r Awdurdod drafod pynciau cyfoes, fel dyfodol ynni lleol yng Nghymru, â rhanddeiliaid.

## Pa bwyllgorau sydd gan yr Awdurdod?

Mae strwythur corfforaethol yr Awdurdod – gyda chylch gorchwyl clir i bwyllgorau – yn parhau i roi sicrwydd i ni fod trefniadau llywodraethu cadarn drwy'r sefydliad cyfan.

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r pwyllgor hwn yn cynghori'r Awdurdod a'r swyddog cyfrifyddu, lle y bo'n berthnasol iddynt, ar unrhyw beth sy'n effeithio ar ein hiechyd ariannol, adroddiadau ariannol, gonestrwydd, rheoleiddio neu reoli risg yn fwy cyffredinol a'r system lywodraethu. Mae'r pwyllgor hefyd yn edrych ar unrhyw agwedd ar y busnes a all effeithio ar yr amcanion strategol a gweithrediad effeithiol Ofgem ac mae'n goruchwylio ein cyfundrefn rheolaeth costau ar gyfer Adolygiad o Wariant 2015.

Eleni, roedd gwaith y pwyllgor yn cynnwys:

- cael adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol
- cael adroddiadau a monitro'r camau a gymerwyd i ymdrin â gwendidau yn deillio o adroddiadau sicrwydd, y tynnwyd sylw'r Pwyllgor atynt gan unrhyw Is-bwyllgor arall o'r Awdurdod neu'r Bwrdd Gweithredol
- cael adroddiadau ar ddiogelwch TG o fewn y sefydliad, yn arbennig adolygu a chynghori ar ddigonolrwydd polisïau a phrosesau seibr-ddiogelwch, atal twyll a chwythu'r chwiban, a'r camau a gymerwyd gan y sefydliad mewn ymateb i ddigwyddiadau andwyol.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2017-18. Keith Lough yw cadeirydd y pwyllgor; yr aelod anweithredol arall yw Paul Grout.

### Pwyllgor Bwrdd E-Serve

Mae'r pwyllgor hwn yn cynghori'r Awdurdod ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd E-Serve o ran cyflawni ei weithgareddau perthnasol. Yn benodol, mae'n adolygu ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar strategaeth a chyllideb gyffredinol E-Serve, gweithgareddau newydd arwyddocaol i'w cyflawni gan E-Serve a newidiadau mawr i weithgareddau a gyflawnir eisoes. Mae'n rhoi sicrwydd i'r Awdurdod ynglŷn â pherfformiad y gweithgareddau hynny. Caiff ei gadeirio gan y prif weithredwr ac mae ei aelodau yn cynnwys rheolwr gyfarwyddwr E-Serve a chyfarwyddwyr anweithredol. Cyfarfu'r Bwrdd bedair gwaith yn 2017-18.

### Enforcement Decision PanelPanel Penderfyniadau Gorfodi

Mae'r Panel Penderfyniadau Gorfodi wedi cael ei sefydlu i wneud penderfyniadau pwysig mewn achosion gorfodi a ymleddir ar ran yr Awdurdod. Mae aelodau'r Panel yn arbenigwyr penodedig, sy'n sicrhau gwahaniad gweladwy rhwng swyddogaethau ymchwilio a gwneud penderfyniadau.  Cadeirydd y Panel yw John Swift

CF. Mae aelodau'r Panel hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Setliadau Gorfodi (gweler yr adran nesaf).

Cydnabyddiaeth y Panel Penderfyniadau Gorfodi

Caiff aelodau'r Panel eu talu £1000 y dydd. Caiff Cadeirydd y Panel £1500 y dydd. Gan mai cyflogeion Ofgem ydynt, dim ond treuliau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau busnes y mae ganddynt hawl iddynt.

Caiff pum diwrnod o daliadau eu gwarantu i bob aelod ym mhob blwyddyn, ond mae'r ymrwymiadau'n amrywio yn ôl llwyth achosion.

### Pwyllgorau Setliadau Gorfodi

Gellir sefydlu Pwyllgorau Setliadau Gorfodi i benderfynu a ddylid awdurdodi gweithdrefn setliad mewn perthynas ag ymchwiliad o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 neu mewn perthynas ag achosion honedig o dorri'r gyfraith o dan adrannau amrywiol o Ddeddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989 a deddfwriaeth arall. Penodir pwyllgorau ar wahân ar gyfer pob achos ac maent yn cynnwys dau aelod o'r Panel Penderfyniadau Gorfodi a enwebir gan ei gadeirydd yn ogystal ag Uwch Was Sifil a enwebir gan gadeirydd yr Awdurdod. I gael rhagor o fanylion am y Panel Taliadau Gorfodi, gweler tudalennau'r panel ar wefan Ofgem https://www.ofgem.gov.uk/about-us/how-we-work/our-approach-regulation/enforcement-decision-panel.

### Pwyllgor Ewrop

TMae'r Awdurdod wedi dod yn fwy strategol ac mae'n ystyried mwy o faterion yn gyffredinol. Gan fod y rhan fwyaf o faterion Ewropeaidd yn rhan annatod o waith Ofgem, teimlid y dylai'r Awdurdod eu trin felly ac nad oedd angen Pwyllgor Ewrop ar wahân mwyach. Trafododd yr Awdurdod nifer o faterion, fel effaith paratoadau Brexit, cynnydd deddfwriaeth Ewropeaidd newydd a datblygiadau o ran rhyng-gysylltwyr.

Daeth cyfnod yr Arglwydd Mogg fel llywydd Cyngor y Rheoleiddwyr Ynni Ewropeaidd a chadeirydd Asiantaeth yr UE dros Gydweithrediad Rheoleiddwyr Ynni i ben, a gadawodd ei rôl fel cynghorydd Ofgem ar yr UE ddiwedd 2017. Hoffai'r Cadeirydd ddiolch i'r Arglwydd Mogg am ei gyfraniad sylweddol i Ofgem.

### Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl

Mae'r pwyllgor hwn, a gadeirir gan Christine Farnish, yn ystyried cyflog a pherfformiad uwch aelodau o staff, a chynllunio olyniaeth. Am fanylion aelodau'r pwyllgor, ei rôl, a chyflog a hawliadau pensiwn uwch aelodau o staff, gweler yr adroddiad gydnabyddiaeth yn ddiweddarach yn yr adran hon.

## Sut y caiff perfformiad yr Awdurdod ei fesur?

Yn dilyn yr adolygiad allanol o'r Bwrdd ddechrau 2017, mae'r Bwrdd wedi ceisio ymgorffori mwy o amser am drafodaethau strategol ac adolygu cynnydd mewn modd mwy cyfannol nag o'r blaen. Cynhaliwyd adolygiad mewnol o effeithiolrwydd y Bwrdd ym mis Mawrth 2018 a dangosodd gynnydd mewn effeithiolrwydd cyffredinol.

## Y fframwaith llywodraethu gweithredol

### Uwch Dîm Arwain

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cefnogi'r prif weithredwr yn y gwaith o redeg Ofgem o ddydd i ddydd. Mae'n cynnwys pob un o'r aelodau gweithredol a ddangosir yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth. Maent yn cyfarfod yn wythnosol ac yn penderfynu ar bopeth yn ymwneud â rheoli ac adnoddau, yn ddarostyngedig i reolaeth gyffredinol yr Awdurdod.

### Fframwaith Llywodraethu

Mae ein fframwaith llywodraethu gweithredol newydd yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a strategaeth, prosesau gwneud penderfyniadau cyflymach o ansawdd uchel a sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol er budd defnyddwyr. Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau llywodraethu Ofgem yn 2017 ac o 1 Medi ymlaen rhoddwyd strwythur byrddau newydd, symlach ar waith.

### Bwrdd Rheoleiddio

Mae'r Bwrdd Rheoleiddio yn sicrhau y creffir yn briodol ar brosesau gwneud penderfyniadau yn y sefydliad, yn rhoi arweiniad ar gam cynnar ar faterion polisi ac yn rhoi barn yr uwch dîm arwain ar faterion sy'n cael eu cyflwyno i'r Awdurdod. Caiff y bwrdd ei gadeirio gan y prif weithredwr.

### Bwrdd Perfformiad a Chyflawni

Mae'r Bwrdd Perfformiad a Chyflawni yn helpu'r prif swyddog gweithredu i bennu sut mae Ofgem yn perfformio yn erbyn ei amcanion strategol ac

yn galluogi'r uwch dîm arwain i drafod y materion gweithredol mwyaf strategol.

Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan y prif swyddog gweithredu.

## Pwyllgor Rheoli (E-Serve)

Mae'r pwyllgor hwn yn cefnogi'r gwaith o redeg uned fusnes E-Serve o ddydd i ddydd. Caiff ei gadeirio gan reolwr gyfarwyddwr E-Serve ac mae ei aelodau yn cynnwys pob pennaeth tîm E-Serve. Mae'n penderfynu ar bopeth yn ymwneud â rheoli E-Serve, yn ddarostyngedig i reolaeth gyffredinol yr Awdurdod ac mae'n cyfarfod bob pythefnos.

## Pwyllgor Sicrwydd Risg E-Serve (ERAC)

Pwyllgor newydd yw hwn, a chaiff ei gadeirio gan aelod anweithredol o Fwrdd E-Serve. Mae'n cwrdd bob mis ac mae ei aelodau yn rhan o E-Serve. Mae'n bodoli i reoli risg o fewn E-Serve ac mae'n rhoi haen ychwanegol o sicrwydd i Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Bwrdd E-Serve.

## Bwrdd Gweithrediadau E-Serve

Caiff ei gadeirio gan brif swyddog gweithredu E-Serve ac mae ei aelodau yn cynnwys pob pennaeth tîm E-Serve. Mae'n cyfarfod unwaith y mis ac yn penderfynu ar bopeth sy'n ymwneud â gweithrediadau yn E-Serve, yn ddarostyngedig i reolaeth gyffredinol yr Awdurdod.

## Y Fframwaith rheoli risg

Mae ein fframwaith rheoli risg yn amlinellu sut y dylid ymgorffori rheoli risg ym mhob rhan o Ofgem; sut rydym yn nodi, yn gweinyddu ac yn rheoli risgiau.

Mae'r fframwaith hwn yn disgrifio:

- y systemau sydd gennym i reoli risg
- sut rydym yn nodi, yn asesu ac yn rheoli risg
- pwysigrwydd rheoli risg i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr
- manylion rolau a chyfrifoldebau rheoli risg
- canllawiau ac adnoddau ar reoli risg.

Mae rheoli risg yn rhan annatod o'n gwaith llunio polisïau, cynllunio a chyflawni. Mae gan uwch reolwyr amcanion penodol ar gyfer rheoli risg yn eu maes.

Mae partneriaid a chyfarwyddwyr yn gyfrifol am weithredu ein fframwaith risg a sicrhau bod pawb yn ymwybodol ohono. Gall pob aelod o staff weld y fframwaith ar ein mewnrwyd.

Rydym wedi pennu awydd i fentro a bennir yng nghyd-destun ein cenhadaeth i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddefnyddwyr ynni. Ni allwn weithredu heb gymryd risgiau, felly mae'r fframwaith hwn yn ein helpu i nodi a gwerthuso'r risgiau hyn mewn ffordd strwythuredig sy'n eu cysylltu â'n cenhadaeth a'n strategaeth.

## Risg a rheoli

Yn ystod 2017-18, arhosodd polisi ynni yn uchel ar yr agenda wleidyddol ac agenda defnyddwyr; mae defnyddwyr yn pryderu am godiadau yn eu biliau ynni, a hynny'n ddealladwy.

Er mwyn sicrhau bod ein holl waith yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr, cyhoeddwyd ein strategaeth ym mis Rhagfyr 2014 ac, yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddwyd ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2018-19 ar 28 Mawrth 2018. Diogelu defnyddwyr ynni ym Mhrydain a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ar eu cyfer yw ein prif amcan, ac mae popeth a wnawn yn cyfrannu at hyn. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr, gan gynnwys biliau is, llai o ddifrod amgylcheddol, gwell dibynadwyedd a diogelwch, gwasanaeth o ansawdd gwell a buddiannau i gymdeithas gyfan.

Yn ogystal â'n gweithgareddau busnes craidd sy'n allweddol i gyflawni ein rôl fel rheoleiddiwr a pharhau i gyflawni cynlluniau amgylcheddol y llywodraeth yn effeithiol ac yn effeithlon, roedd y gwaith a gynlluniwyd gennym yn ystod y flwyddyn yn anelu at bum amcan allweddol:

1. **galluogi marchnad fanwerthu sy'n gweithio'n well**
2. **hwyluso newid yn y system ynni**
3. **dysgu o'r fframwaith RIIO cyntaf a sicrhau bod gan RIIO-2 gyfle gwych i lwyddo**
4. **cyflwyno cystadleuaeth mewn meysydd lle y ceir monopoli**
5. **bod yn ffynhonnell awdurdodol dadansoddi ansawdd**

Gwnaethom gydnabod gwaith rheoli risg a'i groesawu fel ffordd o fynd i'r afael â'r heriau a oedd yn gysylltiedig â'r amcanion hyn ac rydym wedi ceisio pennu gweithdrefnau rheoli risg synhwyrol a chymesur ym mhob maes o'n gwaith. Mae ein rheolwyr yn ystyried bod rheoli risg yn rhan annatod o'u gwaith, ac mae'r Uwch

Dîm Arwain yn adolygu prif risgiau Ofgem yn barhaus.

Fel y nodwyd y llynedd, ym mis Ionawr 2017, sefydlodd Gweinidog Cyllid Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ymchwiliad cyhoeddus er mwyn ystyried y ffordd roedd cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig Gogledd Iwerddon wedi cael ei gynllunio, y ffordd roedd yn cael ei lywodraethu a'i roi ar waith, y ffordd roedd yn gweithio ac ymdrechion i reoli ei gostau. Fel gweinyddwr y cynllun, rydym yn parhau i ymgysylltu â'r ymchwiliad ynghylch unrhyw faterion a godir sy'n gysylltiedig â'n rôl o fewn y cynllun.

Yn 2017, cyn i'r Ymchwiliad i Gynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig Gogledd Iwerddon gael ei sefydlu, cynhaliodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol asesiad o werth am arian cynlluniau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Prydain Fawr am arian sydd hefyd yn cael eu gweinyddu gan Ofgem. Nid yw cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig Gogledd Iwerddon yn perthyn i gwmpas yr adroddiad hwn. Cyhoeddwyd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym mis Chwefror 2018 a daeth i'r casgliad bod yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) wedi dangos hyblygrwydd wrth gyflwyno'r cynllun, gan addasu amcanion y cynllun mewn ymateb i strategaeth a oedd yn newid a thybiaethau cynllunio cychwynnol a oedd yn rhy optimistaidd. Llwyddodd y mesurau a gyflwynwyd er mwyn rheoli costau'r cynllun i osgoi'r problemau a gododd yng nghynllun Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, daeth yr adroddiad i'r casgliad nad yw cynlluniau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Prydain Fawr wedi sicrhau gwerth am arian. Nid oes gan BEIS amcangyfrif dibynadwy o'r swm y mae wedi'i ordalu i gyfranogwyr nad ydynt wedi cydymffurfio â'r rheoliadau, na'r effaith pan fydd cyfranogwyr yn 'chwarae' gyda'r rheoliadau, a allai arwain at leihau gwerth y cynllun yn sylweddol.

Rydym yn croesawu adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac mae Ofgem a BEIS yn dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol a fydd yn cyfrannu at benderfyniad y llywodraeth ynghylch polisi i olynu'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy, a gaiff ei gyhoeddi yn 2018.

Ar 26 Chwefror 2018, cyflwynodd y Gweinidog Gwladol dros Ynni a Thwf Glân Fil Nwy a Thrydan Domestig (Cap ar Dariffau) i'r Senedd. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer gosod cap ar gyfraddau a godir ar gwsmeriaid domestig am gyflenwi nwy a thrydan ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Ofgem osod cap diamod ar Dariffau Amrywiadwy Safonol tan o leiaf 2020, pan fyddwn yn argymell i'r Llywodraeth p'un a ddylid ymestyn y cap yn flynyddol tan 2023. Bydd y cap yn gymwys i 11 miliwn o gartrefi yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac mae'r Llywodraeth yn gobeithio y bydd mewn grym erbyn gaeaf 2018. Ein prif flaenoriaeth yw diogelu defnyddwyr ac rydym yn rhannu pryder y Llywodraeth nad yw'r farchnad yn gweithio i bob defnyddiwr, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed. Rydym hefyd yn rhannu uchelgais y llywodraeth i ddiogelu defnyddwyr nad ydynt yn cael llawer o werth o'u tariffau yn well. Buom yn cydweithio'n helaeth â'r Llywodraeth i ddylunio'r Bil a chyflawni gwaith craffu cyn y broses ddeddfu arno, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth wrth i'r Bil gael ei phasio drwy'r Senedd a dod i rym.

Dylid nodi bod y datblygiadau sylweddol hyn wedi digwydd yn ystod cyfnod pan adawodd tri aelod o'r Awdurdod, ac nad oes aelodau newydd wedi cael eu penodi yn eu lle eto. Mae'r sefyllfa hon wedi rhoi pwysau ychwanegol ar yr aelodau anweithredol presennol. Rydym yn ffyddiog y bydd y sefyllfa hon yn cael ei hunioni cyn bo hir gan fod ymgyrch recriwtio yn mynd rhagddi.

## Risgiau a mesurau lliniaru mewnol

Argymhellodd adolygiad Syr Nicholas Macpherson o sicrwydd ansawdd modelau dadansoddol y llywodraeth yn 2013 y dylai datganiad llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu yn yr adroddiad blynyddol gadarnhau bod fframwaith sicrhau ansawdd priodol ar waith a'i fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob model busnes critigol. Gallwn gadarnhau bod Ofgem wedi gweithredu fframwaith Sicrhau Ansawdd gwaith modelu yn unol ag argymhellion adolygiad Macpherson a bod ganddo raglen dreigl o Sicrhau Ansawdd modelau ar gyfer ei fodelau sy'n bwysig i'r busnes.

Yn 2017, yn dilyn cynllun peilot a gynhaliwyd yn 2016 a chyn symud ein swyddfeydd yn Llundain a Glasgow yn 2018, gwnaethom ddechrau rhoi ein rhaglen Amgylchedd Gwaith Gwych ar waith. Mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth y Llywodraeth, Y Ffordd Rydym yn Gweithio (TW3) – gan greu amylchedd gwaith gweddus i bob aelod o staff, gyda gweithleoedd modern sy'n galluogi gweithio hyblyg, yn gwella adnoddau TG yn sylweddol ac yn symleiddio gofynion diogelwch i'w gwneud yn llai beichus i'r staff. Mae gweithio'n gallach wedi dod yn fwy cyffredin yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Rhaglen a arweinir gan Swyddfa'r Cabinet yw TW3 ac mae pob un o adrannau'r llywodraeth wedi dechrau dilyn strategaethau gweithio'n gallach. Mae ein rhaglen

[5] https://www.rhiinquiry.org/
[6] https://www.nao.org.uk/report/low-carbon-heating-of-homes-and-businesses-and-the-renewable-heat-incentive/
[7] https://services.parliament.uk/bills/2017-19/domesticgasandelectricitytariffcap.html

Amgylchedd Gwaith Gwych wedi cefnogi'r prosesau a gynlluniwyd ac a gyflawnwyd gennym i adleoli i safleoedd amgen yn Llundain a Glasgow yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ar ddeiliadaeth, wedi gwella ein harferion gwaith ac wedi sicrhau bod gennym dechnoleg sy'n addas at y diben.

Yn ystod mis Awst 2017, cafodd cyfarpar caledwedd TG a gweinyddwyr data Ofgem eu hadleoli'n ffisegol rhwng dau gyfleuster oddi ar y safle. Bu toriad sylweddol yn y system TG pan gafodd y galedwedd ei hailgychwyn. Amharodd hyn ar systemau a gwasanaethau allweddol y busnes rhwng 12 a 18 Awst 2017. Cynhaliwyd adolygiad mewnol ac mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'n prosesau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg a Pharhad Busnes.

Mae dogfen Trysorlys Ei Mawrhydi ar reoli arian cyhoeddus yn nodi ei bod yn arfer da i Gyrff Hyd Braich gael cyfarwyddwr cyllid â chymwysterau proffesiynol ar eu Byrddau. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gyfrifydd â chymwysterau proffesiynol, ac mae'r Prif Swyddog Gweithredu, a gefnogir gan dîm cyllid â chymwysterau proffesiynol, hefyd yn aelod o'r Bwrdd. Rydym yn fodlon bod y trefniadau hyn yn sicrhau bod y sefyllfa gyllidol yn cael ei chynrychioli'n dda ar lefel y Bwrdd a bod digon o uwch aelodau i oruchwylio ac sy'n deall pwysigrwydd sicrhau gwerth drwy roi cyllid wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau.

## Cod Llywodraethu Corfforaethol

Rydym yn cydnabod gwerth trefniadau corfforaethol da ac yn cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Corfforaetho ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog. Yr unig eithriad yw bod y Cod yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gael eu cadeirio gan y gweinidog arweiniol. Fel un o adrannau anweinidogol y llywodraeth ac awdurdod rheoleiddio cenedlaethol annibynnol, gydag aelodau'r Awdurdod yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, mae gan yr Awdurdod gadeirydd anweithredol yn lle hynny.

Y llynedd, gwnaethom gyfrannu at adroddiad y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus sef "Striking the Balance" ar gadarnhau Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ym maes Rheoleiddio (egwyddorion Nolan fel y'u gelwir). Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i weithio er mwyn sicrhau bod ein hymddygiad ein hunain fel rheoleiddiwr yn ymarferol gyson ag argymhellion arfer gorau'r pwyllgor ar gyfer cyrff rheoleiddio.

Cyhoeddodd y Llywodraeth Gynllun Atal Llygredd cyntaf y DU yn 2014 ac, ers hynny, mae wedi cyhoeddi asesiad risg mewn perthynas â llwgrwobrwyo a llygredd ar gyfer adrannau'r Llywodraeth, sy'n gyson ag asesiadau risg Swyddfa'r Cabinet mewn perthynas â thwyll. Rydym wedi'i gwblhau. Mae'r Awdurdod ac uwch reolwyr Ofgem yn ymrwymedig i atal llwgrwobrwyo a llygredd gan bawb sy'n gysylltiedig ag Ofgem ac i feithrin diwylliant lle nad yw llwgrwobrwyo na gweithgarwch llygredig byth yn dderbyniol.

Yn 2018 gwnaethom lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Swyddfa'r Cabinet ar bolisi twyll mewnol y cytunwyd arno rhwng yr adrannau sy'n cymryd rhan, sy'n ceisio lleihau colledion o ganlyniad i dwyll mewnol yn y llywodraeth. Mae'r memorandwm yn nodi ein dull o roi Polisi Twyll Mewnol Swyddfa'r Cabinet ar waith. Ei ddiben yw diogelu'r gwasanaeth sifil ac arian cyhoeddus rhag colled a achosir gan dwyll mewnol a chyflwyno arf ataliol cryf yn erbyn y math hwn o gamymddwyn.

## Ansawdd data

Rydym yn casglu ac yn dadansoddi llawer o ddata ariannol a data eraill er mwyn llywio ein penderfyniadau rheoleiddio a rhoi tryloywder ynghylch y ffordd mae'r farchnad ynni'n gweithio i ddefnyddwyr, cyfranogwyr y farchnad, a phartïon eraill â diddordeb.

Mae'r Awdurdod o'r farn bod y wybodaeth hon o ansawdd da yn gyffredinol. Caiff y data a ddefnyddir i lywio penderfyniadau rheoleiddio eu hadolygu'n barhaus yn erbyn cefndir o newid parhaus yn y marchnadoedd perthnasol, ac mae'r dadansoddiad meintiol yn destun proses sicrwydd ansawdd gan Swyddfa'r Prif Economegydd.

Yn ystod 2017, gwnaethom sefydlu prosiect Gwasanaethau Data er mwyn trawsnewid y ffordd rydym yn rheoli a chyfnewid data â'n defnyddwyr data a'n rhanddeiliaid a hynny, yn y pen draw, er mwyn rhoi budd i ddefnyddwyr a lleihau'r baich rheoleiddio ar y diwydiant. Bydd y prosiect hefyd yn archwilio ein trefniadau llywodraethu, ein prosesau â'n polisïau ar gasglu a chyfnewid data. Mae hwn yn ddarn cyffrous o waith i ni drawsnewid y ffordd rydym yn gweithredu yn y diwydiant ynni.

## Digwyddiadau data personol

Mae gennym bolisi diogelwch data er mwyn cadw pob darn o wybodaeth swyddogol yn breifat ac yn ddiogel. Yn ystod 2017, cafwyd pedwar mân ddigwyddiad datgelu

[8] https://www.gov.uk/government/publications/corporate-governance-code-for-central-government-departments-2017

data gwallus fel rhan o'n gwaith o weinyddu'r cynllun Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni. Ychydig iawn o ddata a rannwyd, ond fe'u rhannwyd o fewn amgylchedd diogel a chaeedig. Rhoddwyd gwybod i'r cyflenwyr dan sylw ar unwaith, a gwnaethant ddileu'r data o'u systemau. O ganlyniad i'n hadolygiad mewnol, rydym wedi diweddaru ein gweithdrefnau gweithredu safonol a'u hatgyfnerthu ymhellach, ac rydym yn bwriadu gwneud mwy o welliannau i'n datrysiadau TG ar gyfer gweinyddu'r cynllun.

Daeth Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2016 i rym ar 25 Mai 2018 ac, ynghyd â Deddf Diogelu Data 2018, mae'n rhan o system diogelu data newydd sy'n disodli Deddf Diogelu Data 1998. I baratoi am hyn, aethom ati i archwilio'r hyn y mae'r newidiadau yn ei olygu i ni, cynnal archwiliad data ac adolygiad o'n hysbysiadau a pholisïau preifatrwydd, a sefydlu rhaglen o hyfforddi staff a chyfathrebu â nhw er mwyn helpu staff i ddeall eu cyfrifoldebau o dan y system newydd.

## Adolygiad y swyddog cyfrifyddu o effeithiolrwydd

Fel y swyddog cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Rwy'n seilio fy adolygiad ar waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y system lywodraethu. Rwyf hefyd yn ystyried sylwadau'r archwilwyr mewnol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Mae'r Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi dweud wrthyf am oblygiadau canlyniad fy adolygiad, ac mae cynllun yn bodoli i fynd i'r afael â'r gwendidau a welwn a sicrhau ein bod yn parhau i wella'r system.

Mewn adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2017-18 ac mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaeth ein harchwilwyr mewnol 32 o argymhellion y disgwylid iddynt gael eu gweithredu cyn 31 Rhagfyr 2016. O'r rhain, erbyn mis Ebrill 2017, roedd cynnydd boddhaol wedi'i wneud gydag 20 o'r 32 o argymhellion naill ai wedi'u gweithredu neu wedi'u cwblhau i raddau helaeth, wyth argymhelliad arall yn mynd rhagddynt, tri argymhelliad yn weddill ac un argymhelliad lle mae rheolwyr wedi derbyn y risg.

Eleni, cymerwyd camau i fonitro a gwella ein system lywodraethu:

- Adolygodd yr Awdurdod ein risgiau strategol ym mis Gorffennaf 2017 a mis Chwefror 2018
- Adolygwyd ein risgiau strategol gan yr Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Rheoli (dros E-Serve) a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Cyfarfu Grŵp Rheoli Risg a Thwyll E-Serve bob mis i ddechrau ar waith a oedd yn ymwneud ag atal a chanfod twyll a'i adolygu, a sicrhau ein bod yn rheoli achosion o dwyll a amheuir, cam-ddatgan neu wyngalchu arian yn briodol
- Sicrwydd: Gwnaethom ffurfio swyddogaeth newydd, bellgyrhaeddol er mwyn atgyfnerthu ein swyddogaethau rheoli risg, goruchwylio cydymffurfiaeth ac archwilio yn ein portffolio cyflawni
- Cyfarfu'r prif swyddog gweithredu a chyfarwyddwr cyswllt cyllid a rheoli risg yn rheolaidd ag uwch bartneriaid a rheolwyr gyfarwyddwyr yn unigol er mwyn adolygu adnoddau a chynnydd tuag at amcanion, a nodi a gwerthuso'r risgiau cysylltiedig
- Diweddarwyd ein datganiadau llywodraethu i'w gwneud yn ofynnol i bartneriaid a chyfarwyddwyr ystyried a chyflwyno adroddiadau ar bob agwedd ar reoli ariannol a rheoli risg a materion rheoli llywodraethu eraill yn eu maes

Ni chododd unrhyw broblemau sylweddol gyda'n system lywodraethu yn ystod y flwyddyn ariannol. Gwnaethom gyhoeddi strwythur sefydliadol newydd ym mis Chwefror 2018 a bydd y system lywodraethu ar gyfer 2018-19 yn cael ei diwygio i adlewyrchu hyn.



**Dermot Nolan**
Swyddog Cyfrifyddu

**21 Mehefin 2018**

# Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

## Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl

Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys aelodau anweithredol yr Awdurdod a benodir drwy benderfyniad cyffredin yr Awdurdod. Cadeirir y pwyllgor gan Christine Farnish. Yr aelodau eraill yn ystod 2017-18 oedd Paul Grout a, nes iddo ymddeol o GEMA ar 31 Rhagfyr 2017, Jim Keohane. Mae'r Cadeirydd, y prif weithredwr a'r prif swyddog gweithredu yn mynychu fel arsylwyr.

Rôl y pwyllgor yw adolygu a chymeradwyo'r dyfarniad cyflog blynyddol a lefel unrhyw fonws i gyflogeion yr Uwch Dîm Rheoli. Mae hefyd yn ystyried materion eraill sy'n ymwneud â chyflog a pherfformiad uwch aelodau o staff Ofgem. Dyfernir cyflog a bonysau ar sail perfformiad o fewn y terfynau a bennwyd gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil yn sgil argymhellion gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu gwaith cynllunio olyniaeth.

## Polisi Cydnabyddiaeth

Nodir cydnabyddiaeth uwch gyflogeion yn eu contractau a chaiff ei hadolygu'n flynyddol yn unol â'r dyfarniadau a argymhellir gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch, cyn i Swyddfa'r Cabinet gytuno arni. Ar wahân i'r cadeirydd, mae pob un o'n huwch gyflogeion yn aelodau parhaol o staff. Nid oes gan yr un ohonynt gyfnod rhybudd sy'n hwy na chwe mis.

Mae pob un o gyflogeion yr Uwch Dîm Rheoli yn gymwys i fod yn rhan o gynllun bonws sy'n unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet. Mae'r bonws yn seiliedig ar berfformiad yr unigolyn. Mae taliadau bonws yn rhai ar wahân i gyflog ac nid ydynt yn bensiynadwy.

Yn ystod 2016-17 gwnaethom ystyried dichonoldeb cyflwyno darpariaeth i adfachu bonysau lefel uwch. Penderfynwyd, oherwydd maint y taliadau bonws a diffyg darpariaeth o'r fath yn y gwasanaeth sifil yn ehangach, y byddai'r nodwedd hon yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

## Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r gwasanaeth sifil gael eu gwneud ar sail teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r egwyddorion recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi pryd y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall, mae'r swyddogion a gwmpesir yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n ben agored. Petai Ofgem yn terfynu penodiad yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, byddai iawndal yn cael ei roi i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn **www.civilservicecommission.org.uk.**

## Cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliadau pensiwn

Mae'r wybodaeth yn y tablau canlynol wedi cael eu harchwilio gan archwilwyr allanol.

Dangosir cyflog cyflogeion lefel uchaf Ofgem (nad yw pob un ohonynt yn aelod o'r Awdurdod), eu taliadau bonws a gwerth unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da iddynt yn 2017-18 yn y tabl dros y dudalen.

## Un cyfanswm ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol

| | Cyflog (£000) | | Taliadau bonws (£000) | | Buddiannau mewn da (i'r £100 agosaf) | | Buddiannau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)‡ | | Cyfanswm (£000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 |
| **Uwch aelodau gweithredol Ofgem** | | | | | | | | | | |
| **Dermot Nolan**<br>Prif Weithredwr | 195-200 | 190-195 | - | 15-20 | - | – | 35,000 | 34,000 | 230-235 | 240-245 |
| **Jonathan Brearley**<br>Uwch Bartner o fis Mai 2016 | 140-145 | 115-120 | - | - | - | - | 35,000 | 45,000 | 175-180 | 160-165 |
| **Sarah Cox**<br>Prif Swyddog Gweithredu o fis Mai 2016 | 135-140 | 110-115 | - | - | - | - | 33,000 | 46,000 | 170-175 | 155-160 |
| **Martin Crouch**<br>Uwch Bartner | 140-145 | 140-145 | - | - | - | - | 35,000 | 35,000 | 175-180 | 215-220 |
| **Rachel Fletcher**<br>Uwch Bartner tan fis Ionawr 2018* | 115-120* | 140-145 | - | 15-20 | - | – | 28,000 | 42,000 | 145-150 | 200-205 |
| **Rob Salter-Church**<br>Uwch Bartner Dros Dro o fis Ionawr 2018* | 35-40* | - | - | - | - | - | 7,000 | - | 40-45 | - |
| **Dr Andrew Wright**<br>Uwch bartner | 190-195 | 195-200 | - | - | - | – | 28,000 | 28,000 | 220-225 | 220-225 |
| **Chris Poulton**<br>Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro | 135-140 | 140-145 | - | 15-20 | - | - | 31,000 | 17,000 | 165-170 | 175-180 |
| **Aelodau anweithredol yr Awdurdod** | | | | | | | | | | |
| **David Gray**<br>Cadeirydd | 160-165 | 160-165 | - | – | - | – | - | – | 160-165 | 160-165 |

* Cyflog sylfaenol cyfatebol blynyddol (heb gynnwys tâl ar sail perfformiad):

| | |
|---|---|
| **Rachel Fletcher** | 145-150 |
| **Rob Salter-Church:** | 105-110 |

‡ Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20, llai'r cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys unrhyw gynnydd neu leihad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

| Aelodau anweithredol eraill o'r Awdurdod a dalwyd | 2017-18 | | 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|
| | Honorariwm | Lwfans | Honorariwm | Lwfans |
| Christine Farnish | £20,000 | £3,000 | £20,000 | - |
| David Fisk (to May 2017) * | £3,000 | - | £25,000 | - |
| Paul Grout | £20,000 | - | £20,000 | - |
| Nicola Hodson (to July 2017) * | £7,000 | - | £20,000 | - |
| Jim Keohane (to January 2018) ** | £21,000 | - | £25,000 | - |
| Keith Lough | £20,000 | £3,000 | £20,000 | £3,000 |

* Swm cyfatebol blynyddol £20,000 ** Swm cyfatebol blynyddol £20,000

Mae penodiadau aelodau anweithredol am gyfnod penodol, am hyd at bum mlynedd fel arfer. Nid yw'r penodiadau hyn yn adnewyddadwy. Ceir gwybodaeth am ddyddiadau penodi ar dudalen 36. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol sy'n pennu cydnabyddiaeth ac yn gwneud penodiadau, ar ôl ymgynghori â'r cadeirydd. Telir cydnabyddiaeth iddynt ar ffurf honorariwm ynghyd â lwfans ychwanegol am gadeirio unrhyw un o bwyllgorau'r Awdurdod. Nid oes ganddynt yr hawl i gael tâl ar sail perfformiad na phensiwn. Telir iawndal am derfynu penodiad yn gynnar yn ôl disgresiwn yr Ysgrifennydd Gwladol. Dechreuodd penodiad cadeirydd anweithredol yr Awdurdod, David Gray ar 1 Hydref 2013 a bydd yn para am bum mlynedd.

Yn ogystal â honoraria, sydd wedi'u cynnwys mewn cyflogau, caiff cyfarwyddwyr anweithredol hawlio treuliau gwirioneddol, os rhoddir tystiolaeth ar ffurf derbynebau.

Cyhoeddir y treuliau a hawlir gan ein huwch gyflogeion a'n cyfarwyddwyr anweithredol ar ein gwefan **www.ofgem.gov.uk.**

## Cyflog

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n drethadwy yn y DU.

## Bonysau

Yn 2017-18 roedd 697 (2016-17: 679) o staff a gafodd fonws. Y taliad bonws cyfartalog oedd £1,238 (2016-17: £1,357) ac roedd y cyfanswm a dalwyd mewn bonysau yn cyfateb i £862,907 (2016-17: £921,403).

Pedwar unigolyn (2016-17: tri) a gafodd y taliad bonws mwyaf sef £12,500 (2016-17: £15,000).

Mae bonysau yn seiliedig ar lefelau perfformiad a chânt eu rhoi fel rhan o'r broses arfarnu. Mae'r bonysau a gofnodwyd yn 2017-18 yn ymwneud â pherfformiad yn 2016-17. Mae'r bonysau a gofnodwyd ar gyfer 2016-17 yn ymwneud â pherfformiad yn 2015-16.

## Lluosrifau cyflog

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol ganolrifol gweithlu'r sefydliad.

Cydnabyddiaeth ariannol wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf yn 2017-18 oedd £195,000-£200,000 (2016-17: £205,000-210,000). Roedd hyn 4.86 gwaith (2016-17: 5.22) yn fwy na chydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, sef £40,527 (2016-17: £40,000).

Yn 2017-18 ni chafodd unrhyw (2016-17: dim) gyflogwyr gydnabyddiaeth yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf. Roedd cydnabyddiaeth yn amrywio o £10,000 i £195,757 (2016-17: £8,840 i £208,819).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, cyflog yn gysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

Lleihaodd nifer gyfartalog y staff a gyflogwyd yn barhaol yn 2017-18. Mae'r cynnydd yn y lluosrif cyflog yn adlewyrchu'r ffaith bod y lleihad hwn i'w weld ymhlith staff ar y graddau isaf yn bennaf, gan arwain at gydnabyddiaeth ganolrifol uwch o gymharu â 2016-17.

## Buddion Pensiwn

| Buddion pensiwn | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig yn 60 oed £000 | Pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2018 a chyfandaliad cysylltiedig £000 | Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2018 £000 | Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2017 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod £000 | Cyfraniad cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth agosaf £100 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uwch aelodau gweithredol Ofgem** | | | | | | |
| **Dermot Nolan**<br>Prif Weithredwr | - | - | - | - | - | 36 |
| **Jonathan Brearley**<br>Uwch Bartner<br>(o fis Mai 2016) | 2.5-5 | 5-10 | 58 | 25 | 21 | - |
| **Sarah Cox**<br>Prif Swyddog Gweithredu<br>(o fis Mai 2016) | 2.5-5 | 30-35 | 470 | 402 | 37 | - |
| **Martin Crouch**<br>Uwch Bartner | 2.5-5 | 35-40 | 529 | 477 | 15 | - |
| **Rachel Fletcher**<br>Uwch Bartner | 0-2.5 | 30-35 | 516 | 469 | 27 | - |
| **Rob Salter-Church**<br>Uwch Bartner Dros Dro<br>o fis Ionawr 2018 | 2.5-5 | 25-30 | 286 | 252 | 13 | - |
| **Dr Andrew Wright**<br>Uwch Bartner | - | - | - | - | - | 29 |
| **Senior executive members of Ofgem E-Serve** | | | | | | |
| **Chris Poulton**<br>Rheolwr Gyfarwyddwr<br>Dros Dro | 22.5-25 | 20-25 | 193 | - | 9 | - |

## Pensiynau'r gwasanaeth sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu “alpha”, sy'n rhoi buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch).

O'r dyddiad hwnnw ymunodd bron bob gwas sifil newydd ei benodi a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes yn weision sifil ag “alpha”. Cyn y dyddiad hwnnw, bu gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y cynllun bedair adran: tair yn rhoi buddiannau ar sail cyflog terfynol (“classic”, “premium” neu “classic plus”) gydag oedran pensiwn arferol o 60 oed; ac un yn rhoi buddiannau ar sail gyrfa gyfan (“nuvos”) gydag oedran pensiwn arferol o 65 oed.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddiannau eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau "classic", "premium", "classic plus", "nuvos" ac "alpha" eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Arhosodd unigolion a oedd eisoes yn aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai sydd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis i ffwrdd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i "alpha" rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae buddiannau PCSPS pob aelod sy'n newid i "alpha" wedi'u 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael eu buddiannau yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael "alpha". (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu "alpha" yn briodol. Pan fydd gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac "alpha", y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun ei fuddiannau yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn seiliedig ar gyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy i aelodau o "classic" (ac aelodau o "alpha" a fu'n aelodau o "classic" yn union cyn ymuno ag "alpha") a rhwng 4.6% ac 8.05% i aelodau "premium", "classic plus", "nuvos" a phob aelod arall o "alpha". Mae buddiannau "classic" yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol adeg ymddeol. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60ain o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth ar gyfer "premium". Yn wahanol i'r cynllun "classic", ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae'r cynllun "classic plus" yn gynllun hybrid â buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun "classic" a buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y cynllun "premium". Bydd aelod o gynllun "nuvos" yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Mae buddiannau yn y cynllun "alpha" yn cronni mewn ffordd debyg i "nuvos", ac eithrio'r ffaith y ceir cyfradd gronni o 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (gohirio) i ddarparu cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% hyd at 30 Medi 2015 ac 8% a 14.75% o 1 Hydref 2015 (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes angen i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, telir cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% cant ychwanegol o gyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o gyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015 i dalu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Chwe deg oed yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau "classic", "premium" a "classic plus", 65 oed ar gyfer aelodau "nuvos", a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, i aelodau "alpha". (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu "alpha" yn briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac "alpha", y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun eu buddiannau yn y ddau gynllun ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw'r gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd o fuddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

## Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall). Mae'n defnyddio ffactorau cyffredin prisio'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Adroddiad Staff

## Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd

Roedd nifer y staff cyfwerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | | | 2017-18 £000 | 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff a gyflogir yn barhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Rheoleiddio | 366 | 35 | **401** | **434** |
| E-Serve | 241 | 32 | **273** | **357** |
| Swyddogaethau Corfforaethol | 117 | 25 | **142** | **180** |
| **Cyfanswm** | **724** | **92** | **816** | **971** |

Roedd 43 o bobl sy'n gyfwerth ag amser cyfan ar gyfartaledd ar radd SCS yn ystod y flwyddyn. O'r rhain roedd 24 ym mand cyflog 1, 15 ym mand cyflog 2, a 4 ym mand cyflog 3.

## Costau staff

| **Mae costau staff yn cynnwys** | | | 2017-18 £000 | 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff a gyflogir yn barhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Cyflogau | 38,767 | 5,453 | 44,220 | 46,424 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 4,389 | - | 4,389 | 4,544 |
| Costau pensiwn eraill | 7,723 | - | 7,723 | 7,995 |
| Costau staff eraill | 21 | - | 21 | 330 |
| Lefi Prentisiaethau (gwariant treth) | 172 | - | 173 | - |
| **Cyfanswm** | **51,071** | **5,453** | **56,524** | **59,293** |

## Adrodd ar gynlluniau'r gwasanaeth sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael

(Caiff y wybodaeth hon ei harchwilio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol)

| Band costau pecyn ymadael | 2017-2018 | | | 2016-2017 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau |
| <£10,001 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| £10,001 - £25,000 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| £25,001 - £50,000 | 0 | 2 | 2 | 1 | 0 | 1 |
| £50,001 - £100,000 | 0 | 7 | 7 | 1 | 0 | 1 |
| £100,001 - £150,000 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| £150,001 - £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | 0 | 16 | 16 | 2 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm y gost £000** | **0** | **808** | **808** | **116** | **0** | **116** |

Rydym wedi talu costau dileu swyddi a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaeth Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Rydym yn cyfrif am gostau ymadael yn llawn pan ddaw'r rhaglen ymddeol yn gynnar yn gyfrwymol ond gall y dyddiadau ymadael gwirioneddol fod yn y cyfnod adrodd canlynol. Lle rydym wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, ni sy'n talu'r costau ychwanegol ac nid Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

## Cynnwys cyflogeion

Eleni, roedd gan ein harolwg ymgysylltu â staff gyfradd ymateb o 88%, a mynegai ymgysylltu o 59%, sef 2% yn llai na 2017.

Mae ein staff hefyd yn parhau i nodi bod eu rolau yn ddiddorol (87%) a heriol (77%), a byddent yn argymell Ofgem fel lle gwych i weithio (50%).

## Cynllun Cydraddoldebau Sengl

Yn ein rôl ddeuol fel cyflogwr a rheoleiddiwr, rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith ein gweithlu, yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn y diwydiant rydym yn ei reoleiddio. I'r perwyl hwn, yn 2013 cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldebau Sengl. Mae hwn yn nodi ein hymagwedd tuag at ein staff, prosesau mewnol, datblygu polisi a gwneud penderfyniadau. Rydym yn adolygu'r cynllun yn ystod 2018.

## Cyfle cyfartal

Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith – mewn cyflogaeth, hyfforddiant a datblygu gyrfa. Ni ddylai neb wynebu gwahaniaethu oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhyw, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Nid ydym yn goddef gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu. Yn arolwg ymgysylltu â staff 2017 cawsom sgôr o 77% ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg.

Yn 2017, mae Ofgem wedi parhau i gefnogi ein rhwydweithiau amrywiaeth sy'n cwmpasu menywod, LGBT+, ethnigrwydd ac anabledd.

Yn 2017-18 parhawyd i ddarparu hyfforddiant ar amrywiaeth a rhagfarn anymwybodol i staff. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod staff yn deall ac yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ym mhopeth a wnânt. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:

- gwyddys bod gan 2.1% (2016-17:2.4%) o staff anabledd.
- roedd 45% (2016-17:47%) o staff yn fenywod.
- roedd 46% (2016-17:45%) o staff mewn swyddi rheoli yn fenywod.
- roedd 35% (2016-17:35%) o aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn Ofgem yn fenywod.
- gwyddys bod 18% (2016-17:18%) o staff o darddiad lleiafrif ethnig.
- gwyddys bod 71% (2016-17:62%) o staff o darddiad ethnig lleiafrif mewn swyddi rheoli.

Mae ein datganiad polisi am gyfle cyfartal ar gael i bob cyflogai.

## Buddsoddi mewn dysgu a datblygu

Rydym wir yn gwerthfawrogi ein pobl. Mae rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu sgiliau newydd a datblygu eu gyrfaoedd yn ein helpu i'w cadw a denu pobl newydd mewn sawl ffordd.

Yn 2017-18, ein prif feysydd ffocws oedd datblygu sgiliau arweinyddiaeth a rheoli llinell.

## Ymgysylltu â'r gymuned

Rydym yn mynd ati i gefnogi cyflogeion sy'n rhoi o'u hamser neu eu harian eu hunain i helpu elusennau, neu weithgareddau cymunedol neu wirfoddol eraill. Er enghraifft, efallai y byddem yn rhoi amser i ffwrdd i rywun sy'n gweithredu fel llywodraethwr ysgol, ynad heddwch, aelod o banel tribiwnlys cyflogaeth, neu rywun sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd.

Rydym hefyd wedi rhoi caniatâd i nifer o elusennau gynnal digwyddiadau yn ein swyddfeydd.

Rydym yn parhau i weithio gyda Career Ready ac mae aelodau o'n staff yn rhoi cymorth ac arweiniad un i un i bobl ifanc 16-19 oed drwy'r cynllun mentora.

Yn 2017, cynigiwyd tri lleoliad interniaeth haf am chwe wythnos yn Llundain a dau leoliad interniaeth haf am bedair wythnos yn Glasgow.

## Hyrwyddo iechyd a diogelwch yn y gwaith

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb cyfreithiol am iechyd, diogelwch a lles ein cyflogeion o ddifrif. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio gyda ni neu i ni, ac unrhyw un arall sy'n defnyddio ein safleoedd. Ein nod yw atal unrhyw ddamwain sy'n cynnwys anaf personol, salwch neu niwed.

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac unrhyw ddeddfwriaeth arall. Mae ein datganiad polisi am iechyd a diogelwch yn disgrifio ein cyfrifoldebau a'n nodau yn fanylach. Mae ar gael i bob cyflogai.

## Diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb

Yn 2017-18, collwyd 4.9 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai ar gyfartaledd (2016-17: 4.6 diwrnod). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd sector llywodraeth ganolog sef 7.9 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai, a'r cyfartaledd i'r sector cyfan, sef 5.5 diwrnod.

## Adolygiad o drefniadau treth penodeion yn y sector cyhoeddus

Ym mis Mai 2012 cyhoeddodd y llywodraeth adolygiad o drefniadau cyhoeddus o benodeion yn y sector cyhoeddus. Nododd yr adolygiad nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres gwerth mwy na £58,200 y flwyddyn ym mhob rhan o'r llywodraeth.

Ceir gwybodaeth am benodeion presennol oddi ar y gyflogres yn Atodiad IV ar dudalen 107.

**Dermot Nolan**
Swyddog Cyfrifyddu

**21 Mehefin 2018**

# Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad



# Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol (SoPS) a nodiadau ategol i ddangos alldro adnoddau yn erbyn yr amcangyfrif cyflenwi a gyflwynwyd gerbron Senedd y DU, ar gyfer pob terfyn rheoli cyllidebol. Mae'r wybodaeth yn y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol wedi cael ei harchwilio gan archwilwyr allanol.

## Crynodeb o'r alldro adnoddau a chyfalaf 2017-18

| | 2017-18 £000 | | | | | | | 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Alldro | | | | Alldro |
| | Cymer-adw-ywyd drwy bleidlais | Nis cy-merad-wywyd drwy bleidlais | Cyfan-swm | Cymer-adwywyd drwy bleidlais | Nis cymer-adwywyd drwy bleidlais | Cyfanswm | Alldro a gymeradw-ywyd drwy bleidlais o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbediad | Cyfanswm |
| **Terfynau Gwariant Adrannol** | | | | | | | | |
| -Adnodd | 702 | - | 702 | 596 | - | 596 | 106 | 630 |
| -Cyfalaf | 5,239 | - | 5,239 | 2,325 | - | 2,325 | 2,914 | 1498 |
| **Annually managed expenditure** | | | | | | | | |
| -Adnodd | | - | | | - | | | - |
| -Cyfalaf | | - | | | - | | | - |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | 5,941 | - | 5,941 | 2,921 | - | 2,921 | 3,020 | 2,128 |
| **Adnodd Annomestig** | | | | | | | | |
| -Adnodd | | - | | | - | | | - |
| **Cyfanswm** | **5,941** | **-** | **5,941** | **2,921** | **-** | **2,921** | **3,020** | **2,128** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Adnoddau | 702 | - | 702 | 596 | - | 596 | 106 | 630 |
| Cyfanswm Cyfalaf | 5,239 | - | 5,239 | 2,325 | - | 2,325 | 2,914 | 1498 |
| **Cyfanswm** | **5,941** | **-** | **5,941** | **2,921** | **-** | **2,921** | **3,020** | **2,128** |

| | 2017-18 £000 | 2017-18 £000 | | 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Alldro | Alldro o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbediad | Alldro |
| **Gofyniad arian parod net** | 10,660 | 569 | 10,091 | 7,729 |

| | 2017-18 £000 | 2017-18 £000 | | 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Alldro | Arbediad | Alldro |
| **Costau gweinyddol** | 702 | 596 | 106 | 630 |

Rhoddir esboniadau o'r amrywiannau rhwng yr amcangyfrif a'r alldro yn adroddiad y Cyfarwyddwyr

# Alldro net SoPS1

## SoPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net fesul adran

| | 2017-18 £000 | | | | | 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro | | | Amcangyfrif | | |
| | Gros | Incwm | Cyfan-swm net | Cyfan-swm net | Cyfanswm net o'i gymharu â'r Amcangyfrif | Cyfan-swm |
| **Gwariant mewn terfynau gwariant adrannol** | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 42,153 | (42,153) | - | - | - | - |
| B E-Serve Ofgem: gweinyddu | 47,884 | (47,288) | 596 | 702 | - | 630 |
| **Cyfanswm** | **90,377** | **(89,441)** | **596** | **702** | **-** | **630** |

## SoPS1.2 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net fesul adran

| | 2017-18 £000 | | | | | 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro | | | Amcangyfrif | | Outturn |
| | Gros | Incwm | Cyfan-swm net | Cyfanswm net | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif | Total |
| **Gwariant mewn terfynau gwariant adrannol** | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 2,325 | - | 2,325 | 5,239 | 2,914 | 1498 |
| B E-Serve Ofgem: gweinyddu | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **2,325** | **-** | **2,325** | **5,239** | **2,914** | **1498** |

# SoPS2 Cysoni alldro â'r gost weithredu net

| | Nodyn | 2017-18 £000 | 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm alldro adnoddau yn y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol | SoPS1.1 | 596 | 630 |
| **Costau gweithredu net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | | **596** | **630** |

## SoPS3 Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| | Nodyn | Amcangyfrif<br>£000 | Alldro<br>£000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/(dros ben)<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| **Alldro adnoddau** | SoPS1.1 | **702** | **596** | **106** |
| **Alldro cyfalaf** | SoPS1.2 | **5,239** | **2,325** | **2,914** |
| **Croniadau i addasiadau arian parod:** | | | | |
| ▪ Dibrisiant | 4 | (2,400) | (1,292) | (1,108) |
| ▪ Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau | 4 | - | (848) | 848 |
| ▪ Eitemau anariannol eraill | 4 | (53) | (180) | 127 |
| ▪ Symudiad mewn cyfalaf gwaith | 13 | 7,022 | (359) | 7,381 |
| ▪ Defnydd o ddarpariaeth | 14 | 150 | 327 | (177) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **10,660** | **569** | **10,091** |

## SoPS4 Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r gronfa gyfunol

Ni chasglwyd unrhyw incwm o'r gronfa gyfunol gennym yn 2017-18. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gennym wrth weithredu fel asiant y gronfa gyfunol yn hytrach na phenadur. Ceir manylion llawn yr incwm a gasglwyd fel asiant y gronfa gyfunol yn natganiad ymddiriedaeth yr adran, a gyhoeddwyd ar wahân i'r datganiadau ariannol hyn ond ochr yn ochr â hwy.

## Meysydd eraill o Atebolrwydd Seneddol

Nid oes gan Ofgem ddim i'w nodi mewn perthynas â'r canlynol:

- Colledion a thaliadau arbennig;
- Datgeliadau ffioedd a thaliadau;
- Rhwymedigaeth ddigwyddiadol annhebygol;
- Tueddiadau gwariant hirdymor.



**Dermot Nolan**
Swyddog cyfrifyddu

**21 Mehefin 2018**

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian Parod, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig, a'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel datganiad sydd wedi cael ei archwilio.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Adran ar 31 Mawrth 2018, ac o gost weithredu net yr Adran ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ac yn dangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hyn;
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio'n fanylach o dan gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwy'n annibynnol ar Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Rwyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol o ran cynnig sail ar gyfer fy marn.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw

gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), rwyf yn arddel barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn gwneud y canlynol:

- nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, llunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a chael tystiolaeth sy'n ddigonol ac yn briodol i gynnig sail ar gyfer fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll yn uwch na pheidio â chanfod camddatganiad perthnasol o ganlyniad i wall, gan y gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, achosion o gam-gynrychioli, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- sicrhau dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan.
- gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau perthnasol a wnaed gan y rheolwyr.
- dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd y rheolwyr o sail gyfrifyddu'r busnes gweithredol ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, dod i gasgliad ynghylch p'un a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan i barhau fel busnes gweithredol. Os byddaf yn dod i gasgliad bod ansicrwydd perthnasol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os bydd datgeliadau yn annigonol, addasu fy marn, yn adroddiad yr archwilydd. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilydd. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol olygu y bydd yn rhaid i'r endid roi'r gorau i barhau fel busnes gweithredol.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol ar y cyfan, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion sylfaenol a'r digwyddiadau mewn ffordd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Rwy'n cyfathrebu'r â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn perthynas ag, ymhlith materion eraill, y cwmpas a'r amseru a gynlluniwyd ar gyfer yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol ym maes rheolaeth fewnol rwyf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais ac nad aed uwchlaw'r cyfansymiau hynny. Mae'r cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais yn Derfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), (Adnodd) Nad yw'n Gyllidebol a Gofyniad Arian Parod Net. Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth Arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff a datgeliadau Atebolrwydd Seneddol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd hwnnw a luniwyd gennyf. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno. Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd gennyf yn yr archwiliad neu sy'n ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol fel arall. Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, os rwyf yn dod i gasgliad bod y wybodaeth arall wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny. Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Adroddiad ar Atebolrwydd;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion rwyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol rwyf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw datganiadau ariannol na'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff na'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Sir Amyas C E Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road Victoria,
Llundain SW1W 9SP

**27 Mehefin 2018**

# Cyfrifon Adnoddau



# Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail croniadau. Mae hefyd yn nodi incwm a gwariant cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill na ellir eu cydnabod fel incwm neu wariant eto.

| | | | | 2017-18 £000 | 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **Costau staff** | **Costau eraill** | **Incwm** | |
| **Costau gweinyddol** | | | | | |
| Costau staff | 3 | 56,524 | | | 59,293 |
| Costau gweinyddol eraill | 4 | | 33,513 | | 27,319 |
| Incwm Gweithredu | 5 | | | (89,441) | (85,982) |
| **Cyfansymiau** | | | | **596** | **630** |
| **Cost gweithredu net** | 2 | | | **596** | **630** |
| Cyfanswm y Gwariant | | | | 90,037 | 86,612 |
| Cyfanswm yr Incwm | | | | (89,441) | (85,982) |
| **Cost gweithredu net** | | | | **596** | **630** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | | | |
| Ennill/(colled) actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn | 13 | | | 47 | (56) |
| **Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr** | | | | **643** | **574** |

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2018

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno ein sefyllfa ariannol. Mae iddo dair prif ran: asedau a berchenogir neu a reolir, rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill, ac ecwiti, gwerth gweddilliol yr endid.

| | | | 2017-18 | | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | | £000 | | £000 |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | 6 | 3,360 | | 2,524 | |
| ***Cyfanswm yr asedau anghyfredol*** | | | **3,360** | | **2,524** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau Masnach Derbyniadwy a Symiau Derbyniadwy Eraill | 11 | 18,368 | | 15,590 | |
| Arian Parod a'r hyn sy'n Cyfateb Iddo | 10 | 6,561 | | 21,305 | |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | | **24,929** | | **36,895** |
| ***Cyfanswm yr Asedau*** | | | **28,289** | | **39,419** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 12 | (20,540) | | (32,200) | |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol*** | | | **(20,540)** | | **(32,200)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **7,749** | | **7,219** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | | | |
| Darpariaethau | 13 | (1,871) | | (1,419) | |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol*** | | | **(1,871)** | | **(1,419)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | **5,880** | | **5,800** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 5,880 | | 5,800 | |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | | **5,880** | | **5,800** |



**Dermot Nolan**
Swyddog Cyfrifyddu

**21 Mehefin 2018**

# Datganiad o lifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

Mae'r Datganiad o Lifau Arian Parod yn dangos ein newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut rydym yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo drwy ddosbarthu llifau arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth a'r graddau y caiff y gweithrediadau hyn eu hariannu drwy incwm gan dderbynyddion gwasanaethau a ddarparwyd gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli i ba raddau y mae llifau arian parod i mewn ac allan wedi cael eu gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan yr adran yn y dyfodol. Mae llifau arian parod sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn cynnwys y cyflenwad seneddol a llifau arian parod eraill, gan gynnwys benthyca.

| | Nodyn | 2017-18 £000 | 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu:** | | | |
| Cost gweithredu net | SoPS1.1 | (596) | (630) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | 4 | 2,321 | 1,981 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 11 | (2,778) | (4,694) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy | 12 | (11,607) | (16,429) |
| *llai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SoCNE* | 12 | 14,744 | 4,050 |
| Defnydd o ddarpariaethau | 13 | (327) | (111) |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **1,756** | **(15,833)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd | 6 | (2,325) | (1,498) |
| Elw o waredu eiddo, offer a chyfarpar | 6 | - | - |
| **Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(2,325)** | **(1,498)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido:** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | | | 13,281 |
| Blaendaliadau o'r Gronfa wrth Gefn | | 20,000 | 20,000 |
| Taliadau i'r Gronfa wrth Gefn | | (20,000) | (20,000) |
| **Llif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **-** | **13,281** |
| **Lleihad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **(569)** | **(4,050)** |
| Taliadau symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | | (14,175) | - |
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **(14,744)** | **(4,050)** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod | 10 | 21,305 | 25,355 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod** | 10 | **6,561** | **21,305** |

# Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

| | | General fund |
|---|---|---|
| | Note | £000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | | **(10,901)** |
| Taliadau nad ydynt yn rhai arian parod – cydnabyddiaeth i'r archwilydd | 4 | 56 |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | (630) |
| Colledion sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn | 13 | (56) |
| Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd | | 13,281 |
| Cyllid Seneddol Net – tybiedig | | 15,755 |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | | (21,305) |
| Derbyniadau arian parod o 2016-17 nad ydynt yn ddyledus i'r gronfa gyfunol | | 9,600 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | | **5,800** |
| Taliadau nad ydynt yn rhai arian parod – cydnabyddiaeth i archwilwyr | 4 | 60 |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | (596) |
| Enillion sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn | 13 | 47 |
| Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd | | - |
| Cyllid Seneddol Net – tybiedig | | 7,130 |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | | (6,561) |
| Derbyniadau arian parod o 2017-18 nad ydynt yn ddyledus i'r gronfa gyfunol | | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | | **5,880** |

# Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Llawlyfr Adrodd Ariannol a gyhoeddwyd gan y Trysorlys. Mae'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer y sector cyhoeddus. Pan fo'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, rydym wedi dewis y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i'n hamgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi un prif ddatganiad ychwanegol. Mae'r SoPS a'r nodiadau cysylltiedig yn dangos alldro yn erbyn amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net, ac maent wedi'u cynnwys yn yr adran ar yr Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad sy'n dechrau ar dudalen 58.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol.

### 1.2 Eiddo, offer, cyfarpar a dibrisiant

Ni chaiff eiddo, offer a chyfarpar eu hailbrisio'n flynyddol drwy ddefnyddio mynegeion mwyach. Yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, defnyddir cost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi am werth cyfredol gan fod hyn yn adlewyrchu'r defnydd o'r ased yn realistig. Ni fyddai ailbrisiadau yn achosi gwahaniaeth perthnasol.

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu eiddo, offer a chyfarpar mewn rhandaliadau hafal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, ar ôl ystyried gwerth gweddilliol. Mae oes asedau o fewn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau lesddaliadol | Oes y brydles |
| Cyfarpar, dodrefn a ffitiadau swyddfa | Pum mlynedd |
| Cyfarpar TG | Tair blynedd |

Yr isafswm lefel ar gyfer cyfalafu eiddo, offer a chyfarpar yw £2,000. Mae grwpio asedau sydd islaw'r trothwy wedi'i gyfyngu i gyfarpar TG a dodrefn yn unig.

### 1.3 Darpariaethau

Ie mae gan Ofgem rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i dalu rhai costau, bydd yn darparu ar gyfer hynny ar sail amcangyfrif y rheolwyr o'r gwerth, tebygolrwydd ac amseru taliadau yn y dyfodol.

Pan fo gwerth amser arian yn berthnasol, rydym yn disgowntio'r ddarpariaeth i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio o 0.1%, sef cyfradd safonol y llywodraeth. Bob blwyddyn mae'r taliadau ariannol yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn cynnwys yr addasiadau i amorteiddio disgownt blwyddyn ac ailddatgan rhwymedigaethau i lefelau prisiau presennol.

Yn y cyfrifon eleni, dim ond darpariaeth ymddeol yn gynnar a welodd ddisgownt gan nad yw effaith disgowntio'r dadfeiliadau na darpariaethau ymadael gwirfoddol yn berthnasol. 0.1% yw'r gyfradd ddisgowntio ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth.

## 1.4. Incwm gweithredu

Incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'n gweithgareddau gweithredu yw incwm gweithredu. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd am drwyddedau a ffioedd a thaliadau a godir am wasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn.

Gan fod holl gostau trwyddedau yn cael eu hadennill drwy'r ffioedd am drwyddedau a chaiff y rhain eu hanfonebu mewn dwy gyfran yn ystod y flwyddyn ar seiliedig ar gostau amcangyfrifedig, caiff unrhyw gostau sy'n cael eu goradennill eu trin fel incwm gohiriedig yn y symiau taladwy ac unrhyw gostau sy'n cael eu tanadennill fel incwm cronedig yn y symiau derbyniadwy.

## 1.5. Cyfnewid tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar ddyddiad pob trafodyn.

## 1.6. Pensiynau

Cwmpesir cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS). Disgrifir y rhain yn Nodyn 3. Mae'r ddau gynllun yn anghyfrannol a heb eu hariannu. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a gwmpesir gan y ddau gynllun yn cyflawni cost pensiynau a ddarperir ar gyfer y staff a gyflogir ganddynt drwy dalu taliadau a gyfrifir ar sail croniadau. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn arwystl ar y cynlluniau. Ceir datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS a'r CSOPS yn eu cyfanrwydd.

Mae gan ein cyn-brif weithredwr a chyfarwyddwr cyffredinol drefniadau pensiwn ar wahân sy'n ddigon tebyg i'r PCSPS. Mae'r trefniadau yn darparu ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig heb ei ariannu. Fodd bynnag, yn wahanol i'r PCSPS, mae rhwymedigaeth pensiwn wedi'i chynnwys yn y cyfrifon fel sy'n ofynnol o dan IAS37.

## 1.7. Costau gadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i ni dalu cost buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol y PCSPS i gyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Rydym yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar wedi'i chyhoeddi ac mae'n gyfrwymol arnom.

## 1.8 Treth ar werth

Yn ein cyfrifon, dangosir symiau yn glir o dreth ar werth (TAW), ac eithrio'r canlynol:

- codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr ac mae wedi'i chynnwys o dan y pennawd sy'n berthnasol i'r math o wariant
- mae TAW na ellir ei adennill ar brynu ased wedi'i chynnwys yng nghost prynu wedi'i chyfalafu yr ased.

Mae'r swm sy'n ddyledus gan Gyllid a Thollau EM ar gyfer TAW wedi'i gynnwys yn y symiau derbyniadwy yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

## 1.9 Prydlesau gweithredu

Caiff rhenti sy'n ddyledus o dan brydlesau gweithredu eu codi ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr dros dymor y brydles ar sail llinell syth, neu ar sail rhenti gwirioneddol sy'n daladwy sy'n adlewyrchu'r defnydd yn deg.

## 1.10. Busnes gweithredol

Dengys y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2018 ecwiti trethdalwyr negyddol sy'n cyfateb i £5.880 miliwn. Yn debyg i adrannau eraill y llywodraeth, caiff ein rhwymedigaethau eu hariannu yn y dyfodol drwy grantiau cyflenwi yn y dyfodol a defnyddio incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan Senedd y DU. Mae'r symiau sydd eu hangen ar gyfer 2017-18 eisoes wedi'u cymeradwyo ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff symiau yn y dyfodol eu cymeradwyo. Felly rydym wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

## 1.11. Rhwymedigaethau amodol

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn unol ag IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Amodol), at ddibenion adroddiadau ac atebolrwydd seneddol rydym yn cyflwyno adroddiad ar rwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol penodol. Rydym yn gwneud hyn lle cred y rheolwyr ei bod yn annhebygol iawn y caiff budd economaidd ei drosglwyddo, ond lle mae adroddiad ar y rhwymedigaethau wedi cael ei gyflwyno i Senedd y DU yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

Lle mae gwerth amser arian yn berthnasol, datgenir rhwymedigaethau digwyddiadol y mae'n rhaid i ni eu datgelu o dan IAS 37 mewn symiau wedi eu disgowntio a gwneir nodyn ar wahân o'r swm y cyflwyniad adroddiad arno i Senedd y DU. Datgenir rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir o dan Rheoli Arian Cyhoeddus yn y symiau y cyflwynir adroddiad arnynt i Senedd y DU.

## 1.12. Asedau sy'n eiddo i drydydd partïon

Ni chaiff asedau sy'n eiddo i drydydd partïon fel y'u datgelir yn Nodyn 16 (megis arian a ddelir mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a chynlluniau Tariff Cyflenwi Trydan) eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol gan nad oes gennym unrhyw fudd ynddynt.

## 1.13. Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a gyhoeddwyd ond nad ydynt mewn grym eto

Bydd newidiadau i IFRS 9 (Offerynnau Ariannol) ac IFRS 15 (Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid) mewn grym ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2018. Nid ydym yn disgwyl i'r rhain gael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofgem. Cyhoeddwyd IFRS 16 (prydlesau) ym mis Ionawr 2016 ac mae'n gymwys i gyfnodau adroddiadau blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2019.

## 2. Datganiad o gostau gweithredu yn ôl cylchran weithredu

| 2017-18 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gweithgareddau Rheoleiddio £000 | Ofgem E-Serve £000 | Gwasanaethau Corfforaethol £000 | Cyfanswm £000 |
| Gwariant gros | 42,153 | 24,398 | 23,486 | 90,037 |
| Incwm | (42,153) | (23,802) | (23,486) | (89,441) |
| **Gwariant net** | **-** | **596** | **-** | **596** |

| 2016-17 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gweithgareddau Rheoleiddio £000 | Ofgem E-Serve £000 | Gwasanaethau Corfforaethol £000 | Cyfanswm £000 |
| Gwariant gros | 42,217 | 20,534 | 23,861 | 86,612 |
| Incwm | (42,217) | (19,904) | (23,861) | (85,982) |
| **Gwariant net** | **-** | **630** | **-** | **630** |

Mae adroddiadau cylchrannol yn cael eu cyflwyno ar sail gweithgarwch, yn unol ag adroddiadau misol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y sefydliad.

## 3. Costau staff

| **Mae costau staff yn cynnwys** | | | **2017-18 £000** | **2016-17 £000** |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff a gyflogir yn barhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Cyflogau | 38,767 | 5,453 | 44,220 | 46,424 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 4,389 | - | 4,389 | 4,544 |
| Costau pensiwn eraill | 7,723 | - | 7,723 | 7,995 |
| Costau staff eraill | 21 | - | 21 | 330 |
| Lefi Prentisiaethau (gwariant treth) | 172 | - | 173 | - |
| **Cyfanswm** | **51,071** | **5,453** | **56,524** | **59,293** |

Cynlluniau buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr heb eu hariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn “alpha”, ond ni all Ofgem nodi ei gyfran o’r asedau a’r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiodd actiwari’r cynllun y cynllun ar 31 Mawrth 2012. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2017-18 roedd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £7,409,372 yn daladwy i'r PCSPS a'r CSOPS (2016/17: £7,040,371) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 20.0% i 24.5% (2016-17: 20.0% i 24.5%) o enillion pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari’r Cynllun yn adolygu cyfraniadau’r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o’r cynllun. Pennir y cyfraddau cyfrannu i dalu cost y buddiannau sy'n cronni yn ystod 2017-18 a delir pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddiannau a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £312,823 (2016/17: £279,807) i dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75% (2016-17: o 8% i 14.75%). Bydd cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogai hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd y cyflogwr yn cyfrannu £12,395 (2016-17: £11,087), 0.8% o gyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o gyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015, i'r PCSPS a'r CSOPS i dalu cost darparu buddiannau yn y dyfodol ar ffurf cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y cyfnod adrodd. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw.

Nid ymddeolodd neb (2017-18: neb) yn gynnar oherwydd salwch.

Gellir gweld nifer y staff yn yr adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff ar dudalen 48-56.

Cyfrifir am y lefi prentisiaethau am gost. Nid yw'r gost hyfforddi na'r cyllid wedi cael eu cydnabod yn y cyfrifon oherwydd gall y prentis symud i weithio i gyflogwr arall ac felly ni fydd Ofgem yn cael unrhyw fudd o'r hyfforddiant prentisiaeth.

## 4. Costau gweinyddol eraill

| | Nodyn | 2017-18 £000 | 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|
| **Rhenti o dan brydlesau gweithredu:** | | **4,147** | **3,807** |
| Prydlesau gweithredu | | 4,147 | 3,807 |
| **Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod (gweler isod):** | | **1,472** | **1,508** |
| Cydnabyddiaeth a threuliau'r Archwilwyr* | | 60 | 56 |
| Dibrisiant | 6 | 1,292 | 1,452 |
| Colled oherwydd lleihad mewn gwerth asedau sefydlog | | 182 | - |
| Addasu tâl gwyliau | | (62) | - |
| **Gwariant arall:** | | **27,046** | **21,531** |
| Contractwyr | | 12,366 | 9,448 |
| Costau llety | | 3,380 | 3,866 |
| Recriwtio a hyfforddiant | | 1,327 | 1,739 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 1,021 | 855 |
| Cyflenwadau a chyfarpar swyddfa | | 6,302 | 3,234 |
| Gwasanaethau Proffesiynol | | 1,512 | 886 |
| Costau sy'n ymwneud â staff | | 260 | 429 |
| Gwariant arall | | 876 | 1,074 |
| **Darpariaethau (nad ydynt yn rhai arian parod):** | | **848** | **473** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 13 | 825 | 446 |
| Cost llog | 13 | 23 | 27 |
| **Cyfanswm** | | **33,513** | **27,319** |

* Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.

## 5. Incwm gweithredu

| | 2017-18 £000 | | | 2016-17 £000 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Incwm | Costau llawn | Diffyg | Incwm | Costau Llawn | Diffyg |
| Ffioedd trwydded | 61,190 | 61,190 | - | 59,572 | 59,572 | - |
| Arall | 28,251 | 28,847 | (596) | 26,410 | 27,040 | (630) |
| **Cyfanswm** | **89,441** | **90,037** | **(596)** | **85,982** | **86,612** | **(630)** |

| **Mae incwm arall yn cynnwys:** | 2017-18 £000 | 2016-17 £000 |
|---|---|---|
| Tâl Tendr Trawsyrru ar y Môr a Ailgodir | 2,206 | 1,842 |
| Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (yn ymwneud â rhaglenni amgylcheddol a throsglwyddo staff) | 18,788 | 19,038 |
| Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig | 3,503 | 2,590 |
| Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (yn ymwneud â chostau swyddfeydd wedi'u rhannu a throsglwyddo staff) | 2,053 | 878 |
| Adrannau eraill | 1,458 | 1,344 |
| Amrywiol* | 243 | 218 |
| | **28,251** | **26,410** |

* Mae incwm amrywiol yn cynnwys ffioedd ar gyfer ceisiadau am drwydded, a mân eitemau eraill.

## 6. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Dodrefn | Cyfarpar swyddfa | TG | Lesddaliadol | Ased sy'n cael ei adeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 335 | 2,489 | 6,770 | 5,749 | 62 | 15,405 |
| Ychwanegiadau | - | 5 | 633 | 1,687 | - | 2,325 |
| Lleihad mewn gwerthoedd | (29) | (495) | (868) | - | - | (1,392) |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | 62 | (62) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **306** | **1,999** | **6,535** | **7,498** | **-** | **16,339** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 166 | 2,296 | 5,103 | 5,316 | - | 12,881 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 30 | 110 | 898 | 255 | - | 1,292 |
| Lleihad mewn gwerthoedd | (12) | (430) | (752) | - | - | (1,194) |
| **At 31 March 2018** | **184** | **1,976** | **5,249** | **5,571** | **-** | **12,979** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2018** | **122** | **23** | **1,287** | **1,928** | **-** | **3,360** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2017 | 169 | 193 | 1,667 | 433 | 62 | 2,524 |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | |
| Swm cario asedau a berchenogir ar 31 Mawrth 2018 | **122** | **23** | **1,287** | **1,928** | **-** | **3,360** |

| | Dodrefn | Cyfarpar swyddfa | TG | Lesddaliadol | Ased sy'n cael ei adeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 167 | 2,344 | 5,579 | 5,817 | - | 13,907 |
| Ychwanegiadau | 168 | - | 1,191 | 77 | 62 | 1,498 |
| Ailddosbarthiadau | - | 145 | - | (145) | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **335** | **2,489** | **6,770** | **5,749** | **62** | **15,405** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 154 | 2,161 | 4,288 | 4,826 | - | 11,429 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 12 | 135 | 815 | 490 | - | 1,452 |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **166** | **2,296** | **5,103** | **5,316** | **-** | **12,881** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2017** | **169** | **193** | **1,667** | **433** | **62** | **2,524** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2016 | 13 | 183 | 1,291 | 991 | | 2,478 |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | |
| Swm cario asedau a berchenogir ar 31 Mawrth 2017 | **169** | **193** | **1,667** | **433** | **62** | **2,524** |

## 7. Ymrwymiadau o dan brydlesau

**Prydlesau gweithredu**

Nodir cyfanswm yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesau gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

| | Ar 31 Mawrth 2018 | Ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| **Mae rhwymedigaethau o dan brydlesau gweithredu yn cynnwys:** | | |
| Adeiladau: | | |
| O fewn blwyddyn | 2,733 | 6,300 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 8,409 | 1,932 |
| Ar ôl pum mlynedd | 25,904 | - |
| | **37,046** | **8,232** |

Symudodd pencadlys Ofgem o Millbank i Canary Wharf ym mis Ebrill 2018. Mae'r taliadau prydlesau gofynnol yng ngholofn '2017-18' yn ymwneud yn bennaf â rhwymedigaethau prydlesau o dan y cytundeb rhent newydd ar gyfer 10 South Colonnade yn Canary Wharf. Mae'r swyddfeydd newydd dan gontract tan fis Mehefin 2032.

### 7.1 Ymrwymiadau ariannol eraill

Ar 31 Mawrth 2018, nid oeddem wedi ymrwymo i unrhyw gontractau perthnasol na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesau gweithredu).

## 8. 8. Incwm yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesau gweithredu na ellir eu canslo

| | Ar 31 Mawrth 2018 | Ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Adeiladau: | | |
| O fewn blwyddyn | 165 | 1,583 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | - | 364 |
| **Cyfanswm** | **165** | **1,947** |

Mae'r wybodaeth uchod am brydlesau yn ymwneud ag is-osod lloriau yn ein pencadlys yn Llundain i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig o dan gytundeb Memorandwm o Delerau Meddiannu (MOTO).

## 9. Offerynnau ariannol

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu bodloni drwy'r broses amcangyfrifon, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig wrth greu a rheoli risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig yr adran. Felly, nid ydym yn cael ein hamlygu i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

## 10. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 21,305 | 25,355 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | (14,744) | (4,050) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **6,561** | **21,305** |
| Daliwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 6,561 | 21,305 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **6,561** | **21,305** |

Yn ogystal â'r balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i hynny a ddatgelir uchod, mae Ofgem yn dal asedau trydydd parti arian parod a llythyrau credyd sy'n ymwneud â sicred datblygwyr tendrau ar y môr, y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, a chronfa lefelu Tariffau Cyflenwi Trydan. Disgrifir y rhain yn nodyn 16.

## 11. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | £000 | £000 |
| Ffioedd a gronnwyd | 7,506 | 3,605 |
| Cymhelliant Prydles a Gronnwyd | 4,859 | 3,514 |
| Dyledwyr masnach | 3,653 | 3,246 |
| Rhagdaliadau | 1,607 | 4,454 |
| Cyllid a Thollau EM (TAW) | 624 | 540 |
| Dyledwyr masnach | 119 | 231 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **18,368** | **15,590** |

Ym mis Chwefror 2015 llofnododd Ofgem gytundeb i ildio ei hawliau o dan Ddeddf Landlord a Thenant 1954, mewn perthynas â'i bencadlys yn Millbank. Er mwyn cydnabod bod Ofgem wedi ildio ei hawliau, cytunodd Berkeley Homes, y mae'r landlord wedi ymrwymo i gontract ag ef i ailddatblygu Millbank, i dalu £5.25 miliwn i Ofgem.

Mae'r swm o £5.25 miliwn yn cynnwys adnau o £0.25 miliwn a oedd yn daladwy ar adeg llofnodi (mis Chwefror 2015). Cyfarwyddodd Ofgem y dylid talu'r swm i'r asiantau a negododd y cytundeb. Ni chafodd Ofgem unrhyw daliad. Bydd Ofgem yn derbyn y £5.0 miliwn sy'n weddill pan fydd yn gadael Millbank, ac mae wedi cael ei drin fel cymhelliant prydles dros y cyfnod disgwyliedig nes iddo adael Millbank.

Mae symiau derbyniadwy staff yn cynnwys benthyciadau sy'n weddill, y mae £111k o'r swm hwnnw yn ymwneud â benthyciadau tocyn tymor i gyflogeion, ac y mae £8k yn ymwneud â'r cynllun seiclo i'r gwaith.

## 12. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **£000** | **£000** |
| Symiau a roddwyd o'r gronfa gyfunol i'w cyflenwi ond nas gwariwyd erbyn diwedd y flwyddyn | 6,561 | 21,305 |
| Ffioedd trwydded gohiriedig | 6,573 | 3,529 |
| Croniadau | 4,662 | 3,904 |
| Symiau staff taladwy (tâl gwyliau a gronnwyd) | 1,538 | 1,599 |
| Credydwr Trethiant a Nawdd Cymdeithasol | 1,139 | 1,180 |
| Symiau masnach taladwy | 13 | 43 |
| Premiwm gwrthdro lesddaliad | - | 75 |
| Cymhelliant Lesddaliadol | 54 | 565 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **20,540** | **32,200** |

Mae'r symiau staff taladwy yn cynrychioli'r tâl gwyliau a gronnwyd tuag at wyliau i'w rhoi i'r staff yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19.

# 13. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

## 13.1 Ymddeol yn Gynnar

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Darpariaeth ar 1 Ebrill** | **202** | **239** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | 56 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | (21) | - |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (16) | (93) |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth** | **164** | **202** |

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| **Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod wedi'u disgowntio** | £000 | £000 |
| O fewn blwyddyn | 16 | 18 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 64 | 90 |
| Ar ôl pum mlynedd | 85 | 94 |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth** | **164** | **202** |

Yr adran sy'n talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS i gyflogeion, a oedd yn gweithio yn swyddfa Ofgem yng Nghaerlŷr, drwy dalu'r symiau gofynnol yn fisol i'r PCSPS.

## 13.2 Rhwymedigaethau pensiwn

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Darpariaeth ar 1 Ebrill** | **827** | **762** |
| Cost llog | 23 | 27 |
| Taliadau buddiannau gwirioneddol | - | (18) |
| (Ennill)/colled actiwaraidd | (47) | 56 |
| Cost gwasanaeth a roddwyd | - | - |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth** | **803** | **827** |
| Symudiad net yn ystod y flwyddyn (heb gynnwys ennill/colled actiwaraidd | 23 | 9 |

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| **Hanes colledion profiad** | **£000** | **£000** |
| Ennill profiad sy'n deillio o rwymedigaethau'r cynllun | (5) | (2) |
| Y swm a gydnabuwyd fel canran gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | -0.01% | 2.20% |
| Cyfanswm a gydnabuwyd mewn datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr | (47) | 56 |

Mae'r ddarpariaeth bensiwn ar gyfer y rhwymedigaethau pensiwn heb eu talu sy'n dod i'n rhan ar gyfer cyn-brif weithredwr a chyfarwyddwr cyffredinol. Nid yw'r ddarpariaeth bensiwn wedi'i hariannu, gyda'r buddiannau'n cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a'u gwarantu gan Ofgem. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Rydym wedi ceisio cyngor actiwaraidd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth a bennwyd ar lefel realistig.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2018. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

| | Ar 31 Mawrth 2018 | Ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | % (y flwyddyn) | % (y flwyddyn) |
| Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant - CPI | 2.45 | 2.55 |
| Cyfradd y cynnydd ar gyfer pensiynau mewn taliadau ac incwm gohiriedig | 2.45 | 2.55 |

| | 2017-18 | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| **Dadansoddi colled actiwaraidd** | **£000** | **£000** | **£000** |
| (Ennill)/colli profiad sy'n deillio o rwymedigaethau'r cynllun | (5) | (2) | (8) |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | (42) | 58 | (18) |
| Yn unol â'r datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr | (47) | 56 | (26) |

O 31 Mawrth 2018, newidiodd y gyfradd ddisgowntio ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn o 1.37% i 0.24%. Adlewyrchir y gyfradd hon ym mhrisiad rhwymedigaeth y cynllun pensiwn ar 31 Mawrth 2018.

## 13.3 Cynllun Ymadael Gwirfoddol

| | 2017-18 |
|---|---:|
| | **£000** |
| **Darpariaeth ar 1 Ebrill** | **340** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 164 |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth** | **504** |

Yn 2017-18, ni ddefnyddiwyd y ddarpariaeth hon a chafodd ei hadfer fel darpariaeth ddiangen.

| | 2017-18 |
|---|---:|
| **Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod allan** | **£000** |
| O fewn blwyddyn | 504 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | - |
| Ar ôl pum mlynedd | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **504** |

Cytunwyd ar nifer o daliadau ymadael gwirfoddol â Swyddfa'r Cabinet ac unigolion. Mae'r rhain yn deillio o ad-drefnu mewnol o fewn yr is-adran Gwasanaethau Corfforaethol.

## 13.4 Darpariaethau Dadfeiliadau

| | 2017-18 |
|---|---:|
| | **£000** |
| **Darpariaeth ar 1 Ebrill** | **50** |
| Darpariaeth a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | 400 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | (50) |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth** | **400** |

| | 2017-18 |
|---|---:|
| **Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod allan** | **£000** |
| O fewn blwyddyn | 113 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 287 |
| Ar ôl pum mlynedd | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **400** |

## 14. Rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir o dan IAS 37

O bryd i'w gilydd byddwn yn destun her gyfreithiol ac adolygiad barnwrol o benderfyniadau a wneir yn ystod ein busnes arferol fel rheoleiddiwr y marchnadoedd nwy a thrydan. Gallai dyfarniadau cyfreithiol arwain at atebolrwydd i dalu costau cyfreithiol ond ni ellir mesur y rhain gan y byddai canlyniad yr achos yn anhysbys. Felly, mae cryn ansicrwydd ynglŷn â natur a graddau unrhyw rwymedigaeth ganlyniadol.

Ar 31 Mawrth 2018 nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol yr oedd angen eu datgelu.

## 15. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd £7.516 miliwn i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Roedd £6.659 miliwn o hwn ar gyfer costau cysylltiedig â'r sector ynni Llais y Defnyddiwr (yn gweithredu fel Dyfodol Defnyddwyr) a Cyngor ar Bopeth. Trosglwyddwyd y £0.857 miliwn oedd yn weddill ar gyfer gwasanaethau metroleg.

Rydym yn gweinyddu rhaglenni amgylcheddol ar ran BEIS, ac yn secondio staff i'r adran honno. Roedd yr incwm gan BEIS a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn yn gwneud cyfanswm o £23.696 miliwn.

Gwnaethom is-osod rhan o'n safle yn Millbank i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Rydym yn gweinyddu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi, ac yn gweinyddu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau. Yr incwm a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn oedd £1.699 miliwn gan DEFRA, £0.582 miliwn gan Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau, a £0.430 miliwn gan Adran yr Economi.

Yn ogystal, rydym wedi ymgymryd â nifer fach o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog.

Nid oes dim un o aelodau'r Awdurdod, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol ag Ofgem yn ystod y flwyddyn a nodir ar dudalen 48.

## 16. Asedau trydydd partïon

**Sicred Datblygwyr Tendrau ar y Môr**

Ynghyd â'r llywodraeth, rydym wedi sefydlu cyfundrefn reoleiddio trawsyrru ar y môr gystadleuol i benodi perchennog Trawsyrru ar y Môr drwy broses dendro gystadleuol.

Ni sy'n gyfrifol am reoli'r broses dendro gystadleuol y rhoddir trwyddedau trawsyrru ar y môr drwyddi.

Mae rhoi trwyddedau i weithredu asedau trawsyrru ar y môr newydd drwy broses dendro gystadleuol yn golygu y caiff cynhyrchwyr ynni eu partneru â'r chwaraewyr mwyaf effeithlon a chystadleuol yn y farchnad. Dylai hyn arwain at gostau is a safonau gwasanaeth uwch i gynhyrchwyr ynni ac, yn y pen draw, y defnyddwyr.

Rhan o strategaeth rheoli risg Ofgem ar gyfer y broses dendro gystadleuol yw dal sicred at ddibenion adennill costau os na chwblheir proses dendro. Mae'r sicred hwn ar ffurf llythyr credyd neu arian parod. Ar 31 Mawrth 2018 roedd Ofgem yn dal £7.30m mewn llythyrau credyd (2016-17 £9.950m) ac £1.550m mewn arian parod (2016-17 £1.550m).

### Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy

Nod y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yr Alban a Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon yw rhoi cymhelliant i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y farchnad cynhyrchu trydan. Cyflwynwyd y cynlluniau hyn gan yr Adran Masnach a Diwydiant (yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol bellach), Gweinyddiaeth yr Alban a'r Adran Menter, Masnach a Buddsoddi yn y drefn honno a chânt eu gweinyddu gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan y cyflawnir ei swyddogaethau o ddydd i ddydd gan Ofgem. Darperir ar gyfer y cynlluniau mewn is-ddeddfwriaeth ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr trydan trwyddedig gael cyfran benodol o'r trydan a gyflenwir ganddynt o ffynonellau adnewyddadwy neu wneud taliad i gronfa prynu cyfran, neu gyfuniad o'r ddau. Mae Tystysgrif Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn dystiolaeth bod cyflenwr wedi cael ei drydan o ffynonellau adnewyddadwy.

Mae pob taliad prynu cyfran yn mynd i mewn i'n cronfa prynu cyfran ar gyfer cyfnod cydymffurfio penodol. Yna caiff y taliadau hyn (gan gynnwys taliadau hwyr) eu hailddosbarthu i gyflenwyr erbyn canol mis Tachwedd ar ôl diwedd y cyfnod cydymffurfio (sy'n rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth bob blwyddyn) i'r rhai sydd wedi cyflwyno Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. Fel arfer mae'r balans yn y gronfa prynu cyfran yn werth bach iawn ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Y swm a ddaliwyd yn y gronfa prynu cyfran ar 31 Mawrth 2018 oedd £162,987.30 (31 Mawrth 2017: £30).

### Cronfa lefelu Tariffau Cyflenwi Trydan

Mae'r cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan (FIT) yn rhaglen a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ar 1 Ebrill 2010 i annog pobl i ddefnyddio technolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r cynllun ar ran yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, sy'n gyfrifol am bolisi a deddfwriaeth y cynllun FIT ac mae Cyflenwyr Trydan Trwyddedig (Trwyddedeion FIT) yn gweithredu'r agwedd ar y cynllun sy'n wynebu'r cyhoedd. Os bydd gan ddeiliad tŷ, cymuned neu fusnes osodiad cymwys, telir tariff iddynt am y trydan a gynhyrchir ganddynt a thariff am y trydan a allforir ganddynt yn ôl i'r grid gan eu Trwyddedai FIT.

Mae'r broses lefelu a weithredir gan Ofgem yn ailddosbarthu cost y cynllun ymhlith yr holl Gyflenwyr Trydan Trwyddedig, yn seiliedig ar eu cyfran o Farchnad Drydan Prydain Fawr ac unrhyw Daliadau FIT a wnaed ganddynt i osodiadau achrededig. Proses chwarterol yw hon, gyda phroses gysoni flynyddol a gwblheir erbyn mis Medi bob blwyddyn. Fel arfer, mae'r balans yn y gronfa lefelu yn werth bach ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Y swm a ddaliwyd yn y gronfa lefelu ar 31 Mawrth 2018 oedd £141,504.06 (31 Mawrth 2017: £109,337).

## 17. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cafodd y broses o gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ei hawdurdodi'n briodol gan y Swyddog Cyfrifyddu ar ddyddiad tystysgrif archwilio'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

# Datganiad Ymddiriedaeth



# Rhagair y swyddog cyfrifyddu i'r datganiad ymddiriedaeth

## Cwmpas

Rheolir Ofgem gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan. Nodir cyfrifoldebau'r Awdurdod yn Neddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989, Deddf Cyfleustodau 2000, Deddf Cystadleuaeth 1998, Deddf Menter 2002, Deddfau Ynni 2004, 2008, 2010, 2011 a 2013 a deddfwriaeth gysylltiedig.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gymryd camau gorfodi (gan gynnwys rhoi cosbau ariannol) mewn perthynas â'r cwmnïau ynni y mae'n eu rheoleiddio, a chasglu ardollau tanwydd ffosil Cymru a Lloegr, a'r Alban.

Mae'r datganiad ymddiriedaeth yn adrodd ar y refeniw a'r gwariant a'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â dirwyon, cosbau a'r ardollau tanwydd ffosil ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18. Casglwn y symiau hyn er mwyn eu talu i'r gronfa gyfunol .

Paratoir y datganiad hwn hefyd i ddatgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol nas cymhwyswyd at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Ni fu unrhyw wariant nac incwm o'r fath yn ystod 2017-18.

## Cefndir

### Cosbau

O dan Ddeddf Nwy 1986 a Deddf Trydan 1989 gall yr Awdurdod osod cosb statudol os yw'n fodlon bod parti a reoleiddir (e.e. deiliaid trwydded) wedi mynd yn groes neu yn mynd yn groes i unrhyw amod neu ofyniad perthnasol, neu wedi methu neu yn methu â chyflawni unrhyw safon ragnodedig o berfformiad.

Ni all unrhyw gosb a osodir gan yr Awdurdod fod yn fwy na 10% o drosiant y parti a reoleiddir. Caiff unrhyw symiau a osodir gan yr Awdurdod drwy gyfrwng cosb statudol eu talu i mewn i'r gronfa gyfunol. Yn 2017-18, cafwyd cyfanswm o £2 mewn cosbau nominal. Defnyddir cosbau nominal lle y deuir i benderfyniad ynghylch achosion a thelir taliadau unioni.

Mae'r Awdurdod yn hysbysu'r parti a reoleiddir ei fod yn cynnig gosod cosb ac mae'n ymgynghori ar hyn yn gyhoeddus.

[9] Ni sy'n casglu'r dirwyon, cosbau ac ardollau tanwydd ffosil ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban.

## Adolygiad ariannol

Eleni gwnaethom osod cosbau ar gwmnïau a'i gwneud yn ofynnol iddynt wneud iawn i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt neu fel arall gefnogi buddiannau defnyddwyr ynni. Mae'r adolygiad ariannol hwn yn ymdrin â chosbau a arweiniodd at ddosbarthu arian i'r gronfa gyfunol.

### Nwy Prydain

Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddwyd hysbysiad gennym yn cadarnhau ein penderfyniad i osod cosb statudol o £1, a thaliadau unioni o £9.5 miliwn (llai £1), ar British Gas Trading Limited (Nwy Prydain) yn dilyn ymchwiliad gan Ofgem i gydymffurfiaeth Nwy Prydain ag Amodau Trwydded Safonol 7A, 7B, 14A a 21B o'r drwydded cyflenwi nwy a thrydan a Rheoliadau 3 a 7 o Reoliadau Nwy a Thrydan (Safonau Trin Cwynion Defnyddwyr) 2008.

Mae ein hamodau trwydded Safonau Ymddygiad (SLC 7B) yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob defnyddiwr microfusnes yn cael ei drin yn deg. Gwelwyd bod safon gwasanaeth cwsmeriaid Nwy Prydain wedi dirywio ar ôl i system filio newydd gael ei rhoi ar waith. Roedd hyn yn cynnwys methu â rhoi biliau bob chwarter i gwsmeriaid a methu â rhoi gwybodaeth am ddyddiad gorffen contract tymor sefydlog y cwsmeriaid ar eu biliau. Gwelwyd hefyd nad oedd cwynion cwsmeriaid bob amser yn cael eu hagor a'u cau'n briodol ac nad oedd Nwy Prydain yn gweithredu'n brydlon i unioni pethau.

Cytunodd Nwy Prydain i dalu £9,499,999 mewn taliadau i ficrofusnesau a chwsmeriaid annomestig eraill yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt, ac i elusen Money Advice Trust. Bydd y taliadau unioni i Business Debtline Money Advice Trust yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau cyngor ar ddyledion i gwsmeriaid busnes bach sy'n cael trafferth i dalu eu biliau ynni.

### E (Gas and Electricity)

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddwyd hysbysiad gennym yn cadarnhau ein penderfyniad i osod cosb statudol o £1, a thaliadau unioni o £260,000 miliwn (llai £1), ar E (Gas and Electricity) Limited (E) yn dilyn ymchwiliad gan Ofgem i gydymffurfiaeth E ag Amod Trwydded Safonol 25.2 (amcan gwerthu a marchnata) a 13.1 (trefniadau ar gyfer mynediad i'r safle). Gwelwyd bod E wedi methu â chymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad oedd gwybodaeth a ddarperir gan E neu ei gynrychiolwyr yn camarwain cwsmeriaid a'i bod yn deg o ran cynnwys a'r ffordd roedd yn cael ei chyflwyno. Hefyd, methodd E â sicrhau ei bod yn hawdd gweld mai cynrychiolwyr y trwyddedai oedd ei gynrychiolwyr a oedd yn ymweld â safleoedd cwsmeriaid a'u bod yn bobl addas a phriodol i ymweld â safleoedd cwsmeriaid a mynd i mewn iddynt.

Ym mis Ionawr 2018, cytunodd E i dalu £259,999 mewn taliadau unioni gwirfoddol. Gwnaed y taliadau unioni i Gronfa Unioni Gwirfoddol Ofgem (a weinyddir gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni) a chaiff yr arian ei ddefnyddio er budd cwsmeriaid ynni.

[10] Gall cwmnïau wirfoddoli i dalu swm o arian i'r Gronfa Unioni Gwirfoddol yn lle cosb ariannol, neu'n ychwanegol ati, am dorri amodau'r drwydded. Gall cwmnïau hefyd wirfoddoli i wneud y taliadau hyn i wneud iawn am unrhyw niwed i ddefnyddwyr, yn ogystal ag iawndal i'r rhai yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt, lle nad yw Ofgem wedi cynnal ymchwiliad ffurfiol. Mae manylion y gronfa i'w gweld yn https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2017/08/authority_guidance_on_the_allocation_of_redress_funds.pdf

# Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu mewn perthynas â'r datganiad ymddiriedaeth

O dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) i baratoi datganiad ymddiriedaeth ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon.

Mae'r Trysorlys wedi penodi'r prif weithredwr fel swyddog cyfrifyddu Ofgem, gyda chyfrifoldeb cyffredinol am baratoi'r datganiad ymddiriedaeth ac am ei drosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Mae cyfrifoldebau swyddog cyfrifyddu, yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae swyddog cyfrifyddu yn gyfrifol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu ein hasedau, wedi'u nodi ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Paratoir y datganiad ymddiriedaeth ar sail croniadau a rhaid iddo roi darlun gwir a theg o'r sefyllfa o ran dirwyon a chosbau a osodir gan Ofgem, a'r Ardoll Tanwydd Ffosil ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban a gesglir gennym ni, ynghyd â'r symiau net a ildiwyd i'r gronfa gyfunol.

Wrth baratoi'r datganiad ymddiriedaeth, mae'n ofynnol i'r swyddog cyfrifyddu fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a baratowyd gan y Trysorlys a gwneud y canlynol yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrth y cyfrifon
- paratoi'r datganiad ymddiriedaeth ar sail busnes gweithredol a chadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohoni, a bod y cyfrifon yn deg, yn mantoli ac yn ddealladwy (yn ôl y pwyntiau bwled yn y datgeliad yn y Cyfrifon Adnoddau).

## Datganiad llywodraethu

Mae datganiad llywodraethu Ofgem, sy'n cwmpasu cyfrifon yr adnoddau a'r datganiad ymddiriedaeth, ar dudalennau 41 to 47.

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifau Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan ar 31 Mawrth 2018, ac o'r refeniw net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob achos perthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio'n fanylach o dan gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwy'n annibynnol ar Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Rwyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol o ran cynnig sail ar gyfer fy marn.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â'r datganiad ymddiriedaeth, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), rwyf yn arddel barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn gwneud y canlynol:

- nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, llunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a chael tystiolaeth sy'n ddigonol ac yn briodol i gynnig sail ar gyfer fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll yn uwch na pheidio â chanfod camddatganiad perthnasol o ganlyniad i wall, gan y gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, achosion o gam-gynrychioli, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- sicrhau dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan.
- gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau perthnasol a wnaed gan y rheolwyr.
- dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd y rheolwyr o sail gyfrifyddu'r busnes gweithredol ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, dod i gasgliad ynghylch p'un a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan i barhau fel busnes gweithredol. Os byddaf yn dod i gasgliad bod ansicrwydd perthnasol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os bydd datgeliadau yn annigonol, addasu fy marn, yn adroddiad yr archwilydd. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilydd. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol olygu y bydd yn rhaid i'r endid roi'r gorau i barhau fel busnes gweithredol.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol ar y cyfan, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynrychioli'r trafodion sylfaenol a'r digwyddiadau mewn ffordd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Rwy'n cyfathrebu'r â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn perthynas ag, ymhlith materion eraill, y cwmpas a'r amseru a gynlluniwyd ar gyfer yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol ym maes rheolaeth fewnol rwyf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth Arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a rhagair y Swyddog Cyfrifyddu i'r Datganiad Ymddiriedaeth, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd arnynt a luniwyd gennyf. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno. Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd gennyf yn yr archwiliad neu sy'n ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol fel arall. Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, os rwyf yn dod i gasgliad bod y wybodaeth arall wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny. Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol a rhagair y Swyddog Cyfrifyddu i'r Datganiad Ymddiriedaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion rwyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol rwyf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Sir Amyas C E Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road Victoria,
Llundain SW1W 9SP

**27 Mehefin 2018**

# Datganiad o refeniw, ac incwm a gwariant arall am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

| | | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | **£000** | **£000** |
| **Refeniw** | | | |
| **Dirwyon a chosbau** | | | |
| Cosbau a osodwyd | 2.1 | - | - |
| **Ardoll Tanwydd Ffosil** | | | |
| Ardoll Tanwydd Ffosil (Cymru a Lloegr) | | 2,583 | 6,721 |
| Ardoll Tanwydd Ffosil (Yr Alban) | | 850 | 3,622 |
| **Incwm arall** | | | |
| Llog ar gosbau | | - | - |
| Llog ar Ardoll Tanwydd Ffosil (Cymru a Lloegr) | | 75 | 60 |
| Llog ar Ardoll Tanwydd Ffosil (Yr Alban) | | 100 | 66 |
| **Cyfanswm y refeniw ac incwm arall** | | **3,608** | **10,469** |
| **Gwariant** | | | |
| Gweinyddu'r Ardoll Tanwydd Ffosil | | (38) | (57) |
| **Cyfanswm y gwariant** | | **(38)** | **(57)** |
| **Refeniw net ar gyfer y gronfa gyfunol** | | **3,570** | **10,412** |

Ni fu unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig y cyfrifwyd amdanynt y tu allan i'r datganiad uchod o refeniw ac incwm a gwariant arall.

## Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2018

| | | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy a refeniw cronedig derbyniadwy | 3 | 440 | 1,020 |
| Arian parod yn y banc - cronfa gyfunol y DU | | 32,500 | 29,915 |
| Arian parod yn y banc - cronfa gyfunol yr Alban | | 42,610 | 41,045 |
| Asedau cyfredol net | | 75,550 | 71,980 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy a rhwymedigaethau gwariant cronedig | 4 | (2) | (2) |
| **Cyfanswm asedau net** | | **75,548** | **71,978** |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Balans ar gyfrif cronfa gyfunol y DU | | 32,895 | 30,268 |
| Balans ar gyfrif cronfa gyfunol yr Alban | | 42,653 | 41,710 |
| | 5 | **75,548** | **71,978** |

**Dermot Nolan**
Swyddog Cyfrifyddu

**21 Mehefin 2018**

## Datganiad o lifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 4,149 | 13,159 |
| Arian parod a dalwyd i'r cronfeydd cyfunol | - | (8,600) |
| **Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod** | **4,149** | **4,559** |

## Nodiadau i'r datganiad llif arian parod

### A: Cysoni llif arian parod net â symudiad mewn cronfeydd net

| | | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| Refeniw net ar gyfer y gronfa gyfunol | | 3,570 | 10,412 |
| Gostyngiad mewn asedau nad ydynt yn arian parod | 3 | 579 | 2,754 |
| Gostyngiad mewn rhwymedigaethau | 4 | - | (7) |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | | 4,149 | 13,159 |

### B: Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod | 4,149 | 4,559 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2017 | 70,961 | 66,402 |
| Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2018 | 75,110 | 70,961 |

# Nodyn i'r datganiadau ymddiriedaeth

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail cyfrifyddu

Paratoir y datganiad ymddiriedaeth yn unol â'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys o dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 ac yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir isod. Cytunwyd ar y rhain rhwng Ofgem a'r Trysorlys ac fe'u datblygwyd drwy gyfeirio at y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a chanllawiau perthnasol eraill. Mae'r polisïau cyfrifyddu wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yr incwm a'r gwariant cysylltiedig a geir yn y datganiadau hyn yw'r llifau hynny o gronfeydd y mae Ofgem yn ymdrin â hwy ar ran y gronfa gyfunol a lle y mae'n gweithredu fel asiant yn hytrach na phenadur.

Caiff y wybodaeth ariannol a geir yn y datganiadau ac yn y nodiadau ei thalgrynnu i'r £1,000 agosaf.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y datganiad ymddiriedaeth yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

### 1.3 Cydnabod refeniw

Mesurir dirwyon, cosbau ac ardollau yn unol ag IAS 18. Fe'u mesurir ar werth teg y symiau a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy. Cydnabyddir incwm pan fydd y canlynol yn berthnasol:

- gosodir dirwy neu gosb yn ddilys a bydd rhwymedigaeth i dalu yn codi
- daw taliad ardoll yn ddyledus

# 2. Refeniw

## 2.1 Dirwyon a chosbau

Yn ystod 2017-18 a 2016-17 dim ond cosbau nominal a gafwyd gan Ofgem.

# 3. Symiau derbyniadwy a refeniw cronedig derbyniadwy

| | Refeniw cronedig derbyniadwy ar 31 Mawrth 2018 | Cyfanswm ar 31 Mawrth 2018 | Cyfanswm ar 31 Mawrth 20177 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Dirwyon a Chosbau | - | - | - |
| Ardoll Tanwydd Ffosil | 440 | 440 | 1,020 |
| **Cyfanswm** | **440** | **440** | **1,020** |

Symiau derbyniadwy yw'r symiau sy'n deillio o'r rhai y gosodwyd cosbau ariannol arnynt neu lle yr aseswyd ardoll ar ddyddiad y fantolen, ond lle y ceir derbyniad wedi hynny.

Nid yw'r cosbau nominal derbyniadwy yn dangos oherwydd talgrynnu.

# 4. Symiau taladwy a rhwymedigaethau gwariant cronedig

| | Symiau taladwy ar 31 Mawrth 2018 | Cyfanswm ar 31 Mawrth 2018 | Cyfanswm ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Ardoll Tanwydd Ffosil | 2 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **2** | **2** | **2** |

Symiau taladwy yw'r symiau y cadarnhawyd eu bod yn ddyledus ar ddyddiad y fantolen, ond lle y gwneir taliad wedi hynny.

## 5. Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol | 71,978 | 70,166 |
| Refeniw net ar gyfer cyfrifon y gronfa gyfunol | 3,570 | 10,412 |
| Llai symiau a dalwyd i'r gronfa gyfunol | - | (8,600) |
| **Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol ar 31 Mawrth** | **75,548** | **71,978** |

# Atodiadau



# Atodiad I
# Perfformiad yn erbyn nodau i'w cyflawni 2017-18

Roedd ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2017-18 yn cynnwys nodau i'w cyflawni ym mhob chwarter.

Mae'r tabl isod a'r manylion ar y tudalennau canlynol yn dangos y nodau a gyflawnwyd gennym.

| Nodau i'w cyflawni yn y Flaenraglen Waith ar gyfer 2017–18: Statws Diwedd y Flwyddyn | Statws cyflawni | Chwarter a Fwriadwyd | Chwarter Gwirioneddol | Bodlonwyd yn ystod y chwarter? | Bodlonwyd mewn chwarter diweddarach? | Gohiriwyd tan 2018/9 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diwygio'r egwyddorion cyffredinol mewn trwyddedau cyflenwi nwy a thrydan, gan gynnwys egwyddor newydd ynghylch bod yn agored i niwed – Ch2 | √ | Ch2 | Ch2 | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi adroddiad ar Rwymedigaethau Cymdeithasol – Ch2 | √ | Ch2 | Ch3 | Naddo | Do | dd/g |
| Cyhoeddi penderfyniad ar gynigion canolraddol am ddiwygiadau i'r Cod Hyder ac, os yw'n briodol, gwneud diwygiadau i'r Cod a amlinellwyd yn ein hymgynghoriad – Ch1 | √ | Ch1 | Ch2 | Naddo | Do | dd/g |
| Amlinellu ein camau nesaf arfaethedig ar gyfer ein hadolygiad o'r Cod Hyder | √ | Ch3 | Ch3 | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi glasbrint y ddogfen penderfyniad (Llinell Sylfaen Dylunio 3) ar y Rhaglen Newid Cyflenwr – Ch3 | √ | Ch3 | Ch4 | Naddo | Do | dd/g |
| Cwblhau'r Cam Manyleb Lefel Fanwl a chyhoeddi Llinell Sylfaen Dylunio 4 ar y Rhaglen Newid Cyflenwr – Ch4 | Wedi symud i 2018-19 | Q4 | n/a | N | n/a | Y |
| Cyhoeddi cynllun ar gyfer galluogi system ynni ddeallus a hyblyg ar y cyd â BEIS – Ch1 | √ | Ch1 | Ch2 | Naddo | Do | dd/g |
| Cyhoeddi dull gweithredu strategol lefel uchel arfaethedig mewn perthynas â diwygio'r farchnad a diwygio rheoleiddio mewn ymateb i'r broses o drawsnewid systemau ynni – Ch2 | √ | Ch2 | Ch2 | Do | dd/g | dd/g |

| Nodau i'w cyflawni yn y Flaenraglen Waith ar gyfer 2017–18: Statws Diwedd y Flwyddyn | Statws cyflawni | Chwarter a Fwriadwyd | Chwarter Gwirioneddol | Bodlonwyd yn ystod y chwarter? | Bodlonwyd mewn chwarter diweddarach? | Gohiriwyd tan 2018/9 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| Cyhoeddi'r penderfyniad terfynol ynghylch addasiadau i god presennol y diwydiant sy'n gysylltiedig ag agweddau ar fuddiannau ymgorfforedig – Ch1 | √ | Ch1 | Ch1 | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi ein dull gweithredu mewn perthynas â'r Adolygiad Taliadau wedi'i Dargedu arfaethedig – Ch2 | √ | Ch2 | Ch3 | Naddo | Do | dd/g |
| Addasu trwydded cludwyr National Grid Gas er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Rhwydwaith ar gyfer Tariffau – Ch3 | √ | Ch3 | Ch4 | Naddo | Do | dd/g |
| Rhoi cyfundrefn perfformiad gweithredol y Cwmni Data a Chysylltiadau ar waith – Ch1 | √ | Ch1 | Ch2 | Naddo | Do | dd/g |
| Cyhoeddi penderfyniad rheoli prisiau'r Cwmni Data a Chysylltiadau ar gyfer 2016-17 – Ch4 | √ | Ch4 | Ch4 | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi cynllun gorfodol diwygiedig ar gyfer setlo bob hanner awr – Ch1 | √ | Ch1 | Ch2 | Naddo | Do | dd/g |
| Lansio'r Adolygiad Cod Sylweddol – Ch1 | √ | Ch1 | Ch2 | Naddo | Do | dd/g |
| Llythyr diweddaru ar linellau amser ar gyfer rhoi rhwymedïau llywodraethu codau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd – Ch1 | √ | Ch1 | Ch2 | Naddo | Do | dd/g |
| Adolygu'r Cyswllt Arloesi yn seiliedig ar ein profiad o ddarparu'r gwasanaethau – Ch2 | √ | Ch2 | Ch2 | Do | dd/g | dd/g |
| Ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau baratoi cyfrifon yn unol â'r safon adrodd ariannol rheoliadol ar gyfer 2017-18 – Ch4 | √ | Ch4 | Ch4 | Do | dd/g | dd/g |
| Gwneud penderfyniad cychwynnol ynghylch yr angen am brosiect trawsyrru Cysylltiadau Arfordir y Gogledd-orllewin yn ogystal â phenderfynu p'un a ddylid gosod y prosiect hwnnw ar dendr – Ch2 | x[11] | Ch2 | dd/g | dd/g | dd/g | dd/g |
| Gwneud penderfyniad terfynol ynghylch yr angen am brosiect trawsyrru Hinkley-Seabank yn ogystal â phenderfynu p'un a ddylid gosod y prosiect ar dendr – Ch3 | √ | Ch3 | Ch4 | Naddo | Do | dd/g |

[11] Cancelled - external principal withdrew proposal.

| Nodau i'w cyflawni yn y Flaenraglen Waith ar gyfer 2017–18: Statws Diwedd y Flwyddyn | Statws cyflawni | Chwarter a Fwriadwyd | Chwarter Gwirioneddol | Bodlonwyd yn ystod y chwarter? | Bodlonwyd mewn chwarter diweddarach? | Gohiriwyd tan 2018/9 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| Dewis Cynigydd a Ffefrir ar gyfer prosiect Burbo Bank yng Nghylch Tendro 4 ar gyfer perchenogion gweithrediadau trawsyrru ar y môr – Ch1 | √ | Ch1 | Ch2 | Naddo | Do | dd/g |
| Dewis Cynigwyr a Ffefrir ar gyfer prosiectau Dudgeon, Rampion a Race Bank yng Nghylch Tendro 5 ar gyfer perchenogion gweithrediadau trawsyrru ar y môr – Ch4 | Wedi'i fodloni'n rhannol, wedi'i ohirio'n rhannol i 2018-19 | Ch4 | Wedi'i gyflawni'n rhannol | Wedi'i gyflawni'n rhannol | dd/g | Do |
| Cyhoeddi'r Adroddiad ar Gyflwr y Farchnad – Ch3 | √ | Ch3 | Ch3 | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi ein Trosolwg Gorfodi ar ein perfformiad o ran arfer ein pwerau gorfodi | √ | Ch1 | Ch1 | Do | dd/g | dd/g |
| Cyflwyno adroddiad ar y Targed Effaith ar y Busnes – Ch1 | √ | Ch1 | Ch1 | Do | dd/g | dd/g |
| Cynnal Cynhadledd Gorfodi Flynyddol er mwyn rhannu ein profiad a'r hyn rydym wedi'i ddysgu wrth arfer ein pwerau - Ch2 | √ | Ch2 | Ch2 | Do | dd/g | dd/g |
| Caffael trydydd parti, sy'n arbenigo mewn elusennau i ddefnyddwyr, i ddyrannu arian o daliadau unioni gwirfoddol yn effeithiol – Ch2 | √ | Ch2 | Ch2 | Do | dd/g | dd/g |
| Penderfyniad ynghylch adolygiad o Werth Ased Rheoleiddio Fleetwood i National Grid Gas Transmission – Ch2 | √ | Ch2 | Ch2 | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi penderfyniad ynghylch addasiadau i refeniw trwyddedeion – Ch2 | √ | Ch2 | Ch2 | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig | √ | Ch2 | Ch2 | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig | √ | Ch2 | Ch2 | Do | dd/g | dd/g |

| Nodau i'w cyflawni yn y Flaenraglen Waith ar gyfer 2017–18: Statws Diwedd y Flwyddyn | Statws cyflawni | Chwarter a Fwriadwyd | Chwarter Gwirioneddol | Bodlonwyd yn ystod y chwarter? | Bodlonwyd mewn chwarter diweddarach? | Gohiriwyd tan 2018/9 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| Cwblhau proses lefelu flynyddol y Tariff Cyflenwi Trydan | √ | Ch2 | Ch2 | Do | dd/g | dd/g |
| Cwblhau'r penderfyniad terfynol ynghylch Rhwymedigaeth Arbed Carbon yn y Gymuned ECO2 | √ | Ch2 | Ch2 | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi canllawiau gorfodi a'n dull o agor ymchwiliadau – Ch3 | √ | Ch3 | Ch3 | Do | dd/g | dd/g |
| Gwneud penderfyniad ynghylch pa brosiectau i'w hariannu mewn perthynas â'r Gystadleuaeth Arloesi Rhwydwaith – Ch3 | √ | Ch3 | Ch3 | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y Cynllun Tariff Cyflenwi Trydan | √ | Ch4 | Ch3 | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynllun Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy | √ | Ch4 | Ch4 | Do | dd/g | dd/g |
| Cwblhau adroddiad blynyddol ar gynllun y Gostyngiad Cartrefi Cynnes | √ | Ch4 | Ch4 | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi adroddiadau ar gynnydd o ran cydymffurfiaeth yn erbyn y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni | √ | dd/g | dd/g | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi siartiau gwe perfformiad E-Serve | √ | dd/g | dd/g | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi adroddiad chwarterol ar y Cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig | √ | POB UN | POB UN | Do | dd/g | dd/g |
| Cyhoeddi adroddiad chwarterol ar y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig | √ | POB UN | POB UN | Do | dd/g | dd/g |

# Atodiad II
# Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2017-18

| Cystadleuaeth Effeithiol | | | |
|---|---|---|---|
| **Metrig (DPAau)** | **Manylion am yr hynsy'n cael ei fesur** | **Targed blynyddol 2017-18** | **Gwirioneddol** |
| Ceisiadau am Randdirymiad o reolau'r Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu | Gwneud penderfyniadau ar geisiadau am randdirymiad o reolau'r Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu o fewn 60 diwrnod gwaith i dderbyn cais (oni fydd angen ymgynghoriad ffurfiol) | 90% | 100% |
| Proses Trawsyrru ar y Môr | Rhoi trwydded o fewn 70 diwrnod i ddechrau ymgynghoriad Adran 8a | 70 diwrnod gwaith | 34 diwrnod gwaith |
| Proses Trawsyrru ar y Môr | Dewis Cynigydd a Ffefrir o fewn 120 diwrnod i gyflwyno ITT (ac eithrio Cynnig Gorau a Therfynol) | 120 diwrnod gwaith | 79 diwrnod gwaith |
| Ceisiadau am Drwydded | Gwneud penderfyniadau ar geisiadau am drwydded o fewn 45 diwrnod | 100% | 100% |
| Addasiadau i'r Cod | Gwneud penderfyniadau ar addasiadau i'r cod o fewn 25 diwrnod gwaith i dderbyn yr Adroddiad Addasu Terfynol (neu, lle y bo'n gymwys, ymatebion terfynol i Asesiad Terfynol o'r Effaith neu ymgynghoriad arall gan Ofgem) | 90% | 67%[12] |
| Addasiadau i'r Cod | Lle y bo'n gymwys, cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar addasiadau i'r cod (neu ymgynghoriad arall gan Ofgem) o fewn 3 mis i dderbyn yr Adroddiad Addasu Terfynol | 90% | 67%[13] |
| Cysylltiadau Cwsmeriaid | Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i gysylltiadau cwsmeriaid | 93% - 10 diwrnod gwaith | 82%[14] |
| Chwythwyr Chwiban | Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i gysylltiadau chwythwr chwiban | 100% i gael ymgysylltiad cychwynnol o fewn 1 diwrnod gwaith | 100% |

[12] Mae'r ffigur yn un treigl drwy gydol y flwyddyn – gan ostwng i 67% erbyn diwedd y flwyddyn oherwydd nifer o benderfyniadau cymhleth y mae angen amser ychwanegol i'w gwneud a blaenoriaethau croes o fewn Ofgem

[13] Fel yr uchod

[14] Mae'r DPA blynyddol a gyflawnwyd yn is na'r targed, a hynny'n bennaf oherwydd adnoddau cyfyngedig. Dros y chwe mis diwethaf, mae prosesau wedi cael eu hatgyweirio ac mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu rhoi ar waith gan arwain at gynnydd yn ddiweddar yn y DPA misol. Disgwylir y bydd hyn yn parhau i wella drwy gydol y flwyddyn nesaf, wrth i brosesau gael eu gwreiddio ac wrth i'r tîm fagu profiad.

| DPAau E-Serve 2017-18 | | | |
|---|---|---|---|
| **Metrig** | **Beth sy'n cael ei fesur** | **Targed Blynyddol 2017-18** | **Gwirioneddol 2017-18** |
| Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig | Ymateb i ymholiadau ynglŷn â cheisiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 90% | 92.90% |
| Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 90% | 98.90% |
| Prosesu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy | Ymateb i ymholiadau ynglŷn â cheisiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 90% | 82.80%[15] |
| Prosesu Tariff Cyflenwi Trydan | Ymateb i ymholiadau ynglŷn â cheisiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 90% | 98.80% |
| Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni (ECO) | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 90% | 100% |
| Prosesu Gostyngiad Cartrefi Cynnes | Ymateb i gynlluniau Gostyngiad Cartrefi Cynnes a gyflwynwyd gan y parti gorfodol am gymeradwyaeth, o fewn 28 diwrnod | 100% | 100% |
| Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% neu uwch | 99.42% |
| Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% neu uwch | 99.11% |
| Prosesu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% neu uwch | 99.60% |
| Prosesu Tariff Cyflenwi Trydan | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% neu uwch | 99.70% |
| Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni (ECO) | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% neu uwch | 99.30% |
| Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig | Gwneud taliadau o fewn 5 diwrnod gwaith | 95% | 98.10% |
| Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig | Gwneud taliadau o fewn 30 diwrnod gwaith | 95% | 90.60%[16] |
| Prosesu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy | Cyhoeddi'r brif gyfres o Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar ôl dyddiad cau adrodd y cynhyrchwyr ynni ar eu hallbwn data, o fewn 17 diwrnod gwaith (Ebr-Meh) a 12 diwrnod gwaith (Gor-Maw) | 95% | 98.10% |
| Prosesu Tariff Cyflenwi Trydan | Cwblhau'r broses lefelu o fewn 22 diwrnod gwaith | 95% | 100% |
| Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni (ECO) | Prosesu'r mesurau a gyflwynwyd mewn un mis calendr erbyn diwedd y mis canlynol | 95% | 100% |
| Perfformiad E-Serve | Cyhoeddi siartiau gwe perfformiad E-Serve wedi'u diweddaru bob mis | 100% | 100% |

[15] Ar ddechrau'r flwyddyn, cafwyd llawer iawn o negeseuon e-bost, a hynny'n bennaf am fod y cynllun yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017. O ganlyniad i hyn, gwnaethom fethu â chyrraedd ein targed DPA 'Ymateb i randdeiliaid', sef ymateb i 90% o ymholiadau ynglŷn â cheisiadau o fewn 10 diwrnod gwaith am dri mis. Roedd y rhan fwyaf o'r ohebiaeth gan ddarpar gyfranogwyr a oedd yn cyflwyno tystiolaeth atodol i ni mewn perthynas â cheisiadau am achrediad a wnaed yn ystod y mis blaenorol. Dechreuodd nifer y negeseuon e-bost leihau ym mis Mehefin, ac mae wedi aros ar ychydig dros 1000 y mis. Rydym wedi cyrraedd y targed DPA bob mis ers mis Mehefin 2017.

[16] Yn ystod Ch1-Ch2, gwnaethom gyrraedd ein targed DPA ar gyfer y flwyddyn hyd yma; ond effeithiodd cynnydd yn nifer yr hen achosion a gafodd eu hachredu i'r cynllun ar y DPA Taliadau cyffredinol yn ystod ail hanner 17/18.

# Atodiad III
# Ymchwiliadau a chamau gorfodi 2017-18

Mae manylion ein hachosion ar gael ar ein gwefan[17] yn unol â'n polisi fel y'i nodir yn ein Canllawiau Gorfodi[18]. Byddwn fel arfer yn cyhoeddi manylion byr y ffeithiau a natur yr ymchwiliadau ar ein gwefan[19], er bod polisi yn wahanol ar gyfer achosion sy'n gysylltiedig â'r Rheoliad[20] ar Uniondeb a Thryloywder y Farchnad Ynni Cyfanwerthu (REMIT)[21].

Isod ceir manylion yr ymchwiliadau a gwblhawyd gennym eleni. Mewn ymchwiliadau lle rydym wedi sicrhau taliadau unioni, gwnaeth y cwmnïau daliadau naill ai'n uniongyrchol i ddefnyddwyr a/neu i raglenni a chronfeydd a fyddai'n elwa arnynt.

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Nwy Prydain | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 7A, 7B, 14A a 21B mewn perthynas â bilio a gwasanaeth cwsmeriaid i ficrobusnesau a defnyddwyr annomestig. | Setliad. Cytunodd Utilita Energy i dalu cosb o £1 a thaliadau unioni o £9.5 miliwn (llai £1). | Mehefin 2017 |
| E | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 25 (gwerthu a marchnata) a 13 (trefniadau mynediad i'r safle). | Setliad. Cytunodd E i dalu cosb o £1 a thaliadau unioni o £260,000 (llai £1). | Ionawr 2018 |

Isod ceir manylion y taliadau unioni a sicrhaodd Ofgem drwy gamau gweithredu amgen neu waith cydymffurfio. Mae hyn yn rhoi cyfle i gwmni unioni pethau'n gyflym i ddefnyddwyr heb i ni arfer ein pwerau gorfodi statudol.

| Cwmni | Mater | Canlyniad | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Nwy Prydain | Safonau Gwarantedig i gyflenwyr yn pennu safonau penodol o ran gwasanaeth cwsmeriaid | Wedi cau drwy gamau amgen. Cytunodd Nwy Prydain i dalu taliadau unioni o £1.1m ac mae wedi cymryd camau i newid ei brosesau gwasanaeth cwsmeriaid. | Gorffennaf 2017 |
| SSE | Newid cwsmeriaid i fesuryddion rhagdalu. | Wedi cau drwy gamau amgen. Cytunodd SSE i gymryd camau gwella er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd. | Tachwedd 2017 |
| Utilita | Cyfyngiadau Taliadau Rhagdalu – trothwyon defnydd. | Wedi cau. Gwnaethom fwrw golwg dros y mater hwn ac roeddem yn fodlon bod camau adferol priodol wedi cael eu cymryd a bod y cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt wedi cael iawndal priodol. | Rhagfyr 2017 |
| SSE | Switching customers to dead tariffs. | Closed through compliance action. We reviewed the issue and were satisfied that affected customers were appropriately compensated. SSE agreed to pay redress of £670,000. | Medi 2017 |
| E.On & Npower | Switching window for customers on fixed term tariffs. | Closed through compliance action. Both suppliers updated their processes and paid redress to affected customers for a combined total of over £21,000. | Tachwedd 2017 |

[17] https://www.ofgem.gov.uk/investigations
[18] https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2017/10/enforcement_guidelines_october_2017.pdf
[19] Nid yw'r ffaith ein bod wedi agor ymchwiliad yn awgrymu bod y cwmnïau dan sylw wedi torri amodau'r drwydded neu rwymedigaethau eraill.
[20] Rheoliad 1227/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor 25 Hydref 2011
[21] Mae ein Canllawiau Gweithdrefnol ar gyfer REMIT i'w gweld yn: https://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/consultation-decision-remit-penalties-statement-and-procedural-guidelines

Isod ceir yr ymchwiliadau agored fel yr oeddent ar ddiwedd mis Mawrth 2018. Noder, nid yw agor ymchwiliad yn awgrymu ein bod wedi gwneud unrhyw ganfyddiad(au) ynghylch diffyg cydymffurfiaeth. Nid yw Ofgem yn cyhoeddi gwybodaeth am bob ymchwiliad agored, yn arbennig pan fydd Ofgem yn cynnal ymchwiliadau i achosion posibl o fethu â chydymffurfio â gofynion REMIT. Fel rheol, nid ydym yn rhoi sylwadau pellach ar yr ymchwiliadau hyn, gan gynnwys pwy rydym yn ymchwilio iddo, oni chredwn fod angen gwneud hynny er budd defnyddwyr neu hyder y farchnad.

| Cwmni | Dyddiad Agor | Mater |
|---|---|---|
| Npower | Medi 2014 | Ymchwiliad i ganfod a yw npower wedi cydymffurfio ag Amod Trwydded Safonol 12 o ran cymryd pob cam rhesymol i osod uwch fesuryddion ar safleoedd ei gwsmeriaid annomestig mwy o faint a chyflenwi trydan drwyddynt. |
| Extra Energy | Gorffennaf 2016 | Ymchwiliad i ganfod p'un a yw Extra Energy wedi cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Amodau Trwydded Safonol 7B, 14, 21B, 25C, 27, 31A ac â'r Rheoliadau Trin Cwynion Defnyddwyr o ran bilio, gwasanaeth cwsmeriaid a delio â chwynion. |
| Economy Energy | Medi 2016 | Ymchwiliad i ganfod p'un a yw Economy Energy wedi cydymffurfio â'r amodau perthnasol yn Amod Trwydded Safonol 25 o ran ei rwymedigaethau gwerthu a marchnata. |
| Heb ei ddatgelu | Hydref 2016 | Ymchwiliad i ganfod p'un a dorrwyd Pennod I o Ddeddf Cystadleuaeth 1998 o ran cytundebau nad oeddent yn gystadleuol o bosibl ac arferion ar y cyd. |
| British Gas | Mehefin 2017 | Ymchwiliad i ganfod p'un a yw Nwy Prydain wedi cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Amodau Trwydded Safonol 24 a 25C mewn perthynas â therfynu contractau cyflenwi domestig. |
| SSE | Hydref 2017 | Ymchwiliad i ganfod p'un a yw SSE wedi cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 31A a 25C mewn perthynas â darparu gwybodaeth am Ddatganiadau Blynyddol i gwsmeriaid domestig. |
| Ovo | Chwefror 2018 | Ymchwiliad i ganfod p'un a yw Ovo wedi cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 31A a 25C/0 mewn perthynas â gwybodaeth am filiau, datganiadau cyfrif a Datganiadau Blynyddol. |
| Iresa | Chwefror 2018 | Ymchwiliad i ganfod p'un a yw Iresa wedi cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 14, 23.3, 23.4, 25C/0, 27.5 i 27.8, 27.16 a'r Rheoliadau Trin Cwynion Defnyddwyr. |
| Heb ei ddatgelu | Gorffennaf 2017 | Ymchwiliad i ganfod p'un a yw gofynion Pennod II Deddf Cystadleuaeth 1998 a/neu Erthygl 102 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd wedi cael eu torri mewn perthynas â chamddefnydd posibl o sefyllfa flaenllaw gan gwmni sy'n darparu gwasanaethau i'r diwydiant ynni. |

# Appendix IV
# Penodeion nad ydynt ar y gyflogres

### Ymrwymiadau nad ydynt ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2018, sy'n costio mwy na £220 y diwrnod ac yn para am fwy na chwe mis

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r sefyllfa ar ymrwymiadau nad ydynt ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2018:

| **Nifer yr ymrwymiadau presennol ar 31 Mawrth 2018** | **8** |
|---|---|
| O'r cyfanswm hwnnw: | |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn ar adeg adrodd. | 4 |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar adeg adrodd. | 2 |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd. | 2 |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd. | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am bedair blynedd neu fwy ar adeg adrodd. | 0 |

Mae pob ymrwymiad nad yw ar y gyflogres sydd eisoes yn bodoli, a amlinellir uchod, wedi bod yn destun asesiad ar sail risg ar ryw adeg i weld a oes angen sicrhau bod yr unigolyn yn talu'r swm cywir o dreth a, lle bo angen, fod y sicrwydd hwnnw wedi'i gadarnhau.

### Ymrwymiadau newydd nad ydynt ar y gyflogres, neu'r rhai sydd wedi para am chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, sy'n costio mwy na £220 y diwrnod ac sy'n para am fwy na chwe mis

| **Nifer yr ymrwymiadau newydd, neu'r rhai sydd wedi para chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018** | **10** |
|---|---|
| Nifer yr ymrwymiadau hyn uchod sy'n cynnwys cymalau cytundebol sy'n rhoi'r hawl i'r adran ofyn am sicrwydd mewn perthynas â rhwymedigaethau treth incwm ac Yswiriant Gwladol | 4 |
| Nifer yr ymrwymiadau y gofynnwyd am sicrwydd mewn perthynas â hwy | 3 |
| O'r cyfanswm hwnnw: | |
| Nifer yr ymrwymiadau y cafwyd sicrwydd mewn perthynas â hwy | 3 |
| Nifer yr ymrwymiadau na chafwyd sicrwydd mewn perthynas â hwy | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau a derfynwyd am na chafwyd sicrwydd mewn perthynas â hwy. | 0 |

### Ymrwymiadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018

| | |
|---|---|
| Nifer ymrwymiadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol. | 0 |
| Nifer yr unigolion y tybiwyd eu bod yn "aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys ymrwymiadau nad ydynt ar y gyflogres a rhai sydd ar y gyflogres. | 2 |

# Atodiad V
# Amser Cyfleuster Undeb Llafur

**Tabl 1**
**Swyddogion undeb perthnasol**

Beth oedd cyfanswm nifer eich cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol?

| Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol | Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|
| 10 | 816 |

**Tabl 2**
**Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster**

Faint o'ch cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd yn ystod y cyfnod perthnasol, wnaeth dreulio a) 0%, b) 1%-50%, c) 51%-99% neu d) 100% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster?

| Canran yr amser | Nifer y cyflogeion |
|---|---|
| 0% | 1 |
| 1-50% | 9 |
| 51%-99% | 0 |
| 100% | 0 |

**Tabl 3**
**Canran y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster**

Nodwch y ffigurau y gofynnir amdanynt yng ngholofn gyntaf y tabl i bennu canran cyfanswm eich bil cyflogau a wariwyd ar dalu cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol am amser cyfleuster yn ystod y cyfnod perthnasol.

| | |
|---|---|
| Nodwch gyfanswm cost amser cyfleuster | 11,232 |
| Nodwch gyfanswm y bil cyflogau | 51,071,000 |
| Nodwch ganran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster, wedi'i chyfrifo fel a ganlyn:<br>(cyfanswm cost amser cyfleuster ÷ cyfanswm bil cyflogau) x 100 | 0.022% |

**Tabl 4**
**Gweithgareddau undeb llafur â thâl**

Fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl, sawl awr a dreuliwyd gan gyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ar weithgareddau undeb llafur â thâl?

| | |
|---|---|
| Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl, wedi'i chyfrifo fel a ganlyn:<br><br>cyfanswm yr oriau a dreuliwyd gan swyddogion undeb perthnasol ar weithgareddau undeb perthnasol â thâl yn ystod y cyfnod perthnasol ÷ cyfanswm oriau amser cyfleuster â thâl) x 100 | 24% |